

Cylchlythyr | Circular

Cyfarwyddyd ymgeisio cynlluniau mynediad a ffioedd 2020/21

Dyddiad: 15 Chwefror 2019
Reference: W19/01HE
At: Cyrff llywodraethu sefydliadau yng Nghymru sy'n ceisio rheoleiddiad gan CCAUC i gael eu dynodi'n awtomatig am eu cyrsiau llawn amser a TAR (SAC) ar gyfer 2020/21

Ymateb erbyn: **22 Mawrth 2019**
Cyswllt: Enw: Jane Johns
Steve Williams
Ffôn: 029 2085 9732
029 2085 9744
Ebst: cyngorrheoleiddio@hefcw.ac.uk

Mae'r cyfarwyddyd yn darparu gwybodaeth am gyflwyno ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd 2020/21.

Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat hygyrch arall, e-bostiwch info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

Mae'r adran hon yn darparu cyflwyniad i broses cynlluniau mynediad a ffioedd CCAUC, gan gynnwys crynodeb o'r cefndir a'r cyd-destun deddfwriaethol.

	Rhif tudalen
Cyflwyniad	4
Cydraddoldeb ac amrywiaeth ac asesiad effaith CCAUC	6
Rhagor o wybodaeth a chyngor	7
Adran Un: Gwybodaeth Reoleiddiol	9
Meini prawf ar gyfer bod yn sefydliad	9
Meini prawf ar gyfer bod yng Nghymru	9
Meini prawf ar gyfer darparu addysg uwch	10
Meini prawf ar gyfer bod yn elusen	11
Hyfywedd Ariannol	11
Trefnu a rheoli materion ariannol	14
Ansawdd yr addysg a ddarperir gan sefydliad neu ar ei ran	15
Adran Dau: Cynlluniau Mynediad a Ffioedd	18
Tudalen cynnwys	20
Crynodeb gweithredol	21
Hyd y cynllun mynediad a ffioedd.....	21
Lefelau ffioedd.....	21
Partneriaeth myfyrwyr	23
Adolygiad Strategol	23
Adnabod a dangos tystiolaeth o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch	24
Amcanion, gweithgareddau a thargedau.....	26
Buddsoddiad incwm ffioedd	30
Monitro a gwerthuso cynlluniau mynediad a ffioedd.....	31
Adran Tri: Proses cynlluniau mynediad a ffioedd CCAUC 2020/21	33
Cyflwyno	33
Asesiad CCAUC o gynlluniau mynediad a ffioedd	34
Proses CCAUC ar gyfer cymeradwyo a gwrthod cynlluniau mynediad a ffioedd	35
Amrywiad ar gynllun mynediad a ffioedd.....	37
Adran Pedwar: Nodiadau ar gyfer llenwi Tablau A i G yn Atodiad B	39
Nodiadau ar gyfer llenwi'r Tablau yn Atodiad B.....	39
Archwilio'r data a nodir yn Atodiad B.....	40
Tabl A – Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd a buddsoddiad, 2020/21	40

Tabl B – Gwariant disgwylidig incwm y cynllun mynediad a ffioedd, 2020/21	41
Tabl C – Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig llawn amser a TAR (SAC) o dan y drefn ffioedd bresennol, 2020/21	41
Tabl D – Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig llawn amser a TAR (SAC) o dan y drefn ffioedd bresennol ar gyfer darpariaeth partneriaeth yn y DU, 2020/21	43
Tabl E – Cytundebau partneriaeth ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr pob dull a lefel, gan gynnwys addysg bellach ac is, ar gyfer darpariaeth partneriaeth yn y DU nad yw wedi'i chynnwys eisoes yn Nhabl D, 2020/21	43
Tabl F – Trefniadau partneriaeth a champws ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr pob dull a lefel, gan gynnwys addysg bellach ac is, ar gyfer darpariaeth partneriaeth a champws y tu allan i'r DU, 2020/21	44
Tabl G – Targedau	45
Templed cynllun mynediad a ffioedd 2020/21 – grid cyflwyno Atodiad B.....	47
Atodiad 1: Crynodeb o'r newidiadau allweddol sydd wedi'u gwneud i gyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd 2020/21	49
Atodiad 2: Amserlen ar gyfer proses cynlluniau mynediad a ffioedd 2020/21 ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n bwriadu sicrhau cymeradwyaeth erbyn Mehefin/Gorffennaf 2019.....	50

Atodiadau

Darperir ffurflen gais y cynllun mynediad a ffioedd mewn dau atodiad:

Atodiad A – Gwybodaeth reoleiddiol a'r cynllun mynediad a ffioedd (templed Word)

Atodiad Ai – Tabl i fapio amcanion y cynllun mynediad a ffioedd yn erbyn categorïau Llywodraeth Cymru

Atodiad B – Buddsoddiad, recriwtio a gwybodaeth darged y cynlluniau mynediad a ffioedd (templed Excel)

Cyflwyniad

1. Mae'r cyfarwyddyd yn darparu gwybodaeth am gyflwyno ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd 2020/21. Cynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy yw'r cyfrwng i sefydliadau gael eu rheoleiddio gan CCAUC. Bydd cyrsiau israddedig llawn amser a TAR (SAC) yr holl sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio gan CCAUC yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cefnogaeth myfyrwyr.
2. Nod Llywodraeth Cymru yw i gynlluniau mynediad a ffioedd wneud cyfraniad arwyddocaol a pharhaus at ehangu mynediad i addysg uwch yng Nghymru.
3. Dim ond sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac sy'n elusennau gaiff gyflwyno ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd. Rhaid i'r sefydliadau ddarparu gwybodaeth ddigonol i ddangos tystiolaeth eu bod yn bodloni'r meini prawf hyn, yn ogystal â chyflwyno gwybodaeth am ansawdd eu haddysg, eu hyfywedd ariannol a'r rheolaeth ar faterion ariannol.
4. Mae cyrff llywodraethu sefydliadau sy'n gwneud cais am gynlluniau mynediad a ffioedd yn gyfrifol am y ceisiadau a gyflwynir i CCAUC ac, os cânt eu cymeradwyo gan CCAUC, am gydymffurfio â gofynion y system reoleiddiol yng Nghymru.¹
5. Rhaid i gynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy nodi'r ffioedd israddedig llawn amser a TAR (SAC) y bydd y sefydliadau a reoleiddir yn eu codi yn 2020/21 neu ddarparu ar gyfer penderfynu ar ffi ar gyfer 2020/21. Ni all y ffioedd fod yn uwch na'r terfynau ffioedd uchaf a bennir gan Lywodraeth Cymru.²
6. Dim ond sefydliadau a reoleiddir fydd yn gallu ychwanegu cyrsiau israddedig llawn amser at System Rheoli Cyrsiau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC). Os darperir addysg uwch ar ran sefydliad a reoleiddir, mae'r sefydliad a reoleiddir yn gyfrifol am gynnwys y cyrsiau hyn ar System Rheoli Cyrsiau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.
7. Mae'r cyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd yn cynnwys gwybodaeth am yr wybodaeth reoleiddiol y mae'n rhaid i sefydliadau ddangos tystiolaeth ohoni, gofynion cynllun mynediad a ffioedd a phroses ymgeisio'r cynllun mynediad a ffioedd.
8. Mae'r cyfarwyddyd hwn wedi cael ei adolygu yn dilyn [adolygiad o dair blynedd cyntaf y cynlluniau mynediad a ffioedd gan AU Ymlaen](#). Dylai sefydliadau nodi canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad ar gyfer sefydliadau. Mae AU Ymlaen wedi awgrymu y gall y fframwaith adolygu fod yn rhestr wirio ddefnyddiol i sefydliadau ei defnyddio wrth gwblhau cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Gellir gweld y newidiadau o gyfarwyddyd y llynedd yn **Atodiad 1**.

¹ Nodir y rhwymedigaethau ar gyfer sefydliadau a reoleiddir ar ein [gwefan](#).

² [Rheoliadau Addysg Uwch \(Symiau\) \(Cymru\) 2015](#)

9. Dylai pob sefydliad sy'n gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd am y tro cyntaf gysylltu â CCAUC cyn ymgeisio.

Deddfwriaeth a dogfennau polisi

10. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn seiliedig ar y canlynol:
- [Deddf Addysg Uwch \(Cymru\) 2015](#) (Deddf 2015), y nodiadau esboniadol a'r Rheoliadau cysylltiedig³
 - [Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar baratoi ar gyfer cyflwyno'r system reoleiddio newydd](#)
 - [Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar baratoi ar gyfer gweithredu'r system reoleiddio newydd yn llawn ar gyfer addysg uwch yng Nghymru](#) a
 - [Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i CCAUC ar gynlluniau mynediad a ffioedd](#), a ddarperir ar [wefan CCAUC](#).
11. Mae cyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd CCAUC wedi'u datblygu gan ystyried y canlynol:
- [Deddf Cydraddoldeb \(2010\)](#)
 - [Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus](#) yng Nghymru (2011)
 - [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(2017\)](#)
 - [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) \(2015\)](#) a
 - [Datganiad Llesiant CCAUC](#) (2018).
12. Dylai darparwyr addysg uwch sy'n gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd ystyried y cyhoeddiadau canlynol gan CCAUC wrth gwblhau eu cais:
- [Strategaeth Gorfforaethol](#)
 - [Llythyr cylch gwaith](#) at CCAUC gan Lywodraeth Cymru
 - [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#)
 - [Mesurau cenedlaethol CCAUC](#)
 - [Datganiad o Ymyriad](#)
 - [Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru](#)
 - [Cod Rheolaeth Ariannol](#)
 - [Cyfarwyddyd ar Drefniadau Partneriaeth ar gyfer Addysg Freiniol a Ddarperir ar ran Sefydliadau a Reoleiddir yng Nghymru](#) (cyfeirir ato yn y cyfarwyddyd hwn fel y Cyfarwyddyd ar Drefniadau Partneriaeth).

Amserlen

13. Mae'r amserlen ar gyfer proses cynlluniau mynediad a ffioedd 2020/21 ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n bwriadu sicrhau cymeradwyaeth erbyn mis Gorffennaf 2019 wedi'i chynnwys yn **Atodiad 2**.

³ [Rheoliadau Addysg Uwch \(Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol\) \(Cymru\) \(Diwygiad\) 2016](#); [Rheoliadau Addysg Uwch \(Cynlluniau Mynediad a Ffioedd\) 2015](#); [Rheoliadau Addysg Uwch \(Symiau\) \(Cymru\) 2015](#); [Rheoliadau Addysg Uwch \(Dynodi Darparwyr Addysg Uwch\) \(Cymru\) 2015](#); [Rheoliadau Addysg Uwch \(Hysbysiadau a Chyfarwyddiadau Cynlluniau Mynediad a Ffioedd\) \(Cymru\) 2015](#); [Rheoliadau Addysg Uwch \(Cynlluniau Mynediad a Ffioedd\) \(Hysbysiadau, Gweithdrefnau a Chyhoeddi\) \(Cymru\) 2016](#).

Y Ddyletswydd Atal

14. Bydd unrhyw sefydliad sydd â chynllun mynediad a ffioedd wedi'i gymeradwyo'n cael ei ddsbarthu fel corff addysg uwch perthnasol a bydd rhaid iddo gydymffurfio ar unwaith â deddfwriaeth y Ddyletswydd Atal, os nad yw'n gwneud hynny eisoes. **Mae'r rhai sydd â phencadlys yng Nghymru'n dod o dan awdurdod monitro CCAUC oni bai eu bod wedi'u harolygu eisoes gan Estyn.**⁴ Mae cylchlythyr [W16/39HE](#) Fframwaith Monitro CCAUC yn datgan sut mae CCAUC yn monitro dull darparwyr o weithredu'r Ddyletswydd Atal statudol. Rhaid i gyrff addysg uwch perthnasol ddilyn y fframwaith hwn i ddangos ystyriaeth briodol i'r Ddyletswydd. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â prevent@hefcw.ac.uk.
15. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys geirfa o dermau, ar gael ar [wefan](#) CCAUC ac o'r cyfeiriadau e-bost canlynol: cyngorrheoleiddio@hefcw.ac.uk neu regulationadvice@hefcw.ac.uk.

Dynodi cyrsiau eraill

16. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn ymwneud â chefnogaeth myfyrwyr llawn amser a TAR (SAC) yn unig. Mae'r holl sefydliadau a gyllidir yn gyhoeddus⁵ yng Nghymru'n cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cefnogaeth myfyrwyr i gyrsiau israddedig rhan amser, cyrsiau ôl-radd llawn amser a rhan amser, a chysiau doethuriaeth. Nid yw'r ddarpariaeth ran amser hon yn cael ei rheoleiddio.
17. Gall darparwyr addysg uwch sy'n methu, neu'n dewis peidio, gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd wneud cais am i'w cyrsiau israddedig llawn amser a TAR (SAC) gael eu dynodi'n benodol ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru fesul cwrs. Hefyd, gall darparwyr nad ydynt yn derbyn arian cyhoeddus ac sy'n dymuno i'w cyrsiau rhan amser neu ôl-radd gael eu dynodi ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru wneud cais am iddynt gael eu dynodi'n benodol fesul cwrs. Am fwy o wybodaeth am y broses ddynodi benodol, cysylltwch â cyngorrheoleiddio@hefcw.ac.uk. Dylai'r sefydliadau drafod y trefniadau dynodi cyrsiau ar gyfer myfyrwyr sy'n byw mewn rhannau eraill o'r DU gyda gweinyddiaethau eraill y DU.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth ac asesiad effaith CCAUC

18. Fel awdurdod cyhoeddus, mae gan CCAUC gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a [Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus](#) i roi ystyriaeth briodol i faterion cydraddoldeb wrth ddatblygu a gweithredu ei bolisiau. Hefyd, mae gan CCAUC ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol) a

⁴ Bydd darparwyr heb bencadlys yng Nghymru'n cael eu monitro gan yr awdurdod perthnasol yn y wlad honno.

⁵ Ystyr sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus yw sefydliad yn y Deyrnas Unedig sy'n cael ei gynnal neu ei gynorthwyo gan grantiau cyson o gyllid a ddarperir gan: (a) Y Senedd; (b) Gweinidogion Cymru; (c) Gweinidogion yr Alban; (d) Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, neu gan gyllid y gellir ei briodoli i gronfeydd o'r fath.

dyletswyddau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.⁶ Nid yw CCAUC yn rheoleiddiwr ar gydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i CCAUC ar gynlluniau mynediad a ffioedd (paragraff 4.18) yn datgan y gall grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch gynnwys unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig,⁷ fel y cydnabyddir gan y Ddeddf Cydraddoldeb.

19. Cynhwysodd CCAUC gwestiynau penodol yn gysylltiedig â chydaddoldeb yn ei [ymgyngoriad eang ar gyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd 2017/18](#), y mae'r cyfarwyddyd hwn wedi'i seilio arno. Anogodd CCAUC yr ymatebion i'r ymgynghoriad i nodi unrhyw effeithiau a allai fod yn negyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, yr iaith Gymraeg a'r nodau llesiant, fel y nodir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae CCAUC yn adolygu'r data a'r dystiolaeth sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig a'r iaith Gymraeg, lle mae ar gael i CCAUC. Mae CCAUC yn parhau i groesawu tystiolaeth ychwanegol fel sail i ddatblygu a gweithredu polisiau cynlluniau mynediad a ffioedd. Anfonwch unrhyw dystiolaeth a/neu gyngor ychwanegol i equality@hefcw.ac.uk.
20. Mae CCAUC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'r cyhoedd yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Nodir ein safonau gwasanaeth yn ein [Hysbysiad cydymffurfio](#) a [Safonau'r Iaith Gymraeg Cynllun Gweithredu](#). Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein [gwefan](#).
21. Mae cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan bwysig a nodedig o addysg uwch yng Nghymru. Mae CCAUC yn cefnogi datblygiad addysg uwch cyfrwng Gymraeg ac mae'n gweithio gyda darparwyr addysg uwch i gynyddu'r cofrestradau ar gyrsiau cyfrwng Gymraeg. Wrth ddatblygu cynlluniau mynediad a ffioedd, dylai sefydliadau ystyried darpariaeth cyfrwng Gymraeg.
22. Mae [Datganiad Llesiant](#) CCAUC yn nodi ein hymrwymiad i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) Llywodraeth Cymru, ei nodau a'i ffordd o weithio. Byddwn yn cyflwyno ein hamcanion llesiant drwy gyfrwng ein Strategaeth Gorfforaethol. Mae prosesau cynlluniau mynediad a ffioedd yn cyfrannu at y rhan fwyaf o'r nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, yn benodol, Cymru lewyrchus, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru â diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu. Byddwn yn parhau i gyflawni ein hamcanion llesiant. Gan ystyried y lefel ddisgwyliedig o newid ar gyfer CCAUC ac addysg uwch, ein bwriad i ddechrau yw adolygu ein hamcanion llesiant cychwynnol yn flynyddol.

Rhagor o wybodaeth a chyngor

23. Mae Deddf 2015 yn galluogi CCAUC i ddarparu gwybodaeth a chyngor i gorff llywodraethu sefydliad a reoleiddir a darpar sefydliadau. Nod CCAUC yw sicrhau bod yr holl sefydliadau yn gwbl ymwybodol o'u rhwymedigaethau cyn iddynt ddod yn sefydliad a reoleiddir a lleihau'r baich gweinyddol ar sefydliadau ac ar CCAUC ym mhob cam o'r broses ymgeisio.

⁶ Cyhoeddwyd rheoliadau safonau'r Gymraeg, sy'n berthnasol i CCAUC, yn gynnar yn 2017.

⁷ Nodweddion gwarchoddedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaethau sifil, hil, crefydd a chred a diffyg cred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

24. Mae cyfeiriad e-bost ar wahân ar gael gan CCAUC ar gyfer ymholiadau ynghylch gweithredu Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, gan gynnwys ymholiadau am gynlluniau mynediad a ffioedd. Anfonwch unrhyw ymholiadau ar e-bost i naill ai: cyngorrheoleiddio@hefcw.ac.uk neu regulationadvice@hefcw.ac.uk.

Adran Un: Gwybodaeth Reoleiddiol

25. Mae'r adran hon yn darparu cyfarwyddyd ar y math o wybodaeth y mae'n ofynnol i sefydliadau ei gyflwyno er mwyn dangos eu bod yn gymwys i wneud cais am gynllun mynediad a ffioedd. Rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon fel rhan o **Atodiad A** oni bai y nodir fel arall.
26. Mae arnom angen tystiolaeth sy'n dangos y canlynol am yr ymgeisydd:
- mae'n sefydliad
 - mae wedi'i leoli'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru
 - mae'n darparu addysg uwch
 - mae'n elusen
 - mae'n hyfyw yn ariannol
 - mae'n cael ei reoli'n dda yn ariannol
 - mae'n darparu addysg safonol.
27. Os oes gan CCAUC wybodaeth ddigonol a diweddar, byddwn yn ei defnyddio, yn amodol ar ganiatâd y corff llywodraethu i wneud hynny. Mae sefydliadau hefyd yn gallu cyflwyno gwybodaeth newydd, ychwanegol neu fwy diweddar fel sail i'n prosesau asesu. Os nad oes gan CCAUC wybodaeth neu ddata digonol, diweddar, mae'n ofynnol i sefydliadau eu darparu i gefnogi eu ceisiadau. Dylai'r holl ddata a gyflwynir fel tystiolaeth fod y data mwyaf cyfredol a rhaid gallu eu dilysu.
28. Mae CCAUC yn cadw'r hawl i ymweld â sefydliadau er mwyn deall yn well y cymhwysedd yn gysylltiedig â'r sefydliad a'r rheolaeth ar faterion ariannol ac ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau os yw'r wybodaeth yn aneglur neu'n annigonol.
29. Mae'r wybodaeth a gyflwynir ar gyfer yr adran hon er gwybodaeth i ni yn unig ac nid oes raid i sefydliad ei chyhoeddi.

Meini prawf ar gyfer bod yn sefydliad

30. Nid yw Deddf 2015 yn diffinio'r term 'sefydliad' yn benodol. Mae'r esiamplau o'r cyrff mae CCAUC yn eu hystyried fel sefydliadau'n cynnwys y canlynol: prifysgolion a ffurfiwyd gan Siarter Brenhinol, Corfforaethau Addysg Uwch a Chorfforaethau Addysg Bellach. Dylai'r cyrff cynnwys dolen at y dogfennau sy'n cefnogi'r wybodaeth hon, neu gyflwyno'r wybodaeth honno os nad yw ar gael yn gyhoeddus.
31. Bydd rhaid i ddarparwyr sy'n dymuno gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd nad ydynt yn cyd-fynd â'r diffiniad o sefydliad ddarparu gwybodaeth i ddangos eu bod yn sefydliad. Gall Llywodraeth Cymru [ddynodi sefydliad at ddibenion y Ddeddf](#).

Meini prawf ar gyfer bod yng Nghymru

32. Bydd CCAUC yn ystyried sefydliadau fel rhai sydd yng Nghymru drwy ystyried gwybodaeth amrywiol. Bydd asesiad CCAUC o leoliad gweithgareddau

sefydliadau'n cynnwys y dystiolaeth a ddarperir yn y cais. Dylai'r ceisiadau gynnwys y canlynol:

- i. enw'r sefydliadau
- ii. prif gyfeiriadau a chyfeiriadau cyfreithiol y sefydliadau ⁸
- iii. [rhif cofrestru darparwr yn y DU](#) y sefydliadau
- iv. unrhyw enwau eraill mae'r sefydliadau'n gweithredu oddi tanynt
- v. lleoliadau'r holl weithgareddau dysgu ac addysgu y mae gan y sefydliadau ddiddordeb ynddynt, gan gynnwys lleoliadau yng Nghymru, gweddill y DU a thramor
- vi. dolenni at dudalennau'r sefydliadau ar y we'n ymwneud â gweithgareddau dysgu ac addysgu'r sefydliadau a
- vii. manylion am ble mae mwyafrif y myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn wedi'u lleoli. Bydd cyfanswm y niferoedd cyfwerth ag amser llawn sy'n mynychu cyrsiau a gyflwynir yng Nghymru'n cael eu cymharu â chyfanswm yr holl fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn sy'n mynychu cyrsiau a gyflwynir y tu allan i Gymru.

Meini prawf ar gyfer darparu addysg uwch

33. Bydd CCAUC yn ystyried sefydliad yng Nghymru fel sefydliad sy'n darparu addysg uwch os yw ei ddarpariaeth yn cynnwys cwrs neu gyrsiau addysg uwch, heb ystyried dull, sydd wedi'u rhestru yn [Atodlen 6 Deddf Diwygio Addysg 1988](#). Bydd CCAUC yn gofyn i geisiadau ddarparu'r wybodaeth ganlynol er mwyn ei alluogi i asesu a yw cyrsiau addysg uwch yn cael eu darparu:
 - i. disgrifiad o'r addysg uwch a ddarperir gan y sefydliad
 - ii. rhestr o'r cymwysterau a gyflwynir yn uniongyrchol ac ar ei ran
 - iii. nifer y myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn sy'n dilyn y cyrsiau addysg uwch ar ddyddiad cyflwyno'r cais a nifer y myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn yn dilyn y cyrsiau addysg uwch yn ystod y tair blynedd flaenorol
 - iv. lleoliad neu leoliadau'r ddarpariaeth addysg uwch a ddarperir yn uniongyrchol ac ar ei ran
 - v. dolen at dudalennau gwe'r sefydliad sy'n berthnasol i weithgareddau dysgu ac addysgu'r sefydliad.
34. Rhaid i sefydliadau fod â rheolaeth ar y cyrsiau cymhwyso sydd oddi mewn i gwmpas y cynllun mynediad a ffioedd. Mae sefydliad yn rheoli'r cwrs os yw'n darparu'r cwrs yn uniongyrchol. Nid yw sefydliad yn rheoli'r cwrs os yw'r cwrs yn cael ei ddarparu ar ran sefydliad arall ee o dan gytundeb rhyddfrait.
35. Y ffactorau sy'n rhan o asesu hyn yw'r corff sydd â chyfrifoldeb am gynnwys cyffredinol y cwrs (cyrsiau) cymhwyso a'i ddarparu, y trefniadau asesu ansawdd a'r chyfrifoldeb cytundebol i'r myfyriwr. Bydd CCAUC yn ystyried sut mae'r ddau barti'n diffinio hyn ond, yn y pen draw, CCAUC sydd i gadarnhau a yw'r ddarpariaeth yn cael ei darparu gan, neu ar ran, y sefydliad.

⁸ Mae cyfraith achos yn awgrymu bod y term 'prif swyddfa' yn golygu lleoliad ble mae busnes corff corfforaethol yn cael ei reoli yn gyffredinol – cyfeirir at achos yn yr *Halsbury's Statutes of England and Wales*, 4ydd rhifyn, Cyfrol 8, 1999 Ailgyhoeddiad ar dudalen 366. Fel rheol bydd CCAUC yn defnyddio'r ystyr hwn wrth gyfeirio at brif gyfeiriad.

36. Fel rheol, bydd sefydliad sy'n darparu addysg uwch o dan drefniadau dilysu'n cael ei ystyried fel sefydliad sy'n rheoli'r cwrs. Bydd CCAUC eisïau gweld copïau o gytundebau gyda'r corff dyfarnu sy'n dangos bod gan y sefydliad gyfrifoldeb cyffredinol am y cynnwys ac am gyflwyno'r cyrsïau cymhwyso. Rhaid i'r holl gymwysterau gael eu dyfarnu gan [gorff cydnabyddedig](#).
37. Bydd sefyllfaoedd lle mae sefydliad yn darparu addysg uwch yn uniongyrchol ac yn darparu addysg uwch ar ran corff arall. Yn y sefyllfaoedd hyn, dim ond y cyrsïau mae'n eu darparu'n uniongyrchol sy'n dod oddi mewn i gwmpas ei gynllun mynediad a ffioedd, nid y cyrsïau mae'n eu darparu o dan y trefniant rhyddfrait (a fydd yn gyfrifoldeb y rhyddfrefniwr ac wedi'i ddatgan yn ei gynllun).
38. Bydd gan rai sefydliadau gyrsïau israddedig llawn amser sy'n cael eu darparu ar eu rhan. Mae'r cyrsïau hyn oddi mewn i gwmpas cynllun mynediad a ffioedd y sefydliad.
39. Os yw'r corff partner yn darparu addysg uwch ar ran sefydliad a reoleiddir, rhaid i'r partner fod yn endid cyfreithiol ar wahân ac yn elusen er mwyn i'r ddarpariaeth fod yn gymwys ar gyfer cefnogaeth myfyrwyr. Ni fydd gan y partner gyfrifoldeb am gynnwys cyffredinol y cwrs cymhwyso a'i ddarparu.
40. Ni fydd is-gwmnïau sefydliadau sy'n ymgeisio am gynlluniau mynediad a ffioedd sy'n endidau cyfreithiol ar wahân yn dod oddi mewn i gwmpas cais y rhiant-sefydliad yn awtomatig. Os bydd sefydliad yn dymuno i gyrsïau sy'n cael eu cyflwyno gan ei is-gwmni ddod oddi mewn i gwmpas ei gynllun mynediad a ffioedd, bydd rhaid iddo gadarnhau bod ganddo gytundeb ar gyfer yr is-gwmni hwnnw, i gyflwyno addysg ar ei ran.
41. Bydd rhaid i unrhyw sefydliad sy'n is-gwmni ac yn endid cyfreithiol ar wahân ddangos tystiolaeth ei fod yn rheoli'r cwrs gan gyfeirio at gytundeb gyda chorff cydnabyddedig. Bydd ymgeisydd o'r fath yn cael ei asesu fel sefydliad ar wahân ac yn bodloni'r holl ofynion rheoleiddiol eraill ar ei liwt ei hun.


Meini prawf ar gyfer bod yn elusen

42. Rhaid i sefydliadau sy'n ymgeisio am cynlluniau mynediad a ffioedd fod yn elusennau. Mae pob Prifysgol Siartredig yng Nghymru a'r holl Gorfforaethau Addysg Uwch yng Nghymru'n elusennau cofrestredig. Mae'r holl Gorfforaethau Addysg Bellach yn elusennau esempt. Bydd rhaid i sefydliadau eraill ddarparu eu rhif cofrestru fel elusen ac enw a chyfeiriad rheoleiddiwr eu helusen gofrestrdig. Os nad yw'r sefydliad wedi cofrestru gyda rheoleiddiwr elusennol, rhaid iddynt nodi'r rhesymau dros hyn, a hefyd cynnwys copi o'u dogfen lywodraethu.

Hyfywedd Ariannol

43. Rhaid i sefydliad ddarparu gwybodaeth i CCAUC am ei hyfywedd ariannol, gan gynnwys tystiolaeth sy'n gynaliadwy yn y tymor canolog. Dylai'r dystiolaeth fod yn ddigonol i roi hyder rhesymol i CCAUC na fydd myfyrwyr yn wynebu risg o fethu cwblhau eu cwrs o ganlyniad i fethiant ariannol.

44. Dylai sefydliadau ddarparu manylion llawn am eu strwythur grŵp corfforaethol, gan gynnwys manylion am yr holl gwmnïau neu sefydliadau grŵp, i gynnwys is-gwmnïau, rhiant-gwmnïau/cwmnïau daliannol neu fentrau ar y cyd.
45. Fel sy'n briodol, gall yr asesiad o hyfywedd ariannol ystyried trefniadau ariannol unrhyw strwythur grŵp (gan gynnwys is-gwmnïau, rhiant-gwmnïau/cwmnïau daliannol neu fentrau cyswllt a/neu ar y cyd) os credir bod hynny'n berthnasol i hyfywedd ariannol.
46. Rhaid i sefydliadau ddarparu gwybodaeth sy'n dangos y canlynol:
- i. **Perfformiad hanesyddol** – enw da am berfformiad ariannol a ddangosir drwy eu hadroddiadau blynyddol a datganiadau ariannol wedi'u harchwilio'n allanol ar gyfer y tair blynedd cyn y cais. Rhaid i'r cyfrifon gael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig. Ni ddylai hwn fod yr un cwmni a/neu unigolyn ag a baratodd y cyfrifon, i sicrhau bod modd i CCAUC fod â hyder llawn yn yr archwiliad. Sail y cyfrifon fydd yr Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (UK GAAP) (neu ofynion olynol) neu'r Safonau Cofnodion Ariannol Rhyngwladol (IFRS) os yw hynny'n briodol.
 - ii. **Strategaeth ariannol** – strategaeth ariannol sy'n adlewyrchu'r cynllun strategol cyffredinol sydd ar gael pan gyflwynir cais am gynllun mynediad a ffioedd, yn pennu meincnodau a dangosyddion perfformiad priodol, yn dangos sut bydd adnoddau'n cael eu defnyddio, a sut bydd gweithgareddau a seilwaith yn cael eu cyllido. Dylai hyn gynnwys sut mae sefydliadau yn asesu ac yn adolygu eu cynaliadwyedd, gan gynnwys y defnydd o asesiadau cynaliadwyedd.
 - iii. **Rhagolygon** – rhaid i sefydliadau allu darparu tystiolaeth, gyda chefnogaeth gwarant rhiant gwmni os oes angen, bod ganddynt y canlynol:
 - llif arian digonol i barhau'n solfent, hynny yw, hylifedd digonol i dalu dyledion fel maent yn dod yn ddyledus; a
 - mantolen ddigonol sy'n cynnal sefyllfa cyfanswm asedau net fel na fyddai'r sefydliad yn wynebu diffygion pe bai'r rhain yn arwain at sefyllfa o gyfanswm atebolrwydd net.



47. Dylai sefydliadau gyflwyno dolenni at eu cynllun strategol presennol a rhagolygon ariannol llawn ar gyfer y flwyddyn gyfredol (2018/19) a'r tair blynedd ganlynol. Dylai'r dystiolaeth gynnwys sylwebaeth ar y rhagdybiaethau sy'n cael eu gwneud a sut mae unrhyw risgiau ariannol yn cael eu rheoli. Os yw sefydliad wedi cyflwyno rhagolygon i CCAUC ym mis Gorffennaf 2018, gall CCAUC ddefnyddio'r rhain, gyda chaniatâd y corff llywodraethu i wneud hynny. Fodd bynnag, os caiff CCAUC ganiatâd i ddefnyddio'r rhagolygon hyn, bydd rhaid i'r sefydliad wneud y canlynol:

- cadarnhau, o ystyried unrhyw newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol, bod y 'llif arian gweithredol wedi'i addasu' a'r ffigurau 'gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn' ar gyfer holl flynyddoedd y rhagolygon yn parhau yr un fath yn sylfaenol; neu
- darparu esboniad manwl o'r newidiadau yn y rhagdybiaethau ers cyflwyno'r rhagolygon, gan gynnwys ffigurau allweddol (e.e. newidiadau o ganlyniad i recriwtio gwirioneddol 2018/19 a dangosyddion recriwtio 2019/20, gostyngiadau yng nghyllid CCAUC, newidiadau i incwm grant, newidiadau i gostau gweithredu, ac ati); neu
- cyflwyno ffurflen rhagolygon ariannol wedi'i hadolygu, yn seiliedig ar gylchlythyr [W18/12HE](#). (Sylwer y dylai'r ffurflen hon ddiweddarau'r ffigurau rhagolygon, ond nid ydym angen y naratif rhagolygon llawn o angenrheidrwydd, ar yr amod bod crynodeb manwl o'r prif symudiadau'n cael ei gyflwyno.)

48. Mae tablau ariannol a chyfarwyddyd ar gwblhau'r wybodaeth am ragolygon ar gael yng nghylchlythyr [W18/12HE](#) Ceisiadau am Ragolygon CCAUC 2018. Caiff sefydliadau nad ydynt wedi cwblhau model rhagolygon CCAUC yn flaenorol wneud cais am y model Microsoft Excel drwy anfon e-bost i assurance@hefcw.ac.uk.

49. Ni fydd asesiad CCAUC o berfformiad ariannol a chynaliadwyedd sefydliad yn cael ei ddefnyddio ar ei ben ei hun i benderfynu a yw'n bodloni'r gofyniad hwn

ai peidio. Bydd yr asesiad cynaliadwyedd ariannol yn farn gyffredinol a fydd hefyd yn ystyried cyd-destun sefyllfa ariannol y sefydliad a'i gynllun strategol.

Trefnu a rheoli materion ariannol

50. Bydd rhaid i sefydliadau ddarparu tystiolaeth eu bod yn cael eu rheoli'n dda, gydag arferion rheoli da yn eu lle a chapasiti i ddatblygu yn unol â'u cynllun strategol a'r strategaeth ariannol sy'n cefnogi eu cynllun mynediad a ffioedd.
51. Rhaid i sefydliadau ddarparu gwybodaeth i ddangos y canlynol:
- i. bod ganddo brosesau rheolaeth ariannol sy'n cael eu llywodraethu'n dda a'u rheoli'n ddigonol ac yn effeithiol;
 - ii. ei fod yn cynllunio ac yn rheoli gweithgareddau er mwyn parhau'n hyfyw;
 - iii. bod ganddo systemau cadarn a chynhwysfawr ar gyfer rheoli risg a rheolaeth fewnol;
 - iv. bod ganddo drefniadau effeithiol ar gyfer rheolaeth a sicrwydd ansawdd y data a ddefnyddir i wneud penderfyniadau mewnol;
 - v. bod ganddo wybodaeth reolaidd, ddibynadwy, amserol a digonol er mwyn monitro perfformiad gweithredol ac ariannol;
 - vi. ei fod yn adrodd yn ôl ar wybodaeth yn rheolaidd, yn gynhwysfawr ac yn gywir i'r uwch reolwyr priodol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
 - vii. ei fod yn rheoli ei ystad mewn ffordd gynaliadwy, yn unol â strategaeth ystadau;
 - viii. ei fod yn gallu bodloni'r holl ofynion casglu ac adrodd yn ôl ar ddata angenrheidiol ar gyfer CCAUC, gan gynnwys y rhai a weinyddir gan HESA a chyrrff eraill, fel sy'n ofynnol gan CCAUC. Dyma esiamplau:
 - yr archwiliad data allanol diweddaraf;
 - arolwg blynyddol HESES;
 - data myfyrwyr, cyrchfan myfyrwyr, staff, ystadau, cyllid a rhyngweithio busnes a chymuned a ddarparwyd i HESA; ac
 - y ffurflen sicrwydd flynyddol.
52. Wrth asesu'r galluedd rheoli data, rhoddir ystyriaeth, lle bo hynny'n berthnasol, i enw da'r sefydliad wrth gyflwyno data i CCAUC neu gyrff eraill, gan gynnwys HESA, Llywodraeth Cymru a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, a'i gydymffurfiaeth â'r cod ymarfer ar gyfer [casglu data addysg uwch](#) i baratoi data ar gyfer eu cyflwyno.
53. Rhaid i sefydliadau ddarparu tystiolaeth sy'n dangos eu bod yn gallu cydymffurfio ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Addysg Uwch⁹ (Pwyllgor o Gadeiryddion Prifysgolion, Rhagfyr 2014), oni bai fod modd dangos tystiolaeth o gadw at egwyddorion llywodraethu cadarn amgen. Mae CCAUC yn cydnabod mai gwirfoddol yw'r Cod a gall sefydliadau ddefnyddio arferion llywodraethu amgen er mwyn cyflawni canlyniadau tebyg. Fodd bynnag, mae CCAUC yn ystyried bod egwyddorion a chanlyniadau bwriadedig (y cyfeirir atynt fel 'yr Elfennau') y Cod yn gadarn. Os nad yw'n bosib dangos tystiolaeth o gydymffurfio â'r Cod, bydd CCAUC eisiau esboniad sy'n disgrifio'r trefniadau

⁹ [Cod Llywodraethu Addysg Uwch \(Pwyllgor o Gadeiryddion Prifysgolion\) Rhagfyr 2014](#)

amgen yr un mor gadarn sydd yn eu lle, neu sy'n dangos bod sail briodol a rhesymol ar gyfer peidio â chadw at hyn.

54. Os nad yw sefydliad yn cydymffurfio eisoes â'r Cod Llywodraethu Addysg Uwch, dylent drafod gyda CCAUC, cyn gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd, sut gallent ddarparu tystiolaeth o drefniadau amgen sydd yr un mor gadarn.
55. Bydd rhaid i sefydliad ystyried yr holl gyfarwyddyd perthnasol ar gyfrifoldebau ymddiriedolwyr ac ymddiriedolaeth effeithiol. Mae'r [cyfarwyddyd](#) hwn ar gael ar [wefan y Comisiwn Elusennau](#).
56. Rhaid i sefydliad ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:
 - i. eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion statudol sy'n berthnasol i archwilio allanol; a
 - ii. eu bod yn eiddo i ac yn cael eu rheoli a'u gweithredu gan 'bersonau addas a phriodol' drwy ddarparu'r canlynol:
 - tystiolaeth o bwy yw'r sefydliad a'r unigolion allweddol (er enghraifft, y Corff Llywodraethu, Is Ganghellor, Pennaeth, cyfarwyddwyr, cyfranddalwyr, ymddiriedolwyr), ynghyd â'u sgiliau a'u profiad; a
 - cadarnhad bod y cyfarwyddwyr / ymddiriedolwyr (fel sy'n berthnasol) yn gymwys i weithredu fel naill ai gyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr ac nad ydynt wedi'u hanghymhwyso rhag gweithredu fel cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr.

Ansawdd yr addysg a ddarperir gan sefydliad neu ar ei ran

57. Mae CCAUC yn gyfrifol am asesu neu wneud trefniadau ar gyfer asesu ansawdd yr holl addysg a ddarperir gan sefydliadau a reoleiddir ac ar ran sefydliadau a reoleiddir. Ystyrir addysg a ddarperir y tu allan i Gymru fel addysg a ddarperir yng Nghymru os yw'n cael ei darparu fel rhan o gwrs a ddarperir yn bennaf yng Nghymru. Bydd rhaid i sefydliad ddangos tystiolaeth bod ansawdd yr addysg yn ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n derbyn yr addysg neu'n ymgymryd â'r cwrs.
58. Ar hyn o bryd, ystyrir bod yr anghenion rhesymol o ran ansawdd addysg uwch yn cael eu diwallu os bydd darparwr yn cael canlyniad boddhaol mewn adolygiad sicrwydd ansawdd allanol.¹⁰ Mae hyn yn sicrhau bod yr asesu ansawdd yn fanwl. Ym mhob achos, bydd sefydliad sy'n cael canlyniad anfoddhaol yn cael ei farnu fel sefydliad sydd ag ansawdd annigonol, neu'n wynebu risg o hynny. Ystyrir bod yr anghenion rhesymol o ran darpariaeth heb fod yn ddarpariaeth addysg uwch yn cael eu diwallu os bydd darparwr yn cael adolygiad/arolwg llwyddiannus gan y corff priodol sy'n gyfrifol am safonau ansawdd y ddarpariaeth honno (e.e. [Estyn](#), [Pearson](#), ac ati). Hefyd bydd rhaid i dystiolaeth o adolygiad allanol gael ei hategu gan wybodaeth ychwanegol sy'n darparu sicrwydd parhaus bod ansawdd yr addysg yn parhau'n ddigonol, fel y nodir ym mharagraff 59.

¹⁰ Gweler yr wybodaeth sydd ar gael ar [dudalennau fframwaith asesu ansawdd CCAUC ar y we](#)

59. Ar gyfer ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd 2020/21, rhaid i sefydliad ddarparu'r canlynol *i gyd*:
- i. cadarnhad gan y sefydliad bod ganddo weithdrefnau asesu ansawdd mewnol yn eu lle ar gyfer ei holl ddarpariaeth addysg – boed yn ddarpariaeth gan y sefydliad ei hun neu ar ei ran. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth addysg uwch, a darpariaeth heb fod yn ddarpariaeth addysg uwch, e.e. ysgol, addysg bellach neu broffesiynol. Mae'n cynnwys addysg y mae'r sefydliad yn ei darparu'n uniongyrchol neu drwy ddarparwyr eraill o dan gytundebau is-gontract;
 - ii. cadarnhad a thystiolaeth bod ei holl ddarpariaeth addysg uwch, gan gynnwys yr addysg uwch a ddarperir ar ei ran (ee darpariaeth rhyddfrait), wedi cael canlyniadau boddhaol mewn adolygiad sicrwydd ansawdd allanol perthnasol. Rhaid i sefydliadau sydd eisiau cael eu rheoleiddio am y tro cyntaf ddangos eu bod wedi llwyddo mewn dau adolygiad QAA gyda phedair blynedd rhwng y ddau, a'r mwyaf diweddar fydd [Adolygiad Ansawdd Porth - Cymru](#). Rhaid i sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd ddangos eu bod wedi cael *Adolygiad Addysg Uwch: Cymru* neu *Adolygiad Gwella Ansawdd* llwyddiannus, neu broses adolygu allanol, gyfatebol yn asesu ansawdd yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Yn ystod y flwyddyn yn syth ar ôl adolygiad, os yw sefydliad sy'n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd wrthi'n mynd drwy ganlyniadau adolygiad er mwyn rhoi sylw i faterion a nodwyd, yn unol â'r gweithdrefnau arferol, byddem yn disgwyl iddo ddatgan yn fanwl sut mae'n rhoi sylw neu'n bwriadu rhoi sylw i'r canlyniadau hynny. Byddem yn disgwyl i'r camau gweithredu hyn gael eu cwblhau o fewn 12 mis;
 - iii. cadarnhad a thystiolaeth bod ei holl ddarpariaeth heb fod yn addysg uwch, ac unrhyw ddarpariaeth heb fod yn addysg uwch a ddarperir ar ei ran, wedi cael ei hadolygu/arolygu'n llwyddiannus gan y corff priodol sy'n gyfrifol am safonau ansawdd y ddarpariaeth honno. Yn ystod y flwyddyn yn syth ar ôl adolygiad/arolwg, os yw sefydliad sy'n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd wrthi'n mynd drwy ganlyniadau adolygiad/arolwg er mwyn rhoi sylw i faterion a nodwyd, yn unol â'r gweithdrefnau arferol, byddem yn disgwyl iddo ddatgan yn fanwl sut mae'n rhoi sylw neu'n bwriadu rhoi sylw i'r canlyniadau hynny. Byddem yn disgwyl i'r camau gweithredu hyn gael eu cwblhau o fewn 12 mis.
 - iv. cadarnhad bod y corff llywodraethu wedi gallu cymeradwyo'r datganiadau sicrwydd ansawdd y gofynnir amdanynt yn flynyddol:
 - 1 Mae'r corff llywodraethu wedi derbyn adroddiad sy'n ystyried yr adolygiad sicrwydd ansawdd allanol, ac mae cynllun gweithredu wedi'i lunio a'i weithredu fel sy'n briodol, mewn partneriaeth â'r corff o fyfyrwyr.
 - 2 Mae'r methodolegau a ddefnyddir fel sail i wella profiad academiaidd y myfyrwyr a chanlyniadau'r myfyrwyr yn gadarn a phriodol, hyd eithaf ein gwybodaeth ni.
 - i. Ar gyfer darparwyr sydd â phwerau dyfarnu graddau: Mae safonau'r dyfarniadau yr ydym yn gyfrifol amdanynt wedi'u pennu a'u cynnal yn briodol.

- ii. Ar gyfer darparwyr heb bwerau dyfarnu graddau: Mae safonau'r dyfarniadau yr ydym yn gyfrifol amdanynt wedi'u cynnal yn briodol.
 - 3 Mae'r corff llywodraethu wedi ystyried adroddiad ar y drafodaeth flynyddol rhwng y sefydliad a'r undeb myfyrwyr neu gyfatebol, wedi craffu ar ganlyniadau arolwg y myfyrwyr ac wedi cadarnhau bod cynlluniau gweithredu wedi'u rhoi yn eu lle a'u gweithredu, mewn partneriaeth â'r corff o fyfyrwyr.
 - 4 Mae'r corff llywodraethu wedi derbyn copi o gytundeb y berthynas rhwng y sefydliad a'r undeb myfyrwyr neu gyfatebol, a chopi o siarter y myfyrwyr, ac mae'r ddau wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- v. rhestr o gyrsiau a gyflwynir ar ran y sefydliad, ynghyd â chytundebau darparwyr allanol a hefyd gwybodaeth am gyrsiau partneriaeth, a chadarnhad bod y cytundebau wedi'u llofnodi ar ôl 1 Medi 2015 (neu fod atodiad wedi'i ychwanegu ar ôl 1 Medi 2015), i gadarnhau bod y trefniadau'n dod o dan Ddeddf 2015.¹¹ Efallai y bydd CCAUC yn gofyn am dystiolaeth o gytundebau partneriaeth.

¹¹ Fel y nodwyd uchod yn yr adran sy'n berthnasol i'r meini prawf ar fod yn sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch, ceidw CCAUC yr hawl i ofyn am gopïau o'r cytundebau perthnasol. Bydd CCAUC yn parhau i adolygu'r gofynion ynghylch ansawdd ac felly gall ddiweddarau'r rhain yn y dyfodol.

Adran Dau: Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

60. Mae'r adran hon yn darparu cyfarwyddyd ar beth ddylid ei gynnwys mewn cynllun mynediad a ffioedd i ddangos tystiolaeth o gefnogaeth ddigonol i gyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch. Mae Adran Dau wedi cael ei hadolygu i roi ystyriaeth lawn i ofynion Llywodraeth Cymru am i gynlluniau wneud cyfraniad arwyddocaol a pharhaus tuag at ehangu mynediad i addysg uwch yng Nghymru, ac y dylid cryfhau cynlluniau mynediad a ffioedd.¹² Mae'r cyfarwyddyd hwn yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion [adolygiad AU Ymlaen o gynlluniau mynediad a ffioedd](#). Bydd argymhellion AU Ymlaen yn cael eu cynnwys fesul cam yn ein cyfarwyddyd dros sawl blwyddyn, o ystyried nifer a manylder yr argymhellion.
61. Mae'r cynllun mynediad a ffioedd yn galluogi sefydliadau i ddangos i CCAUC ac i gynulleidfaoedd ehangach eu hymrwymiad i ehangu mynediad yng Nghymru drwy wella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch yng Nghymru.
62. Mae templed cynllun mynediad a ffioedd drafft wedi cael ei gynnwys yn **Atodiad A**. Byddwn yn derbyn ceisiadau gydag adrannau ychwanegol neu'n cyflwyno gwybodaeth y cynllun yn wahanol. Mae'r penawdau a'r tudalennau cynnwys yn ddefnyddiol ac yn cynorthwyo gyda hygyrchedd.
63. Dylai cynlluniau gynnwys naratif gref a chydlynol i alluogi i CCAUC a phartion eraill ddeall cyfeiriad y symud, graddfa ddisgwyliedig y newid a'r cynnydd i'w wneud.
64. Rhaid i gynlluniau mynediad a ffioedd gynnwys gwybodaeth o dan y penawdau canlynol:
- tudalen cynnwys
 - crynodeb gweithredol
 - hyd y cynllun mynediad a ffioedd
 - lefelau ffioedd
 - partneriaeth myfyrwyr
 - adolygiad strategol
 - grwpiau a nodir fel rhai a dangynrychiolir mewn addysg uwch
 - amcanion, gweithgareddau a thargedau
 - buddsoddiad cynllun mynediad a ffioedd
 - monitro cynlluniau mynediad a ffioedd.
65. Mae'r Ddeddf AU yn datgan gofynion cyffredinol cynllun mynediad a ffioedd. Dyma'r gofynion cyffredinol:
- gweithredu, neu sicrhau gweithredu, mesurau i ddenu ceisiadau gan ddarparu fyfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau a dangynrychiolir
 - gweithredu, neu sicrhau gweithredu, mesurau i gadw myfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau a dangynrychiolir
 - darparu, neu sicrhau darparu, cymorth ariannol i fyfyrwyr

¹² [Lythyr cylch gwaith CCAUC 2017-18](#)


- sicrhau bod gwybodaeth ar gael i fyfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr am y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr o unrhyw ffynhonnell, neu sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn dod ar gael
- rhoi gwybod i unrhyw ddarpar fyfyrwr, cyn i'r myfyrwr ymrwymo i ddilyn cwrs, am swm cyfunol y ffioedd y bydd y sefydliad yn eu codi am gwblhau'r cwrs, neu sicrhau bod unrhyw ddarpar fyfyrwr yn cael gwybodaeth o'r fath
- monitro cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cynllun a
- monitro cynnydd gyda chyflawni'r amcanion sydd wedi'u datgan yn y cynllun.

Rydym wedi nodi yn yr adran hon ble rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth o'r gofynion cyffredinol hyn yn y cynllun.

66. Dylid cysylltu cynlluniau ag amcanion strategol sefydliadau ac esbonio sut maent yn cyd-fynd â'r strategaethau hyn ac yn cyfrannu atynt, gan gynnwys y strategaeth sefydliadol, y strategaeth Ehangu Mynediad a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Nid yw rhestr o ddogfennau strategol ar eu pen eu hunain o help gydag esbonio cydlyniant strategol.
67. Hefyd dylai sefydliadau ystyried disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ehangu mynediad, gan gynnwys: fel maent yn berthnasol i [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) (2015), ei nodau a'i ffyrdd o weithio; y [Ddeddf Cydraddoldeb](#) (2010); y [Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol](#) (2015), [Strategaeth 2016-21](#) a [Fframwaith Cyflawni 2018-21](#); [ymgynghoriadau Cenedl o Noddfa](#) (2018); blaenoriaethu cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu; agenda gwrth-dlodi; targedau cyfrwng Cymraeg i gyflawni [miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050](#); cynlluniau [economaidd](#) a [chyflogadwyedd](#) Llywodraeth Cymru; a'r gofynion eraill fel y nodir yn llythyrau cylch gwaith CCAUC.
68. Hefyd dylid ystyried dogfennau corfforaethol CCAUC, gan gynnwys ei [Strategaeth Gorfforaethol](#), y [Mesurau Cenedlaethol](#), y [Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'i amcanion](#), a'r [Datganiad Llesiant a'i amcanion](#), yn ogystal ag [adolygiad AU Ymlaen](#).
69. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i CCAUC gryfhau cynlluniau mynediad a ffioedd¹³ a sicrhau gwelliannau parhaus yn ymrwymadau'r cynlluniau i fyfyrwyr, cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch. Mae gwaith CCAUC yn dadansoddi a monitro cynlluniau'n cyfrannu at gryfhau cynlluniau. Wrth ddadansoddi ceisiadau 2020/21, byddwn yn rhoi sylw penodol i'r canlynol:
- sut mae sefydliadau wedi ystyried yr adborth sydd wedi'i roi gan CCAUC yn llythyrau cymeradwyo cynlluniau mynediad a ffioedd 2019/20 a anfonwyd at gysylltiadau'r cynlluniau ym mis Awst 2018
 - sut mae sefydliadau wedi rhoi sylw i [argymhellion adolygiad AU Ymlaen](#)
 - cynlluniau seiliedig ar dystiolaeth yn datgan sut mae gweithgareddau cyfleoedd cyfartal yn debygol o wella mynediad i AU, a llwyddiant mewn AU a thu hwnt, i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr a dangynrychiolir mewn AU

¹³ [Lythyr cylch gwaith CCAUC 2017-18](#)

- graddfa uchelgais a pherfformiad sefydliad hyd yma
- sut mae sefydliadau wedi ystyried y gwersi a ddysgwyd o fonitro a gwerthuso'r cynlluniau blaenorol
- sut mae sefydliadau'n ystyried llais y myfyrwyr yn y cylch cynllunio mynediad a ffioedd, o ddatblygu i fonitro cynlluniau
- os nad yw'r grwpiau a dangynrychiolir a nodwyd yn cynnwys y grwpiau ehangu mynediad sydd wedi'u nodi ym [Mesurau Cenedlaethol CCAUC](#),¹⁴ rhaid i ni weld y dystiolaeth a'r data sy'n sail i'r penderfyniad hwn
- os mai dim ond data a gwybodaeth gyfyngedig a ddarparwyd yn y cyflwyniadau blaenorol i ddangos tystiolaeth ac i nodi tangynrychiolaeth, rydym yn disgwyl gweld bod hyn wedi cael ei ddiweddarau a'i wella
- ymrwymadau, gan gynnwys gweithgareddau a chyllid, i gefnogi'r Rhaglen Ymestyn yn Ehangach ranbarthol a pharhau i gyd-fynd â strategaethau'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach
- y berthynas rhwng y lefelau buddsoddi mewn cefnogi myfyrwyr, amcanion a chategoriâu Llywodraeth Cymru a'r targedau a ddarperir i ddynodi cynnydd a pherfformiad
- targedau SMART sy'n ddigon clir ac uchelgeisiol gan alluogi cyrff llywodraethu a CCAUC i asesu cyfeiriad a chyflymder y teithio a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.



Tudalen cynnwys

70. Yn unol ag argymhellion AU Ymlaen, byddem yn disgwyl i bob cynllun mynediad a ffioedd gynnwys tudalen cynnwys i gynorthwyo'r darllenwyr gyda mynd drwy'r cynllun.

¹⁴ Er enghraifft, WIMD40, cyfranogiad, cadw, rhan-amser, amrywiaeth y boblogaeth o fyfyrwyr.

Crynodeb gweithredol

71. Dylai ceisiadau gynnwys crynodeb gweithredol sy'n datgan prif nodweddion y cynllun ac yn tynnu sylw at flaenoriaethau allweddol. Rhaid i grynodedau gweithredol ddarparu trosolwg clir a chryno o gynnwys y cynllun, gyda digon o wybodaeth i ddarllenwyr ddechrau deall bwriadau strategol yr ymgeisydd. Rydym yn disgwyl i grynodedau gweithredol gynnwys:
- amcanion strategol y cynllun
 - grwpiau a dangynrychiolir mewn AU,
 - esiamplau o weithgareddau a gwasanaethau a'r cyfanswm o incwm ffioedd a buddsodwyd i ddarparu amcanion
72. Dylai crynodedau gweithredol fod yn hygyrch i amrywiaeth o randdeiliaid, yn enwedig myfyrwyr. Felly, dylai'r crynodedau fod yn hygyrch a llawn gwybodaeth, heb unrhyw jargon addysg uwch. Efallai y bydd CCAUC yn defnyddio crynodedau gweithredol o gynlluniau wrth adrodd yn ôl, gan gynnwys i Lywodraeth Cymru, fel crynodedau o ymrwymadau cynlluniau mynediad a ffioedd sefydliadau. Ni ddylai'r crynodeb gweithredol fod yn fwy na **1,000 o eiriau**.

Hyd y cynllun mynediad a ffioedd

73. Bydd cynllun mynediad a ffioedd yn cael ei ystyried 'mewn grym' o ddyddiad ei gymeradwyo ac mae'n 'weithredol' o'r flwyddyn academaidd y mae'r cynllun mynediad a ffioedd yn berthnasol iddi. Er enghraifft, bydd cynllun 2020/21 mewn grym o ddyddiad cymeradwyaeth CCAUC, Mehefin/Gorffennaf 2019, ac yn weithredol yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21.
74. Rhaid i gynlluniau mynediad a ffioedd nodi'r cyfnod pryd byddant yn weithredol. Mae CCAUC yn gweithio yn unol â blwyddyn academaidd a chynllunio at sawl diben, gan gynnwys cynllunio mynediad a ffioedd, a'r flwyddyn honno yw 1 Awst tan 31 Gorffennaf. Mae cynllunio mynediad a ffioedd yn unol â chylch cynllunio blynyddol CCAUC yn galluogi darparwyr addysg uwch yng Nghymru i fod yn hyblyg wrth ymateb i bolisïau, arferion ac anghenion myfyrwyr, a chyhoeddi lefelau ffioedd ar yr un pryd â sefydliadau addysg uwch eraill y DU.

Lefelau ffioedd

75. Gan feddwl am yr amser sydd rhwng y ceisiadau cychwynnol am gynlluniau mynediad a ffioedd, y cymeradwyo a'r cynlluniau'n dod i rym, rydym yn cydnabod yr heriau cysylltiedig â phennu lefelau ffioedd a all gael eu heffeithio gan newidiadau polisi¹⁵. Felly, rhaid i gynlluniau mynediad a ffioedd wneud y naill neu'r llall o'r canlynol:
- darparu ar gyfer penderfynu ar lefel ffioedd neu
 - manylu ar yr holl lefelau ffioedd y bydd sefydliadau'n eu codi yn 2020/21.

¹⁵ Wrth ysgrifennu'r testun hwn, nid oes unrhyw newidiadau i ffioedd uchafswm wedi'u cynnig yng Nghymru.

76. Pan fydd sefydliad yn penderfynu ar lefel ffioedd, rhaid i'r sefydliad ddangos yn glir sut bydd y ffi'n cael ei chyfrif. Gall sefydliadau gyfeirio at a chysylltu â ffioedd uchafswm, fel y nodir yn rheoliadau'r Ddeddf AU er enghraifft, a nodi pryd bydd y lefelau ffioedd gwirioneddol yn cael eu pennu a ble fydd yr wybodaeth hon ar gael ar eu gwefan, yn ogystal â chadarnhau na fydd y ffi'n uwch na'r uchafswm a ganiateir. Bydd rhaid i sefydliadau sicrhau, unwaith y bydd lefel ffioedd wedi'i phennu, ei bod yn gyson â'r ffordd y mae'r lefel ffioedd honno wedi'i phenderfynu mewn cynllun mynediad a ffioedd cymeradwy.
77. Os yw sefydliadau'n penderfynu sut bydd ffi'n cael ei chyfrif, bydd rhaid iddynt ddarparu gwybodaeth fanwl gywir yn y taenlenni incwm ffioedd disgwyliedig a roddir i CCAUC. Dim ond er mwyn asesu buddsoddiad mewn gwella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch fydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio. Ceir rhagor o wybodaeth isod yn yr adran ar fuddsoddi incwm ffioedd.
78. Os yw sefydliadau'n manylu ar lefelau ffioedd israddedig llawn amser a TAR (SAC) mewn cynllun, dylid eu nodi'n glir. Rhaid datgan y canlynol ar wahân:
- lefelau ffioedd a chyrсияu a ddarperir gan sefydliadau'n uniongyrchol, gan gynnwys, os yw hynny'n berthnasol, ym mhob lleoliad
 - lefelau ffioedd a chyrсияu a ddarperir ar ran sefydliadau, ym mhob darparwr a enwir
 - lefelau ffioedd sy'n amrywio i wahanol grwpiau o fyfyrwyr
 - blynyddoedd academaidd olaf cyrsiau lle mae disgwyl i'r flwyddyn academaidd honno gael ei chwblhau fel rheol ar ôl llai na 15 wythnos o bresenoldeb, a chwrs o hyfforddiant cychwynnol i athrawon sy'n cynnwys blwyddyn academaidd lle mae unrhyw gyfnodau o astudio llawn amser, gyda'i gilydd, yn llai na 10 wythnos
 - cyrsiau rhyngosod a
 - lleoliadau myfyrwyr a gwaith tramor.
79. Ni all ffioedd fod yn fwy na'r terfyn uchafswm yn y rheoliadau. Ar hyn o bryd, mae'r rhain fel a ganlyn:
- £4,500 ar gyfer blynyddoedd academaidd olaf cyrsiau lle mae disgwyl i'r flwyddyn academaidd honno gael ei chwblhau fel rheol ar ôl llai na 15 wythnos o bresenoldeb, a chwrs o hyfforddiant cychwynnol i athrawon sy'n cynnwys blwyddyn academaidd lle mae unrhyw gyfnodau o astudio llawn amser, gyda'i gilydd, yn llai na 10 wythnos
 - £1,800 ar gyfer cyrsiau rhyngosod
 - £1,350 ar gyfer lleoliadau myfyrwyr a gwaith tramor a
 - £9,000 ar gyfer pob cwrs arall.
80. Os yw sefydliadau'n ymrwmo i bennu lefelau ffioedd mewn cynlluniau, rhaid i sefydliadau ystyried effaith bosib newidiadau i ffioedd uchafswm, yn dilyn cymeradwyo cynlluniau mynediad a ffioedd. Bydd unrhyw newidiadau i derfynau ffioedd uchafswm yn gofyn am amrywio cynllun mynediad a ffioedd. Wrth ystyried amrywiadau i gynlluniau mynediad a ffioedd, bydd CCAUC yn rhoi ystyriaeth i'r egwyddor sylfaenol bod myfyrwyr yn gwybod, cyn ymrwmo i

gwrs, beth fydd swm cyfun y ffioedd a godir gan y sefydliad am y cwrs ar ei hyd.

81. Mae'n ofyniad cyffredinol bod rhaid i bob sefydliad a reoleiddir naill ai:
- provide clear information to potential and current students about their ddarparu gwybodaeth glir i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr cyffredinol am eu ffioedd cyfun ar gyfer cwblhau'r cwrs, a'r sail ar gyfer unrhyw gynnydd posib mewn ffioedd ar gyfer eu cwrs ar ei hyd, neu
 - cadarnhau na fydd unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn ystod y cwrs.

Rhaid i bob cynllun mynediad a ffioedd ddatgan sut bydd sefydliadau'n cyfathrebu gwybodaeth am ffioedd a ble mae cael hyd i wybodaeth

82. Rydym yn credu ei fod yn arfer da i sefydliadau ymrwymo'n gyhoeddus drwy gadw at [ganllawiau addysg uwch yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd \(CMA\)](#). Rhaid i sefydliadau gadarnhau bod eu prosesau ar gyfer penderfynu neu fanylu ar lefelau ffioedd yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn er mwyn rhoi sicrwydd pellach ynghylch y gofyniad cyffredinol sydd wedi'i nodi yn y paragraff uchod.

Partneriaeth myfyrwyr

83. Dylai llais y myfyrwyr fod yn amlwg drwy gydol y cynllun a dylid ei nodi'n glir hefyd o dan bennawd partneriaeth myfyrwyr.
84. Rhaid i sefydliad ddatgan yn glir gyswllt y sefydliad â'r corff o fyfyrwyr, gan gynnwys y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau a ddarperir ar ran y sefydliad. Dylai'r wybodaeth gynnwys ymwneud y myfyrwyr â datblygu cynlluniau, er enghraifft, sut mae gwaith partneriaeth â myfyrwyr wedi dylanwadu ar bennu amcanion, adnabod grwpiau a dangynrychiolir, gweithgareddau ac ati, a sut mae partneriaethau myfyrwyr wedi bod yn rhan o brosesau monitro a llywodraethu. Er mwyn cryfhau eu cynlluniau, dylai sefydliadau ddarparu achosion penodol lle bydd partneriaeth myfyrwyr yn gweithio ar gynlluniau mynediad a ffioedd yn ychwanegol at ymrwymo i bartneriaethau myfyrwyr yn ehangach.
85. Dylai ceisiadau ddangos sut maent yn cyd-fynd â'u Siarter Myfyrwyr neu ymrwymadau cyfatebol, [datganiad Wise Cymru ar bartneriaeth ar gyfer addysg uwch](#) a'r [Canllaw ar gyfer darparu gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr israddedig](#).

Adolygiad Strategol

86. Rhaid i sefydliadau ddarparu'r dystiolaeth a'r data sy'n sail i'w cynlluniau. Os yw sefydliadau wedi cael cynlluniau mynediad a ffioedd o'r blaen, dylai adolygiad beirniadol o'r cynlluniau hyn, yn ogystal ag asesiad o'r data sydd ar gael, gan gynnwys cyfeiriad at adroddiadau rhanbarthol, Cymru neu'r DU a/neu dystiolaeth arall, fod yn sail i geisiadau. Rydym eisiau deall sut mae'r gwersi a ddysgwyd a'r dystiolaeth a'r data'n sail i gynllun 2020/21, gan gynnwys cyfeiriad at ddemograffeg a statws economaidd-gymdeithasol y rhanbarth mae wedi'i leoli ynddo. Dylai sefydliadau esbonio'r berthynas rhwng y cynlluniau a'r dystiolaeth a'r data sydd wedi'u darparu, yn hytrach na dim

ond rhestru ffynonellau data. Os darparwyd data a gwybodaeth gyfyngedig mewn cyflwyniadau blaenorol, bydd CCAUC yn disgwyl i hyn gael ei ddiweddarau a'i gryfhau yng ngheisiadau 2020/21. Dylai monitro a gwerthuso cynlluniau blaenorol fod yn sail i'r adolygiad hwn.

87. Dylai sefydliadau ystyried arferion effeithiol fel y dangosir gan ymchwil a data rhyngwladol, cenedlaethol neu ranbarthol fel sail i'w hadolygiad strategol.
88. Dylai'r cynlluniau esbonio'n llawn natur a graddfa ymrwymiad y sefydliadau i'r Rhaglen Ymestyn yn Ehangach. Dylai'r cynlluniau fod yn benodol am y canlynol:
 - i. gweithgarwch a ffrydiau buddsoddi sy'n cefnogi darparu cynllun mynediad a ffioedd a grwpiau a dangynrychiolir yn ehangach
 - ii. gweithgareddau a buddsoddiad sy'n cefnogi cynllun sefydliadol y Rhaglen Ymestyn yn Ehangach sydd wedi'i chyllido gan CCAUC wedi'u hymgorffori yng nghynllun mynediad a ffioedd 2020/21, gan gynnwys grwpiau blaenoriaeth Ymestyn yn Ehangach ac ar wahân
 - iii. unrhyw gyfraniad at waith strategaeth y Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach.
89. Rydym eisiau deall yn glir sut mae cynlluniau sefydliadau a'u gwaith gyda Phartneriaethau Ymestyn yn Ehangach yn ychwanegu gwerth at gyfleoedd cyfartal ac at hybu addysg uwch yn rhanbarthol.

Adnabod a dangos tystiolaeth o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch

90. Rhaid i sefydliadau ddatgan yn glir y grwpiau a ystyrir fel rhai a dangynrychiolir mewn addysg uwch a darparu tystiolaeth, gan gynnwys data, i ddangos pam fydd y grwpiau hynny a dangynrychiolir yn cael blaenoriaeth. Nod ehangu mynediad yng Nghymru yw sicrhau cyfleoedd cyfartal, cynhwysiant, cynnydd a llwyddiant mewn addysg uwch i alluogi i ddysgwyr ar draws pob ystod oedran a chefnidir, sy'n wynebu'r rhwystrau cymdeithasol ac economaidd mwyaf, gyflawni eu potensial fel myfyrwyr, dysgwyr gydol oes, dinasyddion a chyflogeion. Mae CCAUC wedi ymrwymo i ddull ehangu mynediad gydag addysg uwch, sy'n ddull gweithredu ar gyfer pob oedran. Dylai sefydliadau ystyried dull ehangu mynediad CCAUC wrth ddatblygu eu cynlluniau
91. Mae [Mesurau Cenedlaethol CCAUC](#) yn nodi'r grwpiau ehangu mynediad canlynol fel rhai a dangynrychiolir mewn AU: pobl o bob oedran sy'n byw yn nau gwintil isaf [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru](#) (WIMD40 ac ar wahân WIMD20); cyfranogiad (pobl o bob oedran o gymdogaethau cyfranogiad isel); myfyrwyr addysg uwch rhan amser; a phobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae Mesurau Cenedlaethol perthnasol i brofiad myfyrwyr yn cynnwys myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. Os nad yw'r grwpiau hyn wedi'u cynnwys mewn cynlluniau fel rhai wedi'u tangynrychioli, dylid darparu tystiolaeth a byddwn yn ei hystyried.
92. Rydym yn disgwyl gweld grwpiau blaenoriaeth y [Rhaglen Ymestyn yn Ehangach](#) ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u nodi fel rhai a dangynrychiolir

mewn AU, neu gyflwyno achos cadarn dros beidio â'u cynnwys. Blaenoriaethau'r rhaglen Ymestyn yn Ehangach ar gyfer sefydliadau yw pobl sy'n byw yn ardaloedd WIMD40 sydd: yn 16 oed a hŷn ac oedolion heb gymwysterau lefel 4, a'r grwpiau canlynol ledled Cymru: gofalwyr, plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal.

93. Mae Mesurau Cenedlaethol CCAUC yn cyfeirio at fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg a mesur amrywiaeth y boblogaeth o fyfyrwyr.
94. Mae cynlluniau cydraddoldeb strategol ac adroddiadau cydraddoldeb blynyddol sefydliadau'n nodi blaenoriaethau, gan gynnwys sut mae unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu tangynrychioli yn eu sefydliad neu yn addysg uwch Cymru/y DU ac angen cefnogaeth. Er enghraifft, mae'r data'n dynodi bod myfyrwyr ag anawsterau iechyd meddwl angen cefnogaeth amrywiol mewn addysg uwch. Dylai sefydliadau esbonio sut mae blaenoriaethau eu cynlluniau cydraddoldeb strategol a'u grwpiau blaenoriaeth yn ymwneud â, ac yn cael eu cefnogi gan, eu cynlluniau mynediad a ffioedd, gan gynnwys adlewyrchu hyn yn eu diffiniad o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch. Os mai blaenoriaethau a grwpiau'r cynlluniau cydraddoldeb strategol yw cefnogaeth gan fuddsoddiad arall ar wahân i fuddsoddiad cynllun mynediad a ffioedd, dylai sefydliadau gadarnhau hyn.
95. Rhaid i holl amcanion, gweithgareddau, buddsoddiadau a thargedau sefydliadau i wella cyfleoedd cyfartal ymwneud â'r grwpiau a dangynrychiolir sydd wedi'u nodi yn y cynllun yn unig. Dylai sefydliadau ystyried aelodau o grwpiau a dangynrychiolir sy'n astudio ar gyrsiau maent yn eu cyflwyno a chysiau a gyflwynir ar eu rhan.
96. Rydym yn cydnabod bod gwahanol ffyrdd o ddiffinio 'grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch'. Gall y diffiniadau gynnwys tangynrychiolaeth yng nghorff myfyrwyr sefydliad, gan gynnwys myfyrwyr mewn sefydliadau partner, yn ogystal â thangynrychiolaeth yn y system addysg uwch yng Nghymru neu'r DU yn fwy cyffredinol. Gall unigolion â nodweddion gwarchoddedig gael eu tangynrychioli mewn addysg uwch hefyd.¹⁶
97. Rydym yn disgwyl i'r dystiolaeth gynnwys canlyniadau monitro a gwerthuso'r cynllun mynediad a ffioedd blaenorol, cynlluniau cydraddoldeb strategol sefydliadau a chanlyniadau asesiadau effaith. Byddwn yn gofyn am wybodaeth neu ddata ychwanegol fel sail i'n dealltwriaeth o sut mae grwpiau a dangynrychiolir wedi'u nodi os bydd arnom angen esboniad.
98. Wrth nodi a blaenoriaethu tangynrychiolaeth, rydym yn annog sefydliadau i ystyried nifer y grwpiau y gall buddsoddiad y cynllun mynediad a ffioedd eu cefnogi'n rhesymol a ble dylai, ac y gall, cynnydd effeithiol gael ei wneud. Yn ystod y blynyddoedd blaenorol, mae rhai sefydliadau wedi nodi nifer bach iawn o grwpiau, ac eraill wedi nodi amrywiaeth eang o grwpiau. Gall targed rhy fanwl ofyn am i sefydliadau ganolbwyntio darpariaeth a buddsoddiad eu

¹⁶ Dyma beth yw nodweddion gwarchoddedig: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; a rhyw.

cynllun mynediad a ffioedd yn gyfyng iawn, gan gyfyngu ar y gefnogaeth i grwpiau blaenoriaeth eraill. I'r gwrthwyneb, efallai na fydd ffocws rhy eang yn rhoi cefnogaeth ddigonol i grwpiau.

99. Ni fydd pob unigolyn mewn grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch yn wynebu rhwystrau o ran mynediad, cynnydd a llwyddo mewn addysg uwch. Dylai sefydliadau cynlluniau mynediad a ffioedd ystyried hyn a thargedu'r myfyrwyr a'r darpar fyfyrwyr mwyaf difreintiedig. Gall ymgyrchoedd NUS Cymru i gefnogi'r grwpiau hyn fod yn sail i flaenoriaethau sefydliadau.
100. Bydd blaenoriaethu pobl o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch yn cynnwys adnabod dysgwyr 'anodd eu cyrraedd'. Cred CCAUC y byddai dysgwyr anodd eu cyrraedd yn cynnwys pobl o bob oedran yn y grwpiau a dangynrychiolir a restrir uchod a hefyd pobl:
- sy'n byw yn nau gwintil isaf WIM40
 - sy'n byw yn ardaloedd cyfranogiad isel y DU
 - sy'n wrywod ifanc o ardaloedd cyfranogiad isel
 - sy'n byw ar aelwydydd heb waith
 - sy'n profi 'tlodi mewn gwaith'
 - sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches
 - sy'n derbyn Lwfans Cynnal Addysg
 - sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim
 - sydd y cyntaf mewn teulu i fynd i addysg uwch
 - sy'n ofalwyr
 - sydd â chefnidir gofal
 - sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd
 - rhai cymunedau o leiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir mewn addysg uwch
 - rhai pobl â nodweddion gwarchoddedig a
 - cyn-droseddwyr.
101. Wrth ystyried ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd, bydd CCAUC yn ystyried y dulliau cyffredinol o gefnogi grwpiau a dangynrychiolir.

Amcanion, gweithgareddau a thargedau

102. Rhaid i sefydliadau bennu amcanion eu cynllun mynediad a ffioedd fel maent yn berthnasol i gyfleoedd cyfartal ac, ar wahân, amcanion i hybu addysg uwch. Dim ond myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir ddylai gael sylw yn yr amcanion cysylltiedig â chyfleoedd cyfartal. Wrth bennu pob amcan ar gyfer cynllun mynediad a ffioedd, rhaid i sefydliadau ddatgan yn glir y gweithgareddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno i gyflawni eu hamcanion, a'r targedau y bydd sefydliadau'n eu pennu i fesur llwyddiant eu hamcanion.
103. Dylai'r amcanion ystyried yr holl addysgu, dysgu a gweithgareddau addysg uwch a gyflwynir gan y sefydliadau, neu ar eu rhan (e.e. drwy drefniadau partneriaeth) sy'n cefnogi cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch.

Amcanion y sefydliad

104. Wrth ddatblygu cynllun mynediad a ffioedd, rhaid i sefydliadau ystyried y gofynion cyffredinol y mae'n rhaid eu bodloni yn y cynlluniau mynediad a ffioedd o ran dangos sut byddant yn gwneud y canlynol:
- denu ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau a dangynrychiolir
 - cadw myfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau a dangynrychiolir
 - sicrhau bod gwybodaeth am gymorth ariannol ar gael i fyfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr.
105. Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth o fodloni'r gofynion uchod yn yr holl gynlluniau, gan ddatgan amcanion yn y tri maes yma. Gan gydnabod mai'r diffiniad a'r nod o ran ehangu mynediad yng Nghymru yw "ehangu mynediad i a thrwy addysg uwch"¹⁷ rydym hefyd yn annog sefydliadau i gynnwys amcan cysylltiedig â chynnydd.
106. Efallai bod gan lefel yr incwm ffioedd y mae sefydliadau'n disgwyl ei dderbyn oblygiadau ar gyfer nifer yr amcanion y gallant wneud cynnydd yn eu herbyn.

Categoriâu Llywodraeth Cymru

107. Mae Llywodraeth Cymru'n datgan beth mae'n ei ystyried fel testun y telerau cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch ac mae'r rhain wedi'u datgan fel categorïau isod. Daeth adolygiad Ymaen AU i'r casgliad nad yw'r categorïau hyn yn ddefnyddiol fel amcanion ar eu pen eu hunain.¹⁸ Os yw sefydliadau wedi defnyddio'r categorïau'n flaenorol fel amcanion, rydym yn eu hannog i ddatgan amcanion cliriach.
108. Dyma gategoriâu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfleoedd cyfartal:
- hybu a diogelu mynediad teg i addysg uwch, gan gynnwys adnabod unigolion sydd â'r potensial mwyaf o grwpiau a dangynrychiolir
 - denu myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir
 - cadw myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir
 - gwella dyheadau addysgol a sgiliau pobl o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch
 - cefnogi a chynyddu cynnydd pobl o grwpiau a dangynrychiolir a sicrhau eu bod yn cwblhau eu cwrs
 - gwella profiad addysg uwch grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch
 - darparu gwybodaeth effeithiol i grwpiau a dangynrychiolir, cyn ac yn ystod eu hastudiaethau
 - darparu cefnogaeth academaidd a lles o ansawdd uchel i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch a
 - cefnogi'r cynnydd i gyflogaeth neu astudiaethau pellach ymhlith grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch.

¹⁷ Fel y nodir yng nghyhoeddiad drafft CCAUC Dull Strategol o Ehangu Mynediad i Addysg Uwch a'r Rhaglen Weithredu Ehangu Mynediad sydd i'w cyhoeddi [ar wefan CCAUC](#)

¹⁸ AU Ymlaen, *Review of Fee and Access Plans: 2017/18-2019/20*, (2018), t41

109. Dyma categorïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hybu addysg uwch:
- ymgysylltu'n fwy effeithiol â chyrrff y sector preifat, cyhoeddus neu wirfoddol a chymunedau yng Nghymru
 - gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gan gyfeirio at ansawdd profiad y myfyriwr
 - cryfhau cyflogadwyedd graddedigion Cymru
 - hybu addysg uwch Cymru'n fwy effeithiol yn rhyngwladol
 - darparu addysg uwch gynaliadwy a
 - codi ymwybyddiaeth o werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr.
110. Rydym yn disgwyl i bob sefydliad fapio eu hamcanion yn erbyn y categorïau hyn mewn tabl a ddarperir yn **Atodiad Ai**. Rydym yn cydnabod y gall un amcan fodloni mwy nag un categori gan Lywodraeth Cymru.

Gweithgareddau a gwasanaethau i gefnogi cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch

111. Rhaid i sefydliadau ddatgan y gweithgareddau a'r gwasanaethau y byddant yn eu darparu i gyflawni eu hamcanion. Bydd rhaid i ni ddeall yn glir sut bydd y gweithgareddau a'r gwasanaethau'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion. Byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth os bydd hyn yn aneglur
112. Os yw amcan yn ymwneud â gwella cyfleoedd cyfartal, rhaid i'r gweithgareddau a'r gwasanaethau ymwneud â grwpiau a dangynrychiolir yn unig. Os yw'r gweithgareddau a'r gwasanaethau'n cael eu darparu ar gyfer y myfyrwyr i gyd, rhaid i'r cynlluniau esbonio'n glir sut mae myfyrwyr a dangynrychiolir yn cael cefnogaeth benodol, neu dylid cynnwys y gweithgareddau hyn yn yr adran hybu AU lle mae'r gweithgareddau a'r gwasanaethau'n gallu bod yn berthnasol i'r myfyrwyr i gyd. Byddwn eisiau deall lefel y buddsoddiad a ymrwymir i gefnogi cyfleoedd cyfartal.
113. Byddwn eisiau deall yn glir sut mae gweithgareddau a gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys mewn cynllun mynediad a ffioedd yn wahanol i fusnes sefydliadol craidd, a ddylai gael ei gyllido o ffynonellau gwahanol.
114. Ceir gofyniad cyffredinol bod rhaid i bob cynllun mynediad a ffioedd sicrhau bod cymorth ariannol ar gael i fyfyrwyr. Rydym yn disgwyl i'r ymrwymadau hyn gael eu nodi yn yr adran hon o'r cynllun, gan gynnwys y mathau o gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir ac ar gyfer yr holl fyfyrwyr. Rydym yn disgwyl i sefydliadau ddatgan pa gymorth ariannol gaiff ei ddarparu er mwyn gwella cyfleoedd cyfartal a chefnogi hybu addysg uwch.
115. Rydym yn disgwyl i'r holl weithgareddau a gwasanaethau y manylir arnynt mewn cynllun mynediad a ffioedd gael eu gwerthuso i sicrhau bod sefydliadau'n hyderus eu bod yn diwallu anghenion myfyrwyr a darpar fyfyrwyr.
116. Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw weithgareddau a gwasanaethau newydd ac arloesol y bydd y sefydliad yn eu cyflwyno yn 2020/21 i gyflawni amcanion ei gynllun mynediad a ffioedd.

117. Dylid adlewyrchu gweithgareddau a gwasanaethau partneriaid rhyddfraint drwy gydol y cynlluniau, gan gynnwys yn yr amcanion, y targedau a'r buddsoddiad.

Pennau targedau

118. Er mwyn mesur llwyddiant amcanion sefydliadau, dylai cynllun mynediad a ffioedd gynnwys targedau sefydliadol SMART¹⁹. Dylai'r targedau fod yn uchelgeisiol a dangos graddfa'r cynnydd a'r pellter i'w deithio gan sefydliadau. Rhaid i bob amcan gynnwys o leiaf un targed priodol. Am ragor o wybodaeth am bennu targedau, edrychwch ar ein [gwefan](#).
119. Dylai targedau SMART fod yn sail i asesiad CCAUC a chyrrff llywodraethu o gynydd arfaethedig ac ystyried lefelau buddsoddi. Dylai sefydliadau bennu targedau seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael i sicrhau bod llinellau sylfaen y targedau'n mynegi'n glir y pellter i'w deithio. Dylai targedau fod yn gyraeddadwy yn ystod cyfnod y cynllun. Dylai sefydliadau allu adrodd yn ôl i CCAUC ar gyrraedd targedau erbyn mis Rhagfyr 2021. Gall y data adrodd yn ôl hwn effeithio ar bennu targedau.
120. Cyhoeddodd CCAUC ei [fesurau cenedlaethol ar gyfer perfformiad addysg uwch](#) ym mis Tachwedd 2018. Rydym yn disgwyl i sefydliadau ystyried mesurau perthnasol wrth bennu targedau i gyfrannu at ddangos sut maent yn cyflawni ar gyfer Cymru.²⁰ Os nad yw sefydliadau'n ystyried y mesurau hyn wrth bennu targedau, dylai sefydliadau ddarparu achos cryf dros hyn.
121. Os yw hynny'n briodol, gall y cynlluniau gynnwys targedau cydweithredol. Gall targedau cydweithredol gynyddu'r ymgysylltu â sefydliadau posib, sicrhau arbedion maint, neu osgoi dyblygu diangen. Mae CCAUC yn annog unioni buddsoddiad a chynlluniau sy'n seiliedig ar dargedau cydweithredol, gan gynnwys gyda'r Rhaglen Ymestyn yn Ehangach. Dylai sefydliadau esbonio pa weithgareddau a lefelau o fuddsoddiad mae pob partner yn eu cyfrannu at gyflawni targedau cydweithredol.
122. Dylai targedau ddynodi lefelau o uchelgais a pherfformiad mewn meysydd lle dylid gwneud cynnydd pellach, fel y nodir yn yr adolygiad strategol, nid lle mae'r perfformiad eisoes yn gadarn..
123. Dylid dangos yn glir pa amcanion, grwpiau a dangynrychiolir, gweithgareddau, buddsoddiadau a thargedau sy'n berthnasol i gyfleoedd cyfartal ac, ar wahân, i hybu addysg uwch.
124. Wrth bennu targedau cyfrwng Cymraeg, mae CCAUC yn argymhell yn gryf bod sefydliadau'n trafod targedau gyda'r [Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) (y Coleg),

¹⁹ penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig, cyfyngedig gan amser

²⁰ Mae CCAUC yn ystyried y Mesurau Cenedlaethol perthnasol fel a ganlyn: Ehangu Mynediad, Cyfranogiad, Cadw, Rhan Amser, Amrywiaeth y boblogaeth o fyfyrwyr, Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, Cyfrwng Cymraeg, Symudedd Myfyrwyr, Cyflogaeth a Chyflogaeth Graddedigion.

gan fod AU cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth bolisi i Lywodraeth Cymru. Bydd CCAUC yn cysylltu â'r Coleg i werthuso priodolrwydd y targedau hyn.

125. Mae gwella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch yn agenda tymor hir ac rydym yn cydnabod y tensiwn sydd o ran sicrhau cydbwysedd rhwng bwriadau strategol tymor hwy a gofynion i adrodd yn ôl ar gynnydd yn flynyddol. Fodd bynnag, rhaid i dargedau cynllun mynediad a ffioedd fod yn gyraeddadwy o fewn blwyddyn ac efallai na fydd rhai targedau ar gyfer 2020/21 yn briodol, gan gynnwys y data meincnodi dangosydd perfformiad mwyaf diweddar yn y DU, am na ellir eu mesur oddi mewn i'r amserlen adrodd yn ôl flynyddol.
126. I leihau'r tensiwn hwn, rydym yn annog sefydliadau i bennu targedau cerrig milltir yng nghynlluniau 2020/21, yn rhychwantu sawl blwyddyn academaidd ac yn cyfrannu tuag at darged tymor hwy yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Mae hyn yn galluogi i ni ddeall graddfa'r cynnydd bwriadol yn y tymor hwy. Hefyd, rydym yn argymhell bod sefydliadau'n defnyddio targedau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, er enghraifft, targedau i gynyddu a chadw grŵp penodol a dangynrychiolir mewn addysg uwch yn hytrach na thargedau cysylltiedig ag allbwn, fel cyflwyno nifer o weithgareddau, digwyddiadau a chynadleddau.
127. Rhaid i dargedau sefydliadau ddeillio o ffynonellau y gellir eu harchwilio. Dylid cynnal llwybr archwilio data clir er mwyn cadarnhau methodoleg llinell sylfaen a chynnydd yn erbyn llinellau sylfaen ar gyfer monitro dilynol.
128. Mae targedau SMART yn cyfrannu at ddarparu i Lywodraeth Cymru, CCAUC, cyrff llywodraethu a phartïon eraill sydd â diddordeb gofnod o, ac elw ar, lefel y buddsoddiad cyhoeddus sy'n sail i'r cynllun. Mae CCAUC yn cydnabod bod lefel y buddsoddiad cyhoeddus yn wahanol rhwng sefydliadau, yn ogystal â nifer yr amcanion, dwysedd y gweithgarwch a'r targedau cysylltiedig. Byddwn yn ystyried pa mor rhesymol yw dyheadau sefydliadau, gan gynnwys targedau, yn ein hasesiad o gynlluniau.
129. I gryfhau cynlluniau, bydd targedau, eu disgrifiadau a'r dangosyddion perfformiad yn ffocws allweddol yn ein dadansoddiadau eleni. Dylai sefydliadau sicrhau bod y disgrifiadau o dargedau'n glir ac yn cynnwys niferoedd a/neu gynnydd canran neu ostyngiad, fel sy'n briodol, a darparu niferoedd a chanrannau i nodi perfformiad. Rydym yn deall y bydd y nifer neu'r ganran yn cael eu darparu fel data targed a'r wybodaeth yn cael ei darparu fel cyd-destun.

Buddsoddiad incwm ffioedd

130. Rhaid i bob cynllun mynediad a ffioedd ddatgan y gyfran o incwm ffioedd a dderbynnir o'r cyrsiau israddedig llawn amser a TAR (SAC) y bydd y sefydliad yn buddsoddi ynddynt er mwyn cyflawni amcanion ei gynllun mynediad a ffioedd. O'r herwydd, dylai sefydliadau ddatgan cyfran yr incwm ffioedd sy'n cael ei buddsoddi i gyflawni pob amcan.

131. Mae CCAUC yn disgwyl i bob sefydliad sydd wedi cael cymeradwyaeth i'w cynlluniau'n flaenorol fuddsoddi o leiaf yr un gyfran o gyfanswm yr incwm yn 2020/21. Nid ydym yn disgwyl i gyfran yr arian a fuddsoddir mewn gwella cyfleoedd cyfartal leihau.
132. Os nad yw sefydliadau wedi cyflawni ymrwymadau'r cynllun mynediad a ffioedd blaenorol yn llawn, neu os ydynt wedi dangos uchelgais annigonol o ran graddfa cynnydd, gall CCAUC bennu disgwyliad o gyfraddau uwch o fuddsoddiad yn y dyfodol, oddi mewn i ystod o 15% i 20% o gyfanswm yr incwm ffioedd. Caiff hyn ei fynegi i'r sefydliadau hynny ar wahân.
133. Bydd CCAUC yn darparu i sefydliadau a reoleiddir ar hyn o bryd dempledi unigol i alluogi cymharu lefelau buddsoddi flwyddyn ar ôl blwyddyn.
134. Ar gyfer sefydliadau heb gynlluniau mynediad a ffioedd blaenorol, rydym yn disgwyl buddsoddiad sydd rhwng 14% ac 17% o gyfanswm yr incwm ffioedd, i'w gytuno gyda ni. Mae'r ystod hon o fuddsoddiad canran wedi'i sefydlu gyda'r holl sefydliadau a reoleiddir ar hyn o bryd a dyma'r pwynt cyfeirio ar gyfer trafod gyda sefydliadau
135. Yn y ddogfen Excel sy'n ategu'r cyflwyniad cynllun mynediad a ffioedd a gyflwynir i CCAUC, dogfen nad yw'n cael ei chyhoeddi, rhaid i'r sefydliad ddatgan cyfanswm disgwyliedig yr incwm ffioedd gan yr holl gyrsiau cymwys a'r cyfanswm ffioedd y bwriedir ei fuddsoddi mewn cyflawni ei amcanion. Rydym yn cydnabod yn yr adran wedi'i chyhoeddi o'r cais mai dim ond sut penderfynir ar y ffioedd sydd wedi'i ddynodi gan y sefydliadau efallai.
136. Dylid cyflwyno buddsoddiad yn erbyn pob amcan yn y cynllun mynediad a ffioedd ac nid yn erbyn categorïau Llywodraeth Cymru, fel yn flaenorol.
137. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i CCAUC fod yn gadarn o ran disgwyl mwy gan sefydliadau a reoleiddir y mae eu cofnodion yn awgrymu cynnydd annigonol tuag at wella cyfleoedd cyfartal. Mae hyn yn cynnwys disgwyliad y bydd y sefydliadau a reoleiddir ar hyn o bryd yn cynnal yr un lefel o fuddsoddiad ym mhartneriaethau Ymestyn yn Ehangach.

Monitro a gwerthuso cynlluniau mynediad a ffioedd

138. Mae gan CCAUC ddyletswydd, o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, i fonitro'n flynyddol y gydymffurfiaeth â therfynau ffioedd a gofynion cyffredinol cynllun mynediad a ffioedd, yn ogystal â gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau mynediad a ffioedd. Mae gan sefydliadau a reoleiddir ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cymorth a mynediad i CCAUC at y diben hwn. Cynhwysir canlyniadau'r broses hon yn ein hadroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar sut rydym wedi ymarfer ein swyddogaethau o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

139. Fis Tachwedd 2018, anfonwyd gwahoddiad gennym at sefydliadau a reoleiddir yn gofyn iddynt gyflwyno gwybodaeth fonitro am y tro cyntaf.²¹ Gall ein proses esblygu wrth i ni geisio cryfhau cynlluniau ond, ar hyn o bryd, mae'r elfen fonitro'n canolbwyntio ar gydymffurfio â therfynau ffioedd a gofynion cyffredinol y cynllun ac mae'r elfen werthuso'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd y cynllun. Rydym yn disgwyl i sefydliadau werthuso effeithiolrwydd eu hamcanion, gan gynnwys y cynnydd monitro yn erbyn targedau i fesur perfformiad yn erbyn yr amcanion ac ystyried buddsoddiadau. Rydym yn disgwyl monitro a gwerthuso cynlluniau 2020/21 ym mis Rhagfyr 2021, gan adrodd yn ôl ym mis Mawrth 2022.
140. Dylai sefydliadau ystyried monitro a gwerthuso prosesau'n gynnar. Fel y nodir uchod, yn yr adran ar yr adolygiad strategol, dylid datblygu cynllun yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd gan sefydliad fel rhan o'i waith yn monitro a gwerthuso cynlluniau blaenorol.

Monitro

141. Rhaid i'r adran hon roi sylw i ddau o ofynion cyffredinol cynllun mynediad a ffioedd. Rhaid i gynlluniau mynediad a ffioedd ddatgan sut mae'r corff llywodraethu'n bwriadu monitro cydymffurfiaeth â gofynion cyffredinol a lefelau ffioedd cynllun mynediad a ffioedd, yn ogystal â sut bydd y corff llywodraethu'n monitro perfformiad yn erbyn yr amcanion yn y cynllun.

Gwerthuso

142. O gofio bod gan sefydliadau ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i CCAUC er mwyn iddo allu cyflawni ei swyddogaeth fonitro a gwerthuso, caiff sefydliadau neilltuo buddsoddiad cynllun mynediad a ffioedd wrth werthuso effeithiolrwydd eu cynlluniau mynediad a ffioedd eu hunain.
143. Os bydd sefydliadau'n neilltuo incwm ffioedd i werthuso cynlluniau, byddem yn disgwyl i sefydliadau ddatgan eu dulliau gweithredu i werthuso mewn perthynas â'u fframweithiau gwerthuso, a'u cynnydd gyda hynny. Rydym wedi gofyn i fframweithiau gwerthuso gael eu cyflwyno i ni gyda'u hadroddiadau ar gydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd cynllun mynediad a ffioedd 2017/18, gan gydnabod y bydd y fframweithiau'n cael eu diweddarau'n achlysurol i sicrhau eu bod yn parhau'n addas i bwrpas. Byddwn yn parhau i ofyn am ddiweddariadau i'r fframwaith gwerthuso fel rhan o'n dyletswydd i werthuso effeithiolrwydd y cynlluniau mynediad a ffioedd.

²¹www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2018/W18%2031HE%20Monitoring%20and%20Evaluation%20of%202017_18%20Fee%20and%20Access%20Plans.pdf

Adran Tri: Proses cynlluniau mynediad a ffioedd CCAUC 2020/21

144. Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am y broses ar gyfer cyflwyno cynllun mynediad a ffioedd a'r broses ar gyfer cymeradwyo.
145. Rhaid i geisiadau gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
- gwybodaeth reoleiddiol sy'n dangos bod y sefydliad yn gallu cyflwyno tystiolaeth ei fod yn sefydliad priodol i fod yn rhan o'r sector a reoleiddir yng Nghymru
 - cynllun mynediad a ffioedd sy'n datgan ei ymrwymiad i wella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch
 - tystiolaeth o gymeradwyaeth corff llywodraethu.
146. Bydd sefydliadau'n cael tri templed ar gyfer: yr wybodaeth reoleiddiol; y cynllun mynediad a ffioedd; dogfen Excel i ategu'r wybodaeth reoleiddiol a'r cynllun mynediad a ffioedd; a thaflen cymeradwyaeth corff llywodraethu. Ar gyfer sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd, bydd CCAUC yn llenwi'r templedi ymlaen llaw os yw'r data perthnasol ganddo. Ar gyfer sefydliadau sy'n gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd am y tro cyntaf, bydd CCAUC yn darparu templed safonol, heb wybodaeth fuddsoddi, ar gais o cyngorrheoleiddio@hefcw.ac.uk neu regulationadvice@hefcw.ac.uk.

Cyflwyno

147. Rhaid i sefydliadau sydd eisiau cymeradwyaeth CCAUC i gynllun mynediad a ffioedd 2020/21 erbyn diwedd mis Gorffennaf/dechrau mis Awst 2019 gyflwyno eu cynllun erbyn **dydd Gwener 22 Mawrth 2019**. Efallai na chaiff cynlluniau mynediad a ffioedd a gyflwynir yn hwyrach eu cymeradwyo erbyn diwedd mis Gorffennaf/dechrau mis Awst 2019. Os yw sefydliadau'n bwriadu gwneud cyflwyniadau y tu allan i'r amserlen hon, dylent gysylltu â CCAUC i gytuno ar amserlen ar gyfer eu cyflwyno.
148. Mae corff llywodraethu sefydliad yn gyfrifol am y cynllun mynediad a ffioedd a rhaid iddo gymeradwyo cais i CCAUC. Rhaid i bob cymeradwyaeth i gynllun mynediad a ffioedd gynnwys proses o ymgysylltu â'r corff o fyfyrwyr. Bydd CCAUC yn gofyn i gorff llywodraethu gymeradwyo ailgyflwyniad terfynol cynllun, os yw cais wedi cael ei ddiwygio yn dilyn trafodaeth rhwng CCAUC a'r sefydliad. Gall oedi gyda'r corff llywodraethu'n cadarnhau ei gymeradwyaeth yn y cam terfynol hwn yn y broses effeithio ar allu CCAUC i gymeradwyo cynllun mynediad a ffioedd. Efallai y bydd sefydliadau'n dymuno sicrhau awdurdod dirprwyedig gan eu cyrff llywodraethu, os yw hynny'n briodol.
149. Dylai ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd wedi'u cwblhau gael eu huwchlwytho i'n safle diogel yn www.hefcw.ac.uk/uploadfap.aspx erbyn **dydd Gwener 22 Mawrth 2019**. Dylid labelu pob ffeil yn glir gydag enw'r sefydliad, disgrifiad o'r ffeil a'r dyddiad cyflwyno. Ni chaniateir rhoi enw sy'n fwy na 255 o lythrennau i ffeil. Cyflwynwch **Atodiad Ai** ac **Atodiad Aii** mewn fformat Word ac **Atodiad Aiii** mewn fformat Excel. Dylai taflen gymeradwyo'r corff llywodraethu fod ar ffurf PDF.

Asesiad CCAUC o gynlluniau mynediad a ffioedd

150. Bydd dadansoddiad cychwynnol CCAUC o gynlluniau mynediad a ffioedd yn cael ei ystyried gyda Phwyllgor Rheoleiddio newydd CCAUC.²² Bydd CCAUC yn darparu adborth cychwynnol i sefydliadau, gan ystyried cyngor y Pwyllgor. Bydd adborth cychwynnol CCAUC yn cael ei anfon at sefydliadau o fewn wyth wythnos i gyflwyno.
151. Bydd CCAUC yn defnyddio'r meini prawf canlynol wrth asesu'r wybodaeth reoleiddiol a'r cynlluniau mynediad a ffioedd:

Cadernid y dystiolaeth fel mae'n berthnasol i:

Gwybodaeth reoleiddiol

- i. bod yn sefydliad yng Nghymru
- ii. darparu addysg uwch
- iii. bod yn elusen
- iv. ei sefydlogrwydd ariannol
- v. ei drefniadaeth a'i reolaeth effeithiol mewn perthynas â'i faterion ariannol
- vi. ansawdd yr addysg a ddarperir ganddo neu ar ei ran, ac
- vii. y terfyn ffioedd ddim yn mynd yn uwch na'r terfyn ffioedd uchaf perthnasol a nodir yn y ddeddfwriaeth.

Cadernid y dystiolaeth fel mae'n berthnasol i:

Cynlluniau mynediad a ffioedd

- i. eglurder yr wybodaeth a ddarperir am lefelau ffioedd a benderfynir neu a nodir yn y cynllun
- ii. rhoi sylw i sut bydd sefydliadau'n darparu gwybodaeth glir i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol am eu ffioedd cyfun ar gyfer cwblhau eu cwrs
- iii. esbonio sut mae partneriaeth myfyrwyr wedi bod yn sail i ddatblygu'r cynllun mynediad a ffioedd
- iv. sut mae'r adolygiad strategol yn adeiladu ar werthusiad o arfer perthnasol, yn esbonio gwersi a ddysgwyd o gynlluniau blaenorol, yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella, yn esbonio'r cyd-fynd ag amcanion strategol y sefydliad ac yn ymateb i flaenoriaethau perthnasol Llywodraeth Cymru, CCAUC, rhanbarthol a chenedlaethol
- v. cryfder y data a'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i ddewis grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch
- vi. eglurder yr amcanion ac i ba raddau maent yn dangos yn ddigonol fwiadau'r sefydliad i wella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch
- vii. sut bydd gweithgareddau a gwasanaethau'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion, sut maent yn canolbwyntio ar grwpiau a dangynrychiolir a sut maent yn manylu ar y mathau o wasanaethau ariannol sydd ar gael
- viii. pennu targedau sy'n dangos i CCAUC lefel yr uchelgais ac amseriad y gwelliannau i'w gwneud
- ix. cyfran briodol yr incwm ffioedd sy'n cael ei fuddsoddi er mwyn gwella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch

²² www.hefcw.ac.uk/council_and_committees/committees/regulation_committee_cy.aspx

- x. manylu ar drefniadau llywodraethu, gan gynnwys sut bydd y sefydliad yn monitro ac yn gwerthuso cynllun mynediad a ffioedd 2020/21.

Hefyd byddwn yn ystyried y canlynol fel sail i'n hystyriaeth o gryfder y cynlluniau ac a oes modd gwneud mwy i wella perfformiad, dangos uchelgais ac ehangu mynediad i addysg uwch:

- i. y crynodeb gweithredol yn darparu trosolwg clir a chryno o gynnwys y cynllun
- ii. ymrwymadau i gyd-fynd â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer addysg uwch
- iii. i ba raddau mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys fel yr amlinellir yn llythyrau cylch gwaith CCAUC, yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun
- iv. i ba raddau mae'r amcanion yn cefnogi cynnydd a llwyddiant myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir drwy addysg uwch
- v. mapio amcanion i gategoriâu Llywodraeth Cymru
- vi. i ba raddau mae targedau'n ystyried Mesurau Cenedlaethol CCAUC ar gyfer perfformiad Addysg Uwch
- vii. defnyddio targedau cerrig milltir sy'n cyfrannu at dargedau tymor hwy.

Proses CCAUC ar gyfer cymeradwyo a gwrthod cynlluniau mynediad a ffioedd

- 152. Ar ôl i ddadansoddiad a phrosesau iteriad cynlluniau mynediad a ffioedd CCAUC gyda sefydliadau gael eu cwblhau, bydd CCAUC yn cymeradwyo neu'n gwrthod cynlluniau.
- 153. Ni all CCAUC gymeradwyo'r cynllun mynediad a ffioedd oni bai ei fod yn fodlon bod y sefydliad wedi dangos tystiolaeth o'r wybodaeth reoleiddiol ofynnol gan CCAUC ac wedi dangos ei ymrwymiad i wella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch.

Cymeradwyo a chyhoeddi

- 154. Bydd CCAUC yn cadarnhau bod cynllun mynediad a ffioedd wedi'i gymeradwyo drwy ysgrifennu at gorff llywodraethu sefydliad.
- 155. Rhaid i sefydliadau llwyddiannus gyhoeddi eu cynlluniau cymeradwy ar eu gwefannau, gan gynnwys dyddiad cymeradwyaeth CCAUC a'r dyddiad cyhoeddi.²³ Rydym yn disgwyl i gynlluniau gael eu cyhoeddi ar yr un dudalen ar y we â'r un yr hysbysebiri ffioedd hyfforddi arni. Gellir cysylltu'r cynlluniau â thudalennau eraill ar y we yn ôl yr angen. Byddai'n arfer da cynnwys crynodeb o'r cynllun ar y dudalen ar y we gyda'r ddolen. Rhaid rhannu'r ddolen i'r cynllun mynediad a ffioedd sydd wedi'i gyhoeddi gyda CCAUC o fewn 14 diwrnod i'w gymeradwyo, gan roi amser i ddarparwyr gyhoeddi cynlluniau'n ddwyieithog. Rhaid rhoi gwybod i CCAUC am unrhyw newidiadau i'r ddolen o fewn 7 diwrnod gwaith.

²³ Mae'r cyfarwyddyd hwn yn dynodi bod gwybodaeth reoleiddiol (adran un) y cynllun mynediad a ffioedd ar gyfer CCAUC ac na ddylid ei gyhoeddi.

156. Gellir cyflwyno ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd i CCAUC yn arddull gorfforaethol y sefydliad, gan gydnabod y bydd y fersiwn cymeradwy'n cael ei gyhoeddi ac yn rhan o ddogfennau corfforaethol y sefydliad. Fodd bynnag, **ni ddylai'r** testun a gyhoeddir amrywio mewn unrhyw ffordd ar y testun yn y cynllun a gymeradwyir gan CCAUC.
157. Nid oes angen cyhoeddi unrhyw nodiadau cyfarwyddyd gan CCAUC, gan gynnwys y rhai sy'n ffurfio rhan o'r templed.
158. Bydd CCAUC yn rhoi gwybod i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr am gynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy a therfynau ffioedd israddedig llawn amser ar gyfer 2020/21 fel y cytunir yn y cynllun mynediad a ffioedd. Hefyd, bydd CCAUC yn cadarnhau'r cyrsiau israddedig llawn amser sy'n cael eu cyflwyno ar ran y sefydliadau a reoleiddir gyda'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

Gwrthod

159. Caiff unrhyw sefydliad heb gynllun mynediad a ffioedd cymeradwy yn dilyn proses gymeradwyo CCAUC fel y nodir uchod barhau i drafod â CCAUC a/neu ddilyn y prosesau a nodir isod, ac a ddisgrifir yn y diagram yn **Atodiad C**, ynghylch prosesau CCAUC ar gyfer bwriadu gwrthod cynllun.
160. Os nad yw CCAUC yn fodlon bod y sefydliad yn bodloni ei feini prawf ar gyfer cymeradwyo cynllun, bydd yn ysgrifennu at y corff llywodraethu (anfonir at Gadeirydd y corff llywodraethu, Clerc y corff llywodraethu a chopi i'r Swyddog Atebol) i ddatgan y rhesymau dros fwriad i wrthod y cynllun.
161. Ni fydd CCAUC yn cymeradwyo cynllun mynediad a ffioedd os yw'r canlynol yn berthnasol:
- i. yr wybodaeth reoleiddiol sydd wedi'i darparu gan y sefydliad yn cael ei hystyried yn annigonol;²⁴
 - ii. terfyn ffioedd y sefydliad yn fwy na'r terfynau ffioedd perthnasol a ganiateir fel y nodir yn y ddeddfwriaeth;²⁵ neu
 - iii. nid yw corff llywodraethu'r sefydliad wedi llofnodi ei gymeradwyaeth i'r cynllun sydd wedi'i gyflwyno.
162. Ni chaiff CCAUC gymeradwyo cynllun mynediad a ffioedd os yw'n credu nad yw meini prawf CCAUC ar gyfer asesu ffocws a chynnwys y cynlluniau'n cael eu bodloni'n ddigonol.
163. Os yw CCAUC yn bwriadu gwrthod cynllun mynediad a ffioedd, rhaid iddo anfon hysbysiad o rybudd at gorff llywodraethu'r sefydliad. Mae'r diagram yn **Atodiad C** yn datgan camau'r broses hysbysu

²⁴ Gwybodaeth am fod yn sefydliad yng Nghymru, darparu addysg uwch a bod yn elusen sy'n hyfyw yn ariannol, gyda threfniadau cadarn ar gyfer trefnu a rheoli ei faterion ariannol ac ansawdd yr addysg a ddarperir ganddo neu ar ei ran.

²⁵ The Higher Education (Amounts) (Wales) Regulations 2015

Gadael y system reoleiddiol

164. Mae tair ffordd i sefydliad a reoleiddir adael y system reoleiddiol, gan gynnwys y canlynol:
- peidio â gwneud cais am gymeradwyo cynllun mynediad a ffioedd;²⁶
 - peidio â chael cymeradwyaeth i gais am gynllun; neu
 - cynllun wedi'i gymeradwyo'n cael ei dynnu'n ôl.
165. Mae gan CCAUC ddyletswydd statudol i dynnu cymeradwyaeth i gynllun mynediad a ffioedd yn ôl os nad yw bellach yn fodlon bod y sefydliad yn bodloni'r diffiniad o sefydliad a reoleiddir. Hefyd mae gan CCAUC bwerau i dynnu ei gymeradwyaeth i gynllun mynediad a ffioedd yn ôl o dan amgylchiadau eraill.²⁷
166. Os bydd sefydliad a reoleiddir yn gadael y system:
- mae pwerau CCAUC mewn perthynas ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, y sefydliad yn parhau'n berthnasol yng nghyswllt cyrsiau dynodedig y sefydliad;
 - caiff CCAUC roi i gorff llywodraethu sefydliad gyfarwyddyd neu gymryd (neu beidio â chymryd) camau penodol at ddiben delio â neu atal methu cydymffurfio â gofyniad cyffredinol cynllun mynediad a ffioedd cymeradwy os oedd y cynllun mynediad a ffioedd mewn grym adeg y methiant;
 - bydd yn ofynnol i gorff llywodraethu'r sefydliad sicrhau bod y ffioedd ar gyfer y blynyddoedd academaidd sy'n dechrau yn ystod y cyfnod y mae ei gynllun ffioedd yn berthnasol iddo'n parhau i gydymffurfio â'r terfyn ffioedd perthnasol; ac
 - mae'n ofynnol i gorff llywodraethu'r sefydliad sicrhau nad yw myfyrwyr yn colli gwarchodaeth ffioedd a bod y ffioedd ar gyfer y blynyddoedd academaidd sy'n dechrau yn ystod cyfnod ei gynllun mynediad a ffioedd diweddaraf yn parhau i gydymffurfio â'r terfyn ffioedd perthnasol drwy gydol cwrs y myfyriwr.

Amrywiad ar gynllun mynediad a ffioedd

167. Tra mae cynlluniau mynediad a ffioedd mewn grym²⁸, rhaid i sefydliadau a reoleiddir roi gwybod ar unwaith i CCAUC am unrhyw newidiadau i'w statws elusennol, eu prif leoliad neu eu gweithgareddau a all effeithio ar fodloni'r meini prawf o dan Adran 2(3) Deddf 2015.
168. Os oes unrhyw newidiadau i gynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy a'u hymrwymadau, dylai sefydliadau a reoleiddir drafod goblygiadau'r newidiadau hyn gyda CCAUC a'u cynrychiolwyr myfyrwyr cyn gynted â phosib, a chyn gwneud unrhyw newidiadau. Gall newidiadau o'r fath gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

²⁶ Bydd CCAUC yn gwahodd cynlluniau mynediad a ffioedd yn flynyddol, nes ceir hysbysiad pellach.

²⁷ Nodir pwerau ymyrryd CCAUC yn ei [Ddatganiad o Ymyriad](#)

²⁸ Y cyfnod pryd mae cynllun "mewn grym" yw'r cyfnod sy'n dechrau gyda'r dyddiad pryd caiff ei gymeradwyo ac mae'n dod i ben: naill ai ar y diwrnod pryd mae'r cyfnod y mae'r cynllun yn berthnasol iddo'n dod i ben (h.y. diwedd y flwyddyn academaidd y mae'r cynllun yn weithredol mewn perthynas â hi); neu ddyddiad hysbysiad tynnu'n ôl o dan adran 38 neu 39, pa un bynnag o'r rhain sy'n digwydd gynharaf.

- newidiadau i ffioedd hyfforddi;
- darpariaeth mewn lleoliadau newydd,
- trefniadau newydd neu adolygedig ar gyfer addysg uwch a ddarperir ar ran sefydliadau;
- neu lle mae corff sy'n darparu dysgu ac addysgu ar ran sefydliadau'n peidio â bod yn elusen tra mae'r cynllun mynediad a ffioedd mewn grym.

Bydd rhaid wrth gytundeb CCAUC i newidiadau i gynlluniau mynediad a ffioedd.

169. Rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymadau ariannol i fyfyrwyr a wnaed yn y cynlluniau a gymeradwywyd gan CCAUC.
170. Os bydd cynllun wedi'i gyhoeddi'n cael ei amrywio gyda chymeradwyaeth CCAUC, dylai sefydliad gyhoeddi ei gynllun adolygedig a chynnwys dyddiad adolygedig cymeradwyaeth CCAUC a'r dyddiad cyhoeddi adolygedig. Os na chaiff amrywiad ar gynllun ei gymeradwyo gan CCAUC, bydd y cynllun presennol sydd wedi'i gyhoeddi'n sefyll.
171. Ceir cyfarwyddyd manwl ar amrywio cynllun mynediad a ffioedd ar [wefan CCAUC](#). Bydd CCAUC, ddwywaith yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20, yn gwahodd sefydliadau a reoleiddir ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 i gyflwyno amrywiadau os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae hyn yn debygol o ddigwydd ym mis Tachwedd neu Ragfyr 2019 a mis Mehefin 2020. Gall y dyddiadau hyn newid os bydd diwygiadau i uchafswm y terfyn ffioedd yng Nghymru.
172. Rhaid i amrywiadau sy'n cynnwys newidiadau i lefelau ffioedd gael eu gwneud erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2019/20. Rhaid i sefydliadau sicrhau nad yw'r ymrwymadau a wneir i fyfyrwyr yn gwarantu lefelau ffioedd nes bod amrywiad i gynllun mynediad a ffioedd wedi'i gymeradwyo. Bydd rhaid i CCAUC gael sicrwydd nad oes ymrwymadau wedi'u gwneud i fyfyrwyr cyn amrywio lefel ffi.

Adran Pedwar: Nodiadau ar gyfer llenwi Tablau A i G yn Atodiad B

Nodiadau ar gyfer llenwi'r Tablau yn Atodiad B

173. Dylid darllen y nodiadau hyn wrth lenwi **Tablau A i G** yn Atodiad B. Mae'r nodiadau'n rhoi cyfarwyddyd ar yr wybodaeth y dylid ei rhoi fel rhan o gais y cynllun mynediad a ffioedd. Wrth lenwi'r tablau, dylai sefydliadau ystyried adran dau cyfarwyddyd y cynlluniau mynediad a ffioedd, yn benodol, paragraffau 34-41 mewn perthynas â rheoli cyrsiau.
174. Mae'r tablau'n casglu gwybodaeth fel a ganlyn:
- Mae **Tablau A, B, C a D** yn casglu gwybodaeth am y *ddarpariaeth o dan y drefn ffioedd bresennol* fel y diffinnir yn yr eirfa ar [wefan CCAUC](#), sy'n cael ei *rheoli gan sefydliadau*
 - Mae **Tabl E** yn casglu gwybodaeth am *bartneriaethau nad ydynt o dan y drefn ffioedd bresennol* a gwybodaeth am *gyrsiau mae sefydliadau'n eu dilysu ond nad ydynt yn eu rheoli* pa un ai ydynt o dan y drefn ffioedd bresennol ai peidio
 - Mae **Tabl F** yn casglu gwybodaeth am *bartneriaethau gyda phartneriaid heb fod yn y DU a champysau* sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU
 - Mae **Tabl G** yn casglu gwybodaeth am dargedau, yn ôl amcan.

Ceir rhagor o fanylion ym mharagraffau 183-214 isod ar gyfer pob tabl ac yn y testun yn y templed. Ceir diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn yr adran hon yn yr eirfa.

175. Gwelir esiamplau o sut i lenwi'r tablau ar ein [gwefan](#).
176. Tablau sampl yn unig yw'r tablau a gyhoeddir yn y cylchlythyr hwn. Rhaid i sefydliadau lenwi fersiwn electronig o'r tablau. Bydd templed cynllun mynediad a ffioedd unigol, yn fformat Excel ac yn cynnwys y tablau i'w llenwi, yn cael ei anfon i sefydliadau a reoleiddir ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn cael eu llenwi ymlaen llaw gennym ni gyda gwybodaeth o gynllun mynediad a ffioedd 2019/20 yn **Nhablau A a B** ynghylch y swm y disgwyliwyd ei fuddsoddi mewn cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch, gwerthuso, gwariant disgwylidig, ymestyn yn ehangach a chefnogaeth ariannol i fyfyrwyr. Dylai sefydliadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd gysylltu â regulationadvice@hefcw.ac.uk am gopi o'r templed i'w lenwi.
177. Os oes disgwyl i bartneriaethau fod yn eu lle ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 ond heb fod yn derfynol erbyn amser cyflwyno cais cynllun mynediad a ffioedd 2020/21 i ni ym mis Mawrth, dylai sefydliadau eu heithrio o'r cyflwyniad. Mae hyn yn berthnasol i'r holl dablau (**Tablau D, E ac F**) sy'n casglu gwybodaeth am gytundebau partneriaeth. Os caiff partneriaeth newydd ei llunio'n derfynol yn 2020/21 ac os yw'n ymwneud â chwrs israddedig llawn amser a chwrs TAR (SAC) sydd angen cefnogaeth myfyrwyr, bydd angen amrywiad ar y cynllun.

178. Mae'r tablau sydd i'w llenwi'n cynnwys sawl archwiliad dilysu. Mae'r rhain wedi'u cynnwys er mwyn sicrhau bod y data'n gyson rhwng tablau os yw hynny'n briodol, ac i dynnu sylw os nad yw lefel y buddsoddiad neu'r gwariant disgwyledig yn ôl y disgwyl. Ceir manylion am yr archwiliadau ac arwydd ynghylch a yw archwiliad wedi llwyddo ar daflen waith gyntaf y templed Excel, sydd wedi'i labelu gyda '**Dilysu**'. Os yw canran cyfanswm yr incwm y mae disgwyl iddo gael ei fuddsoddi'n is nag yn 2019/20, neu os yw canran y gwariant ar gefnogi myfyrwyr yn is nag yn 2019/20, cewch eich ysgogi i esbonio'r rheswm dros pam ei fod yn is ar y daflen waith.
179. Yn ychwanegol at y daflen waith ddilysu, ceir wyth taflen waith arall yn Atodiad B. Un daflen waith yr un ar gyfer **Tablau A i G** a thaflen waith sy'n cynnwys rhestri edrych ar gyfer y taflenni gwaith eraill, wedi'u labelu fel '**Rhestr**'. Mae'r daflen waith hon at ddiben cyfeirio yn unig ac ni ddylid nodi unrhyw wybodaeth ar y daflen waith na dileu unrhyw wybodaeth oddi arni.
180. **Dim ond yn y celloedd sydd wedi'u lliwio'n felyn ddylid nodi gwybodaeth yn y tablau.** Ni ddylid diwygio'r celloedd eraill ar y daflen waith mewn unrhyw ffordd. Y rheswm yw er mwyn cynnal fformiwlaâu fel y rhai a ddefnyddir i gyfrif cyfansymiau ac i sicrhau bod modd cynnal archwiliadau dilysu a chymariaethau.
181. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y llyfr gwaith neu os cewch unrhyw anawsterau technegol gydag ef, cysylltwch â'r Tîm Ystadegau a Chyllid ar hestats@hefcw.ac.uk.

Archwilio'r data a nodir yn Atodiad B

182. Mae'r prosesau a'r data a ddefnyddir wrth lenwi'r tablau yn Atodiad B wedi'u cynnwys yng nghwmpas yr archwiliad allanol ar ddata addysg uwch. Rydym yn disgwyl i'r archwiliadau mewnol blynyddol ar systemau a phrosesau addysg uwch gynnwys y data a geir yn Atodiad B. Efallai y bydd CCAUC yn gofyn am ragor o fanylion am sut cafodd y targedau sydd wedi'u cynnwys yn **Nhabl G** Atodiad B eu cyfrif ac efallai y byddwn yn comisiynu archwiliad allanol sy'n canolbwyntio ar y prosesau a'r data a ddefnyddiwyd wrth gyfrif y targedau.

Tabl A – Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd a buddsoddiad, 2020/21

183. Dylai **Tabl A** gael ei lenwi gyda data am incwm ffioedd a lefelau ffioedd perthnasol i'r ddarpariaeth israddedig lawn amser a TAR (SAC) y mae'r sefydliadau'n gwneud cais am reoli cynllun mynediad a ffioedd ar ei chyfer.
184. Bydd rhaid i sefydliadau sydd wedi nodi lefelau ffioedd yn eu cynllun mynediad a ffioedd ailadrodd y lefelau ffioedd hynny yn y tabl hwn. Bydd rhaid i sefydliadau sydd wedi penderfynu ar y sail ar gyfer cyfrif eu lefelau ffioedd ddatgan eu hincwm ffioedd disgwyledig ar gyfer 2020/21. Nid yw'r ddogfen hon yn gyhoeddus ac ni fydd CCAUC yn dal sefydliadau i'r lefelau ffioedd sy'n cael eu rhagweld ar gyfer 2020/21.

185. Os nad yw'r holl ffioedd arfaethedig a godir yr un fath, gofynnir am ffioedd cyfartalog fel cyfanswm ac ar gyfer y ddarpariaeth israddedig lawn amser a'r ddarpariaeth TAR (SAC) ar wahân. Dylai'r cyfartaleddau gyfateb yn union i'r cyfartaleddau a gafodd eu cyfrif o'r data a nodwyd yn **Nhablau C a D**. Os yw sefydliadau'n darparu cyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn allan, fel blwyddyn mewn lleoliad diwydiannol neu flwyddyn dramor, ac os oes lefelau ffioedd gwahanol yn cael eu codi am y blynyddoedd hyn, dylid ystyried hyn wrth gyfrif y ffioedd cyfartalog a chyfanswm yr incwm ffioedd a nodir yn **Nhabl A**.
186. Mae'r adran *Lefelau incwm ffioedd a Buddsoddiad* (paragraffau 75 i 82) yn darparu gwybodaeth am lefel yr incwm ffioedd y disgwylir ei fuddsoddi mewn cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch.
187. Cesglir incwm ffioedd o'r drefn ffioedd bresennol, wedi'i rannu rhwng incwm y ddarpariaeth israddedig lawn amser a'r ddarpariaeth TAR (SAC). Gofynnir am y cyfanswm i'w fuddsoddi mewn cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch ac mae'r ganran mae hyn yn ei chynrychioli o'r cyfanswm yn cael ei chyfrif yn awtomatig yn y tabl. Mae CCAUC yn disgwyl i gyfran yr incwm a fuddsoddir mewn cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch yn 2020/21 fel cyfanswm ar gyfer y cynllun cyfan fod y gyfran a fuddsoddwyd yn 2019/20 o leiaf. Os nad yw hyn yn cael ei nodi, bydd sylw'n cael ei dynnu at hyn yn y tabl a bydd rhaid rhoi esboniad yn y bocs o dan y tabl.

Tabl B – Gwariant disgwylidig incwm y cynllun mynediad a ffioedd, 2020/21

188. Dylai **Tabl B** gael ei lenwi gyda manylion am wariant disgwylidig yr incwm i'w fuddsoddi a nodwyd yn **Nhabl A**. Dylid cofnodi'r gwariant yn erbyn pob un o amcanion y cynllun mynediad a ffioedd (gweler paragraffau 104-110). Os yw'r gwariant yn ymwneud â mwy nag un amcan, dylid ei rannu ar draws yr amcanion. Rhaid i bob amcan fod â gwariant wedi'i nodi yn ei erbyn. Dangosir yr un cyfanswm buddsoddiad ar gyfer cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch a chanran y gwariant ym mhob un o'r ddau grŵp o amcanion yn y tabl, er gwybodaeth.
189. Rydym yn casglu'r gwariant disgwylidig ar gefnogaeth ariannol i fyfyrwyr a'r nifer disgwylidig o fyfyrwyr a gefnogir. Dangosir y ffigur cefnogi myfyrwyr fel canran o gyfanswm y gwariant disgwylidig yn y tabl, a hefyd y gwariant, y ganran a nifer y myfyrwyr o 2019/20. Os yw'r gyfran i'w gwario ar gefnogaeth ariannol i fyfyrwyr yn is nag yn 2019/20, tynnir sylw at hyn yn y tabl a rhaid rhoi esboniad yn y bocs o dan y tabl.
190. Hefyd byddwn yn casglu gwariant disgwylidig ar werthusiadau o effeithiolrwydd y cynlluniau mynediad a ffioedd a'r incwm sy'n cael ei wario ar Ymestyn yn Ehangach.

Tabl C – Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig llawn amser a TAR (SAC) o dan y drefn ffioedd bresennol, 2020/21

191. Mae **Tabl C** yn gofyn am y lefelau ffioedd sydd wedi'u nodi yn y cynllun mynediad a ffioedd neu am ragolygon ar gyfer 2020/21. Bydd rhaid i sefydliadau sydd wedi nodi eu lefelau ffioedd yn eu cynllun mynediad a

ffioedd ailadrodd y lefelau ffioedd hynny yn y tabl hwn. Bydd rhaid i sefydliadau sydd wedi penderfynu ar y sail ar gyfer cyfrif eu lefelau ffioedd nodi eu hincwm ffioedd disgwylidig ar gyfer 2020/21. Nid yw'r ddogfen hon yn gyhoeddus ac ni fydd CCAUC yn dal sefydliadau i'r lefelau ffioedd sy'n cael eu rhagweld ar gyfer 2020/21. Am ragor o wybodaeth gweler paragraffau 75-82.

192. Dim ond gwybodaeth berthnasol i gyrsiau y mae sefydliadau'n eu darparu'n uniongyrchol ddylid ei chynnwys yn y tabl hwn, fel cyrsiau:
- sy'n cael eu darparu a'u dilysu'n uniongyrchol gan y sefydliad sy'n gwneud cais am y cynllun mynediad a ffioedd
 - sy'n cael eu darparu a'u dilysu gan gorff arall ond heb fod yn rhan o drefniant rhyddfraint (gallai gynnwys is-gwmni corff wedi'i ddilysu).
193. Os yw sefydliadau'n darparu cyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn allan, fel blwyddyn mewn lleoliad diwydiannol neu flwyddyn dramor, ac os oes lefelau ffioedd gwahanol yn cael eu codi am y blynyddoedd hyn, dylent nodi data yn **Nhabl C** i adlewyrchu'r gwahanol lefelau ffioedd a godir.
194. Os yw sefydliadau'n codi'r un ffi ar gyfer pob cwrs neu grŵp, ond os oes ganddynt ddarpariaeth nad ydynt yn ei dilysu, dylent gynnwys eu holl ddarpariaeth israddedig llawn amser a TAR (SAC) o dan y drefn ffioedd bresennol yn **Nhabl C**. Dylid cynnwys rhes o ddata ar gyfer pob corff dilysu a hefyd rhes o ddata ar gyfer unrhyw ddarpariaeth maent yn ei dilysu.
195. Mae **Tabl C** yn gofyn am wybodaeth am y ffi arfaethedig, y nod o ran cymhwyster a'r pwnc (neu gellir defnyddio grŵp arall os yw hynny'n fwy priodol). Mae angen blwyddyn (blynyddoedd) y cwrs y mae lefel y ffioedd yn berthnasol iddi a hefyd rhaid nodi a yw'r ddarpariaeth yn TAR (SAC) yn arwain at statws athro cymwys (SAC). Hefyd cesglir nifer disgwylidig y myfyrwyr wrth gyfrif y ffi gyfartalog a nodir yn **Nhabl A**. Os yw sefydliadau'n llenwi'r tabl hwn am fod ganddynt ddarpariaeth nad ydynt yn ei dilysu, dylent ddarparu manylion y corff dilysu. Caiff cyfanswm yr incwm disgwylidig ei gyfrif yn awtomatig yn y tabl gan ddefnyddio nifer y myfyrwyr a'r ffi arfaethedig.
196. Dylid seilio'r rhagolygon ar gyfer nifer y myfyrwyr ar yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Wrth ddadansoddi ceisiadau, byddwn yn cymharu rhwng y rhagolygon ariannol a myfyrwyr a gyflwynwyd i ni ym mis Gorffennaf 2018, ac unrhyw ddiweddariadau a gyflwynwyd, gan gynnwys y data a nodwyd yn **Nhablau C a D**. Ni fyddwn yn disgwyl cyfateb union rhwng y ffigurau. Bydd y data rhagolygon myfyrwyr a gasglwyd ym mis Gorffennaf wedi'u seilio ar ragdybio cwblhau ac efallai eu bod wedi cael eu diweddarau gyda gwybodaeth fwy cyfredol. Bydd y rhagolygon incwm ffioedd yn wahanol hefyd, oherwydd diffyg cwblhau ac ildio ffioedd, er enghraifft. Os yw'r gwahaniaethau'n sylweddol, efallai y byddwn yn gofyn am sylwebaeth i esbonio'r gwahaniaethau a welir.

Tabl D – Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig llawn amser a TAR (SAC) o dan y drefn ffioedd bresennol ar gyfer darpariaeth partneriaeth yn y DU, 2020/21

197. Mae **Tabl D** yn gofyn am fanylion am y cyrsiau mae sefydliadau'n eu cynnwys yn **Nhabl A** sy'n cael eu cyflwyno ar eu rhan fel rhan o drefniant rhyddfrait, neu a gyflwynir gan is-gwmni. Os ydynt yn codi lefelau ffioedd gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o ddarpariaeth, neu os oes ganddynt ddarpariaeth nad ydynt yn ei dilysu, bydd yr wybodaeth a nodir yma a'r wybodaeth a nodir yn **Nhabl C** yn rhoi'r un lefelau ffioedd cyfartalog â'r rhai a nodir yn **Nhabl A**. Os yw'r lefelau ffioedd yr un fath ar gyfer yr holl ddarpariaeth, ac os yw sefydliadau'n dilysu'r holl ddarpariaeth, dylent gynnwys manylion am y partneriaethau yr un fath yn **Nhabl D**, er nad ydynt wedi llenwi **Tabl C**. Yn y tabl hwn ceir gwybodaeth am gyrsiau sy'n:
- cael eu rhoi ar ryddfrait i ddarparwr elusennol arall
 - cael eu cyflwyno gan is-gwmni elusennol, gyda'r sefydliad sy'n gwneud cais am y cynllun mynediad a ffioedd yn rhiant-gwmni i'r is-gwmni hwnnw, ac nid yw'r is-gwmni'n cyflwyno ei gynllun mynediad a ffioedd ei hun.
198. Mae enw a chyfeiriad y partner yn cael eu casglu yn y tabl hwn, a chadarnhad bod y partner yn elusen, dyddiad y cytundeb partneriaeth a chadarnhad, os yw dyddiad y cytundeb cyn 1 Medi 2015, bod atodiad wedi'i gynnwys i ddweud bod y ddarpariaeth yn dod o dan y Ddeddf AU. **Os nad oes atodiad o'r fath yn bodoli, rhaid i sefydliadau gyflwyno esboniad gyda'r atodiad wedi'i gwblhau.**
199. Yn y tabl cesglir manylion am y nod o ran cymhwyster a theitl cwrs y ddarpariaeth, blwyddyn (blynyddoedd) y cwrs y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi, nifer disgwylidig y myfyrwyr a'r ffi arfaethedig. Gweler paragraff 196 uchod sy'n rhoi sylw i nodi niferoedd myfyrwyr. Caiff cyfanswm yr incwm disgwylidig ei gyfrif yn awtomatig yn y tabl gan ddefnyddio niferoedd myfyrwyr a'r ffi arfaethedig.
200. Ceidw CCAUC yr hawl i ofyn am gopiau o'r cytundebau partneriaeth a nodir yn y tabl hwn.

Tabl E – Cytundebau partneriaeth ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr pob dull a lefel, gan gynnwys addysg bellach ac is, ar gyfer darpariaeth partneriaeth yn y DU nad yw wedi'i chynnwys eisoes yn Nhabl D, 2020/21

201. Mae **Tabl E** yn gofyn am fanylion am yr holl drefniadau partneriaeth gyda darparwyr elusennol ac anelusennol yn y DU gyda'r myfyrwyr wedi'u lleoli yn y DU a **heb eu cynnwys eisoes yn Nhabl D**. Mae hyn yn cynnwys trefniadau rhyddfrait ac ategol nad ydynt yn rhan o'r drefn ffioedd bresennol a'r trefniadau dilysu, boed o dan y drefn ffioedd bresennol ai peidio, sydd gan sefydliadau â darparwyr eraill, lle mae'r darparwr arall yn rheoli'r cyrsiau. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth a gyflwynir ar lefelau astudio eraill gyda sefydliadau nad ydynt yn gyrrff dyfarnu'n cyflwyno cyrsiau o dan drefniadau dilysu.

202. Os oes gan sefydliadau fathau eraill o ddarpariaeth maent yn eu cyflwyno mewn cydweithrediad â phartner, dylid cynnwys y trefniadau hynny yma hefyd. Yn y tabl hwn ceir gwybodaeth am gyrsiau:
- y mae sefydliadau'n eu rhoi allan ar ryddfrait i ddarparwr elusennol neu anelusennol arall
 - a gyflwynir gan is-gwmni elusennol, gyda'r sefydliad yn rhiant-gwmni ar yr is-gwmni hwnnw, a'r is-gwmni'n cyflwyno ei gynllun mynediad a ffioedd ei hun
 - a gyflwynir gan is-gwmni anelusennol, gyda'r sefydliad yn rhiant-gwmni ar yr is-gwmni hwnnw
 - a gyflwynir mewn cydweithrediad â phartner
 - nad yw sefydliadau'n eu darparu, dim ond yn eu dilysu, os yw'r darparwr yn elusen ai peidio.
203. Mae'r tabl hwn yn casglu gwybodaeth am y math o drefniant partneriaeth, a ddewisir oddi ar gwymprestr, enw a chyfeiriad y partner, dyddiad y cytundeb partneriaeth a chadarnhad, os yw dyddiad y cytundeb cyn 1 Medi 2015, ynghylch a oes atodiad i ddweud bod y ddarpariaeth yn dod o dan y Ddeddf AU. Hefyd cesglir rhagolygon ar gyfer nifer y myfyrwyr a chyfanswm disgwylidig yr incwm o'r trefniant. Gweler paragraff 196 uchod am nodi niferoedd y myfyrwyr.
204. Ceidw CCAUC yr hawl i ofyn am gopiâu o'r cytundebau partneriaeth a nodir yn y tabl hwn.

Tabl F – Trefniadau partneriaeth a champws ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr pob dull a lefel, gan gynnwys addysg bellach ac is, ar gyfer darpariaeth partneriaeth a champws y tu allan i'r DU, 2020/21

205. Mae **Tabl F** yn casglu gwybodaeth am bartneriaethau gyda phartneriaid nad ydynt yn y DU, neu gampysau y tu allan i'r DU, gyda'r myfyrwyr wedi'u lleoli y tu allan i'r DU. Dylid cynnwys campysau a phob mathau o bartneriaethau yn y tabl hwn, gan gynnwys presenoldeb corfforol (e.e. campws y sefydliadau), partneriaeth leol (e.e. trefniant rhyddfrait neu drefniant dilysu) a dysgu o bell yn unig lle mae'r myfyriwr wedi'i leoli y tu allan i'r DU a'r cwrs yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â phartner heb fod o'r DU. Dylid cynnwys pob dull a lefel astudio, gan gynnwys pob dull a lefel astudio mewn addysg bellach ac is. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth a gyflwynir ar lefelau astudio eraill gyda sefydliadau nad ydynt yn gyrrff dyfarnu'n cyflwyno cyrsiau o dan drefniadau dilysu.
206. Cesglir y math o drefniant partneriaeth neu gampws yn y golofn gyntaf. Cynhwysir chwe math o ddarpariaeth ar y gwymprestr, gyda chategori ychwanegol, sef 'Arall', rhag ofn bod amgylchiadau'n codi nad ydynt yn cydfynd â'r mathau hynny. Mae'r mathau'n cyfateb i'r rhai a ddefnyddiwyd yn yr arolwg TNE yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd gan CCAUC yn 2015. Dyma'r mathau:
- darpariaeth ar gampws: mae'n cynnwys darpariaeth ar Gampws Cangen Ryngwladol

- darpariaeth a gyflwynir mewn sefydliad partner – rhaglen ryddfrait: mae'n cynnwys rhaglenni ar ryddfrait, 'Cyfadran yn Hedfan' a threfniant 'Allgymorth'
- darpariaeth a gyflwynir mewn sefydliad partner – rhaglen gydweithredol arall: mae'n cynnwys menter ar y cyd, SAU tramor annibynnol (gydag enw corff cydnabyddedig yn y DU) a gradd/dyfarniad dwbl/deuol/ar y cyd
- darpariaeth dysgu o bell: mae'n cynnwys dysgu hyblyg/dosbarthedig/e-ddysgu
- rhaglenni dilysu: mae'n cynnwys trefniadau sicrwydd ansawdd
- unrhyw gyfuniad o'r mathau uchod o ddarpariaeth: mae'n cynnwys dysgu cyfun ac unrhyw gyfuniad arall o'r mathau uchod.

207. Hefyd yn y tabl hwn cesglir enw a chyfeiriad y partner, gan gynnwys y wlad, dyddiad y cytundeb partneriaeth neu ddyddiad dechrau'r campws a chadarnhad, os yw dyddiad y cytundeb partneriaeth cyn 1 Medi 2015, bod atodiad i ddweud bod y ddarpariaeth yn dod o dan y Ddeddf AU. Hefyd cesglir rhagolygon ar gyfer nifer y myfyrwyr a chyfanswm disgwyliedig yr incwm o'r trefniant. Gweler paragraff 196 isod am nodi niferoedd y myfyrwyr.
208. Ceidw CCAUC yr hawl i ofyn am gopïau o'r cytundebau partneriaeth a nodir yn y tabl hwn.

Tabl G – Targedau

209. Mae **Tabl G** yn casglu data am dargedau ac amcanion a bennir gan y sefydliadau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mharagraffau 102 i 129.
210. Dylid rhoi disgrifiad o'r targed, hynny yw, beth mae'r targed yn gobeithio'i gyflawni, yng ngholofn gyntaf y tabl, gan gynnwys, lle mae disgrifydd y targed yn rhifol, darparu naill ai ganran neu rif neu'r ddau. Mae'r ail golofn yn gofyn am yr amcan, a rhaid iddo gyfateb i'r rhai a restrir yn Nhabl B mewn perthynas â chyflleoedd cyfartal a hybu addysg uwch. Rhaid i bob amcan fod ag o leiaf un targed wedi'i gynnwys yn erbyn y categori hwnnw yn **Nhabl G**.
211. Mae'r drydedd golofn (sydd wedi'i rhannu'n ddwy is-golofn) yn gofyn am wybodaeth ynghylch a yw'r targed yn gyfrifoldeb mwy nag un sefydliad cynllun mynediad a ffioedd. Mae'r bedwaredd golofn yn gofyn am y flwyddyn sylfaen ac, fel rheol, y flwyddyn gyda'r data mwyaf diweddar ar gael amdani yw hon, neu, os nad dyma'r achos, dylid darparu esboniad yn y golofn sylwebaeth. Mae'r bumfed golofn yn gofyn am y data sylfaen, ar gyfer targedau'n seiliedig ar rifau a/neu ganrannau. Rydym eisiau rhif a chanran ar gyfer cyd-destun, dim ots os yw'r disgrifydd targed yn cynnwys rhif neu ganran yn unig.
212. Mae'r seithfed golofn yn gofyn am y cyflawniad targed mae'r sefydliad yn anelu amdano. Rhaid cynnwys canran neu rif, neu'r ddau os yw hynny'n bosib. Os mai dim ond rhif neu ddim ond canran a roddir, dylid cynnwys gwybodaeth gyd-destunol yn y golofn nesaf. Ar gyfer targedau rhifol, dylai'r wybodaeth gyd-destunol neu'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i gyfrif y targed gael eu cynnwys os nad yw'r rhain wedi cael eu cynnwys fel y targed. Er enghraifft, os yw cynnydd canran mewn myfyrwyr o grŵp penodol yn darged,

dylech gynnwys yn yr wybodaeth gyd-destunol y cynnydd disgwylidig ar gyfer y grŵp hwn a/neu'r boblogaeth ddisgwylidig o fyfyrwyr mae'r ganran wedi'i seilio arni. Dylai'r rhifau poblogaeth fod yn gyson â'r wybodaeth arall sydd wedi'i nodi yn yr Atodiad hwn a'ch rhagolygon diweddaraf ar gyfer niferoedd myfyrwyr, h.y. y rhai a anfonwyd i CCAUC ym mis Gorffennaf 2018 neu ffigurau wedi'u diweddarau. Dim ond ar gyfer targedau cerrig milltir 2020/21 mae hyn yn ofynnol, a'r data sylfaen, ac nid ar gyfer y targedau yn y dyfodol.

213. Mae'r data cyd-destunol yn darparu gwybodaeth am sut cafodd y targed ei gyfrif, graddfa'r gweithgarwch a lefel y perfformiad. Bydd yn galluogi asesiad o raddfa'r uchelgais a'r cynnydd i'w wneud gan CCAUC a'r bwrdd llywodraethwyr. Defnyddir yr wybodaeth gyd-destunol i ddeall yn llawnach a yw unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn y targed yn trosi i wahaniaethau sylweddol yn nifer y myfyrwyr lle nodir canrannau neu mewn canrannau lle nodir rhifau.
214. Dyma rai pwyntiau i'w nodi wrth lenwi Tabl G:
- Dylai'r targedau fod yn ddigonol o ran nifer, ac ar y lefel briodol, fel sail i fonitro. Gall rhai targedau, lle nad ydynt yn dargedau SMART digonol, gael eu mynegi'n well yn yr adran darpariaeth naratif o'r cynlluniau, ac mae hyn yn cynnwys targedau heb ddata na llinellau sylfaen. Dylai targedau alluogi CCAUC, a'r corff llywodraethu, i roi cyfrif am gynnydd a buddsoddiad
 - Daeth rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben ym mis Mawrth 2018. Felly bydd targedau cynlluniau mynediad a ffioedd sy'n seiliedig ar ddata Cymunedau yn Gyntaf yn anodd eu monitro
 - Ar gyfer targedau seiliedig ar gyrchfannau perthnasol i ganlyniadau arolwg Canlyniadau Graddedigion HESA, dylid seilio'r data sylfaen ar arolwg HESA ar gyrchfan y rhai sy'n gadael addysg uwch (DLHE). Felly efallai y bydd rhaid i dargedau fod yn fwy uchelgeisiol na phan oedd y llinell sylfaen a'r targed yn seiliedig ar y DLHE, i ystyried y cyfnod estynedig o amser ar gyfer yr arolwg newydd
 - Rydym yn cydnabod, wrth adolygu targedau, gan gynnwys ystyried Mesurau Cenedlaethol CCAUC i sicrhau ffocws i bennu targedau, y bydd rhai sefydliadau eisiau newid y targedau blaenorol efallai. Os felly, rhowch esboniad llawn ar gyfer newidiadau targed, yn enwedig lle nad yw'r targedau'n parhau yn 2020/21
 - Rhaid i gynlluniau gynnwys targedau sy'n gyraeddadwy erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2020/21, neu rhaid iddynt gynnwys targedau cerrig milltir 2020/21 sy'n cyfrannu tuag at darged tymor hwy, i alluogi adrodd yn ôl ar gynnydd erbyn mis Rhagfyr 2021. Er enghraifft, dylai targedau a fesurir yn ôl cyflawniad yn erbyn meincnodau dangosyddion perfformiad y DU bennu targedau sy'n dynodi cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad 2019/20 HESA ar gyfer CCAUC, i ddadansoddi targedau yn erbyn data meincnod sydd ar gael erbyn mis Rhagfyr 2021
 - Os yw'r targed yn fesuradwy erbyn diwedd 2021 ond ddim yn ymwneud â data 2020/21, dylid gwneud nodyn yn y bocs sylwebaeth i esbonio'r data a ddefnyddiwyd.

Templed cynllun mynediad a ffioedd 2020/21 – grid cyflwyno Atodiad B

Templed yn dangos pa Ddarparwr Addysg Uwch sy'n cyflwyno darpariaeth ar gynllun mynediad a ffioedd ac ar ba dabl

Sefyllfa	Lefel y ddarpariaeth	Darparwr (rhyddfrefniwr)	Darparwr (deiliad rhyddfrait)	Darparwr (corff dilysu)	Darparwr (gyda darpariaeth yn cael ei dilysu gan gorff arall)	Darparwr (rhiant-gorff ar is-gwmni)	Darparwr (is-gwmni i riant-gorff)
Darpariaeth ei hun yn lleoliad y darparwr, yn cael ei rheoli a'i dilysu gan y darparwr hwnnw	Addysg uwch			Tabl C (os yw lefelau ffioedd y drefn ffioedd bresennol yn wahanol)			
Darpariaeth ei hun yn lleoliad y darparwr, yn cael ei rheoli gan y darparwr hwnnw ond yn cael ei dilysu gan gorff arall				Tabl E	Tabl C (os yw lefelau ffioedd y drefn ffioedd bresennol yn wahanol ai peidio)		
Darpariaeth yn lleoliad is-gwmni i ddarparwr sy'n rhiant-gorff, yn cael ei dilysu gan y darparwr sy'n rhiant-gorff neu gorff arall						Tabl D a/neu Tabl E [os yw'r ddarpariaeth yn cael ei rheoli gan y rhiant-gorff ac yn cael ei chyflwyno ar ran is-gwmni]	Tabl C (os yw lefelau ffioedd y drefn ffioedd bresennol yn wahanol ai peidio) [os yw'r ddarpariaeth yn cael ei rheoli gan yr is-gwmni a'i fod yn cyflwyno ei gynllun mynediad a ffioedd ei hun]
Darpariaeth yn lleoliad is-gwmni i ddarparwr sy'n rhiant-gorff, yn cael ei dilysu gan y corff sy'n is-gwmni						Tabl D a/neu Tabl E [os yw'r ddarpariaeth yn cael ei rheoli gan y rhiant-gorff ac yn cael ei chyflwyno ar ran is-gwmni]	Tabl C (os yw lefelau ffioedd y drefn ffioedd bresennol yn wahanol) [os yw'r ddarpariaeth yn cael ei rheoli gan yr is-gwmni a'i fod yn cyflwyno ei gynllun mynediad a ffioedd ei hun]

Templed cynllun mynediad a ffioedd 2020/21 – grid cyflwyno Atodiad B (parhad)

Pwy sy'n cyflwyno'r ddarpariaeth ar ei gynllun ffioedd, ar ba dabl

Sefyllfa	Lefel y ddarpariaeth	Darparwr (rhyddfrefniwr)	Darparwr (deiliad rhyddfrefniant)	Darparwr (corff dilysu)	Darparwr (gyda darpariaeth yn cael ei dilysu gan gorff arall)	Darparwr (rhiant-gorff ar is-gwmni)	Darparwr (is-gwmni i riant-gorff)	
Darpariaeth rhyddfrefniant, yn cael ei dilysu gan y rhyddfrefniwr o Gymru	Addysg Uwch	Tablau D a/neu E						
Darpariaeth rhyddfrefniant, yn cael ei dilysu gan gorff o Gymru ar wahân i'r rhyddfrefniwr o Gymru		Tablau D a/neu E						
Darpariaeth rhyddfrefniant, yn cael ei dilysu gan gorff o Gymru ar wahân i'r rhyddfrefniwr heb fod o Gymru		Ni fydd yn cael ei chyflwyno am nad yw'r rhyddfrefniwr o Gymru						
Darpariaeth rhyddfrefniant, yn cael ei dilysu gan y rhyddfrefniwr heb fod o Gymru		Ni fydd yn cael ei chyflwyno am nad yw'r rhyddfrefniwr o Gymru						
Darpariaeth rhyddfrefniant, yn cael ei dilysu gan gorff heb fod o Gymru ar wahân i'r rhyddfrefniwr o Gymru		Tablau D a/neu E						
Darpariaeth rhyddfrefniant, yn cael ei dilysu gan gorff heb fod o Gymru ar wahân i'r rhyddfrefniwr heb fod o Gymru		Ni fydd yn cael ei chyflwyno am nad yw'r rhyddfrefniwr o Gymru						
Darpariaeth ar bob lefel ar gampysau heb fod yn y DU a phartneriaid (pob math)	Pob un	Tabl F		Tabl F		Tabl F		
Darpariaeth ei hun ar lefel is nag AU gyda'r darparwr	AB ac is	Ni fydd yn cael ei chyflwyno gan fod y ddarpariaeth yn is na lefel AU ac nid yw'n rhan o drefniant partneriaeth						
Darpariaeth rhyddfrefniant ar lefel is nag AU i ysgolion a SABau (ar ryddfrefniant gan ryddfrefniwr o Gymru)	AB ac is	Tabl E						

Rhyddfrefniwr = y darparwr sy'n rhyddfrefnio'r ddarpariaeth i ddarparwr arall fel rhan o gytundeb rhyddfrefniant ac sy'n rheoli'r ddarpariaeth honno

Deiliad rhyddfrefniant = y darparwr sy'n darparu'r ddarpariaeth ar ran y rhyddfrefniwr

Yn y grid uchod, cymerir bod y darparwyr a'r is-gwmnïau'n elusennol os oes angen ar gyfer cyflwyno'r data yn y tabl a nodir.

Atodiad 1: Crynodeb o'r newidiadau allweddol sydd wedi'u gwneud i gyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd 2020/21

1. Mae cyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd 2020/21 wedi cael ei ddiwygio, gan gynnwys i ystyried canfyddiadau ac argymhellion adolygiad AU Ymlaen o dair blynedd gyntaf y cynlluniau mynediad a ffioedd o dan Ddeddf 2015. Mae cyngor y Pwyllgor Rheoleiddio newydd wedi cael ei ystyried. Bu rhai newidiadau allweddol, fel y nodir isod, gan gynnwys y canlynol:
 - ystyried gofynion llythyr cylch gwaith²⁹ CCAUC ac argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Gyllid Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr (Adolygiad Diamond)³⁰ ar gyfer cryfhau cynlluniau mynediad a ffioedd ac ystyried cyllid cyfatebol sefydliadau i fentrau ehangu mynediad cydweithredol
 - diweddarau'r cyfarwyddyd i gyfeirio'n gliriach at ofynion cyffredinol cynlluniau mynediad a ffioedd
 - esbonio'r cyfarwyddyd ar gyfer lefelau ffioedd, gan gydnabod y potensial am newidiadau i ffioedd hyfforddi yng ngoleuni adolygiad Augar yn Lloegr³¹
 - adolygu'r adran ar gynlluniau mynediad a ffioedd i annog gwell pennu amcanion ac i esbonio ein disgwyliadau o ran gweithgareddau neu wasanaethau, targedau a buddsoddiad
 - addasu **Tabl B** yr Atodiad fel bod y buddsoddiad yn cael ei ddatgan yn erbyn amcanion yn hytrach na chategoriâu Llywodraeth Cymru
 - datgan yr agweddau ar gyflwyniadau cynlluniau mynediad a ffioedd a fydd yn destun craffu cynyddol gan CCAUC yn 2020/21
 - pennu disgwyliadau cliriach o ran monitro a gwerthuso cynlluniau mynediad a ffioedd.

Bydd ein [Pwyllgor Rheoleiddio](#) newydd yn adolygu'r cyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd yn ei gyfarfod yn hydref 2019, yng ngoleuni ei asesiad o geisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd 2020/21. Gall yr adolygiad hwn arwain at newidiadau pellach i gyfarwyddyd 2021/22. Trafodir unrhyw newidiadau pellach yn y seminar ar gyfer sefydliadau a reoleiddir sydd i'w threfnu yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn.

²⁹ [Llythyr cylch gwaith CCAUC 2017-18](#) paragraff 4.6 ar 'weithredu pecyn Diamond'.

³⁰ [Adolygiad Diamond](#) paragraff 9:13.2 'rydym yn argyhoeddedig, er y bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol iawn ar economeg ehangu mynediad, mae yna achos cryf o blaid cyllid, a hynny ar y cyd â darparwr AU neu gonsortia o ddarparwyr AU yn ôl pob tebyg, i hyrwyddo a chymell codi dyheadau ac agweddau cymdeithasol ar ehangu mynediad.'

³¹ www.gov.uk/government/news/prime-minister-launches-major-review-of-post-18-education

Atodiad 2: Amserlen ar gyfer proses cynlluniau mynediad a ffioedd 2020/21 ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n bwriadu sicrhau cymeradwyaeth erbyn Mehefin/Gorffennaf 2019

Gweithgaredd	Dyddiad dangosol³²
Sefydliadau i gyflwyno cynlluniau mynediad a ffioedd.	Dydd Gwener 22 Mawrth 2019
CCAUC i drafod y cynlluniau mynediad a ffioedd gyda sefydliadau.	26 Mawrth – 31 Gorffennaf 2019
Pwyllgor rheoleiddio i ystyried ceisiadau	Dechrau Mai 2019
CCAUC i anfon adborth cychwynnol at sefydliadau unigol ar y cynllun mynediad a ffioedd sydd wedi'i gyflwyno ganddynt.	Yr wythnos sy'n gorffen ar 17 Mai 2019
Y sefydliadau i gyflwyno ceisiadau adolygedig ar gyfer y cynlluniau mynediad a ffioedd yn dilyn adborth CCAUC.	Yr wythnos sy'n gorffen ar 28 Mehefin 2019
CCAUC i anfon adborth at y sefydliadau ar y cynlluniau mynediad a ffioedd wedi'u diweddarau sydd wedi'u cyflwyno ganddynt.	Yr wythnos sy'n gorffen ar 5 Gorffennaf 2019
Y sefydliadau i gyflwyno ceisiadau adolygedig ar gyfer y cynlluniau mynediad a ffioedd yn dilyn adborth CCAUC.	Yr wythnos sy'n gorffen ar 19 Gorffennaf 2019
CCAUC i roi gwybod i'r sefydliadau am ganlyniad cais eu cynllun mynediad a ffioedd.	Gorffennaf 2019/Awst 2019
Sefydliadau i gyhoeddi'r cynlluniau cymeradwy ar-lein. CCAUC yn disgwyl i hyn fod o fewn wythnos i gymeradwyo.	Awst 2019
Proses apeliadau'r cynlluniau mynediad a ffioedd yn dechrau.	Awst 2019
Cyflwyniadau sefydliadau i fod yn sail i fonitro a gwerthuso proses cynllun mynediad a ffioedd 2020/21 i'w chyflwyno i CCAUC.	Rhagfyr 2021

Mae CCAUC yn darparu adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar sut mae CCAUC wedi ymarfer ei swyddogaethau yn unol â'r Ddeddf, gan gynnwys monitro cynlluniau mynediad a ffioedd erbyn mis Mawrth 2022.

³² Sylwer y gall y dyddiadau amrywio ryw ychydig er mwyn sicrhau bod CCAUC yn gallu gweithredu'r broses mynediad a ffioedd yn llawn ar gyfer cynlluniau mynediad a ffioedd 2020/21, gan gynnwys trafod digonol â sefydliadau.

Templed Ymgeisio Cynllun Mynediad a Ffioedd 2020/21

Enw'r sefydliad:	
Cyfeiriad y sefydliad:	

	Prif gyswllt	Cyswllt arall
Enw cyswllt:		
Teitl swydd:		
Rhif ffôn:		
Cyfeiriad e-bost:		

Cynllun mynediad a ffioedd – nodyn cyfarwyddyd

Dywed CCAUC ei bod yn ofynnol i gynlluniau mynediad a ffioedd sefydliadau ddarparu gwybodaeth ddiweddar, berthnasol a data y gellir eu dilysu. Os nad yw'r wybodaeth a'r data a ddarperir yn ddigon clir, neu os yw'n anodd i CCAUC eu cysoni â gwybodaeth arall sydd ganddo, bydd CCAUC yn cysylltu â sefydliadau am ragor o wybodaeth a/neu esboniad, er mwyn ein galluogi ni i ddeall y cais yn llawnach.

Dylai sefydliadau sy'n ymgeisio am gynlluniau mynediad a ffioedd gwblhau'r templed hwn ac Atodiad B, sy'n cynnwys Tablau A i G mewn llyfr gwaith Excel.

Nodwch enw'r sefydliad ymgeisio mynediad a ffioedd yma

Enw'r sefydliad:	
-------------------------	--

Templed Ymgeisio Cynllun Mynediad a Ffioedd 2020/21

Adran 1. Gwybodaeth Reoleiddiol

Gwybodaeth reoleiddiol i'w darparu i CCAUC - nodyn cyfarwyddyd

1. Mae'r adran hon yn darparu cyfarwyddyd ar yr wybodaeth y mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n ymgeisio am gynllun mynediad a ffioedd ei chyflwyno i ddangos eu bod yn gymwys i wneud cais am gynllun mynediad a ffioedd.
2. Os oes gan CCAUC wybodaeth a data wedi'u cyflwyno i ni eisoes, byddwn yn eu defnyddio i ddangos tystiolaeth o allu'r sefydliad i fodloni gofynion rheoleiddiol y cynllun mynediad a ffioedd os oes gennym gymeradwyaeth y corff llywodraethu. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf, os ydym wedi cael caniatâd y sefydliadau. Rydym wedi dynodi ar y templed ymgeisio yr wybodaeth rydym yn bwriadu ei defnyddio ar gyfer sefydliadau a reoleiddir ar hyn o bryd. Mae'r templed ymgeisio'n cynnwys cyfresi o ddatganiadau y dylai cyrff llywodraethu sefydliadau ymrwymo iddynt wrth gyflwyno ceisiadau, gan gynnwys cadarnhau defnydd CCAUC o wybodaeth sy'n cael ei dal ar hyn o bryd. Hefyd gall sefydliadau gyflwyno gwybodaeth newydd, ychwanegol neu fwy diweddar fel sail i asesiad CCAUC o'r cynllun mynediad a ffioedd. Gan weithio gyda sefydliadau a reoleiddir a phartïon eraill sydd â diddordeb, mae CCAUC wedi ailystyried y gofynion o ran gwybodaeth a data ar gyfer ceisiadau mynediad a ffioedd yn 2020/21 yn dilyn ei adolygiad o broses cynllun mynediad a ffioedd 2018/19 ac maent yn parhau'r un fath i raddau helaeth â rhai 2018/19.
3. Dim ond os yw sefydliadau'n bodloni'r holl feini prawf perthnasol i fod yn sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch fydd CCAUC yn cymeradwyo'r cynllun mynediad a ffioedd a rhaid iddynt fod yn elusen hefyd. Yn ogystal, rhaid cael tystiolaeth ddigonol o hyfywedd ariannol sefydliadau, eu trefniadaeth a'u rheolaeth ar faterion ariannol, ac ansawdd yr addysg a ddarperir ganddynt neu ar eu rhan.

Tabl 1: Meini prawf ar gyfer bod yn sefydliad

Mae'r esiamplau o gyrrff mae CCAUC yn eu hystyried fel sefydliadau'n cynnwys: prifysgolion a ffurfiwyd gan Siarter Brenhinol, Corfforaethau Addysg Uwch a Chorfforaethau Addysg Bellach a chyrrff sy'n hyfforddi aelodau'r gweithlu addysg. Rhaid i ddarparwr sy'n elusen sy'n darparu AU yng Nghymru ond nad yw'n cael ei ystyried fel arall fel sefydliad wneud cais i Lywodraeth Cymru am gael ei ddynodi fel sefydliad cyn cyflwyno cais cynllun mynediad a ffioedd i CCAUC a rhaid iddo ddarparu tystiolaeth i CCAUC o gadarnhad Llywodraeth Cymru o'i statws fel sefydliad.

Rhaid i sefydliadau ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

Tystiolaeth o statws y corff, fel yr amlinellir yn y paragraff uchod ac, os yw hynny'n briodol, tystiolaeth o gadarnhad Llywodraeth Cymru o statws y corff fel sefydliad.

[Nid oes raid i sefydliadau a reoleiddir sydd â chynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy ddarparu'r wybodaeth hon. Mae angen tystiolaeth o gadarnhad Llywodraeth Cymru o statws sefydliadau fel sefydliad os nad oes gan CCAUC y dystiolaeth hon eisoes.]

Tabl 2: Meini prawf ar gyfer bod yng Nghymru

Bydd CCAUC yn ystyried sefydliad fel un yng Nghymru drwy ystyried gwybodaeth amrywiol, gan gynnwys i ba raddau y mae ei weithgareddau dysgu ac addysgu'n cael eu cynnal yn llawn neu'n bennaf yng Nghymru a ble mae ei fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn wedi'u lleoli: gweler Adran 57(3) (a) Deddf 2015.

Rhaid i sefydliadau ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

<i>Enw'r sefydliad</i>	
<i>Prif gyfeiriad a chyfeiriad cyfreithiol os yw'n wahanol</i>	[ar gyfer sefydliadau a reoleiddir sydd â chynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy, dim ond os yw'r cyfeiriadau'n wahanol i'r wybodaeth a ddarparwyd yng nghynlluniau cymeradwy 2018/19 ddylid darparu hyn]
<i>Rhif cofrestru darparwr y DU</i>	[ar gyfer sefydliadau a reoleiddir sydd â chynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy, dim ond os yw'r wybodaeth yn wahanol i'r wybodaeth a ddarparwyd yng nghynlluniau cymeradwy 2018/19 ddylid darparu'r wybodaeth hon]
<i>Unrhyw enwau eraill y mae'r sefydliad yn gweithredu oddi tanynt</i>	[ar gyfer sefydliadau a reoleiddir sydd â chynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy, dim ond os yw'r wybodaeth yn wahanol i'r wybodaeth a ddarparwyd yng nghynlluniau cymeradwy 2018/19 ddylid darparu'r wybodaeth hon]
<i>Ble mae'r gweithgareddau dysgu ac addysgu wedi'u lleoli¹ (gweler yr wybodaeth yng</i>	[ar gyfer sefydliadau sy'n tanysgrifio i HESA, byddwn yn defnyddio'r data a nodwyd yng nghofnod myfyrwyr HESA a'r cofnod tramor cyfun (AOR). Os

¹ Byddwn yn penderfynu ar leoliad y myfyriwr fel a ganlyn. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofnodi yng nghofnod myfyrwyr HESA: os yw myfyriwr yn dysgu o bell, bydd yn cael ei gyfrif yn lleoliad ei gyfeiriad cartref; os yw ar ryddfrait i sefydliad arall, bydd yn cael ei gyfrif yn lleoliad y sefydliad arall; os yw'n mynychu is-gwmni, bydd yn cael ei gyfrif yn lleoliad yr is-gwmni; fel arall bydd yn cael ei gyfrif yn lleoliad y campws mae'n cael ei gofnodi'n ei fynychu. Gwneir y cyfrif yn y drefn a restrir. Mae hyn yn golygu y bydd dysgwr o bell sydd ar ryddfrait yn cael ei gyfrif yn lleoliad ei gyfeiriad cartref, nid lleoliad y rhyddfrait. Bydd yr holl fyfyrwyr sydd wedi'u cynnwys ar gofnod tramor cyfun (AOR) HESA yn cael eu cyfrif fel myfyrwyr o'r tu allan i Gymru. Am

<p><i>nghyfarwyddyd cynllun mynediad a ffioedd 2020/21 CCAUC: Meini prawf ar fod yn sefydliad yng Nghymru)</i></p>	<p>nad yw'r math o danysgrifiad yn cynnwys dychwelyd yr AOR i HESA, dylid darparu gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth sy'n cael ei chynnal y tu allan i'r DU yma]</p>	
<p><i>Dolen at dudalennau'r sefydliad ar y we'n gysylltiedig â gweithgareddau dysgu ac addysgu'r sefydliad</i></p>		
<p><i>Ble mae mwyafrif y myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn wedi'u lleoli. Rhaid i sefydliadau nodi cyfanswm yr <u>holl</u> fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn sy'n mynychu cyrsiau a gyflwynir yng Nghymru o gymharu â chyfanswm yr holl fyfyrwyr² cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys y rhai sy'n mynychu cyrsiau a gyflwynir y tu allan i Gymru.</i></p> <p>Pan ddarperir data yn yr adran hon, ceidw CCAUC yr hawl i ymweld â sefydliadau i astudio a deall y data a'r wybodaeth a ddarperir.</p>	<p>Cyfanswm cyfwerth ag amser llawn yr <u>holl</u> fyfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau a gyflwynir yng Nghymru:</p> <p>Cyfanswm cyfwerth ag amser llawn yr <u>holl</u> fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n mynychu cyrsiau a gyflwynir y tu allan i Gymru:</p>	<p>[ar gyfer sefydliadau sy'n tanysgrifio i HESA byddwn yn defnyddio'r cofnod myfyrwyr a'r cofnod tramor cyfun (AOR)³ 2016/17 i gyfrif cyfwerth ag amser llawn yn ôl lleoliad. Os nad yw'r math o danysgrifiad yn cynnwys dychwelyd yr AOR i HESA, dylid darparu gwybodaeth am gyfwerth ag amser llawn unrhyw ddarpariaeth sy'n cael ei chynnal y tu allan i'r DU yma.]</p>

wybodaeth am yr AOR, gweler troednodyn 3 isod. Mae'r diffiniad hwn yn gyson â chyfrif myfyrwyr dysgu o bell at ddibenion penderfynu ar statws 'gallu i gyllido' yn [arolwg HESES, Atodiad C](#).

² Mae 'yr holl fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn' yn cynnwys yr holl fyfyrwyr o Gymru, myfyrwyr cartref, myfyrwyr o'r UE a myfyrwyr tramor. Mae 'y tu allan i Gymru' yn cynnwys yr holl fyfyrwyr wedi'u lleoli yng ngweddill y DU, yr UE a thramor.

³ Mae data AOR HESA yn darparu nifer y myfyrwyr, nid y rhai cyfwerth ag amser llawn, ac nid ydynt yn darparu manylion am ddull astudio. Wrth ddefnyddio data AOR, byddwn yn cymryd yn ganiataol bod nifer y pennau'n cyfateb i'r nifer cyfwerth ag amser llawn. Os oes gan ddarparwr ddarpariaeth addysg drawsgenedlaethol (TNE) ran amser, bydd hyn yn arwain at gyfwerth ag amser llawn gynyddol y tu allan i Gymru. Felly, os bydd defnyddio data AOR yn dod â'r ganran y tu allan i Gymru i 50% neu fwy, byddwn yn defnyddio'r data o ffynonellau eraill, fel cyfartaledd cyfwerth ag amser llawn i bob myfyriwr a gymerir o gofnod myfyrwyr HESA, i ategu'r cyfrif, er mwyn darparu amcangyfrif mwy realistig o'r cyfwerth ag amser llawn y tu allan i Gymru. Er enghraifft, byddwn yn defnyddio'r data atodol i amcangyfrif cyfran y ddarpariaeth sydd wedi'i chyflwyno ar yr AOR sy'n rhan amser. Byddwn yn ymgynghori ag unrhyw ddarparwr lle mae'r cyfrif wedi'i adolygu hefyd yn arwain at ganran y tu allan i Gymru o 50% neu fwy.

Meini prawf ar gyfer bod yn sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch (AU) – nodyn cyfarwyddyd

5. Dylai sefydliadau sydd â darpariaeth wedi'i lleoli yng Nghymru sy'n cael ei dilysu gan gorff arall restru eu cymwysterau yng Nghymru, nifer y myfyrwyr yng Nghymru, lleoliadau yng Nghymru a darparu rhestr o'r cyrsiau addysg uwch a gyflwynir yng Nghymru fel y nodir yn eu prospectws, gyda dolen electronig at y cyrsiau hyn, boed yng Nghymru neu yn rhywle arall.

Tabl 3: Meini prawf ar gyfer darparu addysg uwch (AU)	
Bydd CCAUC yn ystyried bod sefydliad yng Nghymru'n darparu addysg uwch os yw'r ddarpariaeth yn cynnwys cwrs/cyrsiau addysg uwch heb ystyried dull, fel y rhestrir yn Atodlen 6 Deddf Diwygio Addysg 1988 a'i nodi yng nghyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i CCAUC ar Gynlluniau Mynediad a Ffioedd, paragraff 3.12.	
Rhaid i sefydliadau ddarparu'r wybodaeth ganlynol:	
<i>Disgrifiad o'r addysg uwch a ddarperir gan sefydliadau yng Nghymru gan gynnwys y dyfarniadau a ddarperir (gweler cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru 3.12 a 3.13).</i>	[Ar gyfer sefydliadau sy'n tanysgrifio i HESA ac yn dychwelyd data iddo, byddwn yn defnyddio'r data hynny]
<i>Nifer cyfwerth ag amser llawn (FTE) y myfyrwyr yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch efallai a'r dyddiad ymgeisio ar gyfer y tair blynedd flaenorol.</i>	[Ar gyfer sefydliadau sy'n tanysgrifio i HESA ac yn dychwelyd data iddo, byddwn yn defnyddio'r data hynny ac, os yw hynny'n briodol, data LLWR ar gyfer y blynyddoedd blaenorol]
<i>Rhestr o leoliad/au y ddarpariaeth addysg uwch yng Nghymru.</i>	[Darparu: (i) gwybodaeth am leoliadau'r ddarpariaeth a ddarperir gan sefydliadau yma a (ii) gwybodaeth am leoliad darpariaeth partneriaeth a ddarperir ar ran sefydliadau yn y cais yn nhempel Atodiad B]
<i>Cadarnhad mai'r sefydliad sy'n rheoli'r cwrs.</i>	[Rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd ddarparu dogfennau gan y corff dyfarnu sy'n cadarnhau eu bod yn rheoli'r cwrs]

Tabl 4: Meini prawf ar fod yn elusen

Mae pob Corfforaeth Addysg Uwch a Phrifysgol Siartredig yng Nghymru sy'n derbyn cyllid gan CCAUC wedi'u cofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr.

Rhaid i sefydliadau ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

Rhif cofrestru'r sefydliad fel elusen ac enw a chyfeiriad y rheoleiddiwr elusennau sy'n cofrestru sefydliadau.

[Mae sefydliadau a reoleiddir sydd â chynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy'n elusennau ac felly nid oes angen gwybodaeth bellach ganddynt]

Os nad yw sefydliadau wedi'u cofrestru gyda rheoleiddiwr elusennau, nodwch y rhesymau dros hyn ynghyd â chopi o unrhyw ddogfen lywodraethu.

Gwybodaeth am fodloni gofynion sefydliad a reoleiddir – nodyn cyfarwyddyd

6. Rhaid i sefydliadau ddarparu gwybodaeth am eu hyfywedd ariannol, y trefniadau ar gyfer rheolaeth ar faterion ariannol, ac ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau. Am ragor o wybodaeth am y manylion gofynnol, edrychwch ar y gofynion yn yr adrannau ar sefydliadau a reoleiddir yng nghyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd 2020/21 CCAUC: *cyfrededd a digonolrwydd yr wybodaeth i'w darparu i CCAUC yn dangos tystiolaeth o hyfywedd ariannol cymwys; trefniadaeth a rheolaeth ar faterion ariannol; ac ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau.*
7. Os oes gan CCAUC ddigon o wybodaeth ariannol a/neu safonol ddiweddar am sefydliadau a reoleiddir ar hyn o bryd, bydd CCAUC yn ei defnyddio, yn amodol ar roi caniatâd. Gan fod y data a gynigir wedi'u darparu'n wreiddiol at ddibenion ar wahân i reoleiddio o dan Ddeddf 2015, bydd arnom angen cadarnhad gan gyrff llywodraethu sefydliadau ei bod yn dderbyniol i CCAUC eu defnyddio at y dibenion hyn. Rydym wedi darparu esiamplau o'r wybodaeth rydym yn bwriadu ei defnyddio ar gyfer sefydliadau a reoleiddir ar hyn o bryd. Mae croeso i sefydliadau gyflwyno gwybodaeth newydd, ychwanegol neu fwy diweddar fel sail i asesiad CCAUC.
8. Dylai sefydliadau gynnwys eu cynllun strategol cyfredol neu ddarparu cyfeiriad ato ar y we, os nad yw CCAUC wedi ei dderbyn eisoes, a rhagolygon ariannol llawn ar gyfer y flwyddyn gyfredol a thair blynedd yn y dyfodol. Ceir rhagor o wybodaeth am fformat gofynnol yr wybodaeth yn yr adran ar *hyfywedd ariannol* yng nghyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd CCAUC. Dylai'r dystiolaeth gynnwys sylwebaeth ar y rhagdybiaethau.

Tabl 5: Hyfywedd Ariannol

Rhaid i sefydliadau ddarparu gwybodaeth i CCAUC am eu hyfywedd ariannol a'u cynaliadwyedd, gan gynnwys tystiolaeth bod ganddynt risg isel o fethiant ar sail ariannol yn y tymor canolig i hir. Hefyd bydd CCAUC yn disgwyl i sefydliadau gadarnhau'n ffurfiol bod y risg yn isel iddynt fethu ar sail ariannol yn y tymor canolig i hir.

Rhaid i sefydliadau ddarparu gwybodaeth i ddangos y canlynol:

<p><i>Strwythur grŵp corfforaethol sefydliadau, gan gynnwys manylion am holl gwmnïau a chyrff y grŵp (gan gynnwys is-gwmnïau, rhiant-gwmnïau/ cwmnïau daliannol a mentrau cyswllt neu ar y cyd).</i></p>	
<p>Hyfywedd ariannol - gwybodaeth am berfformiad hanesyddol: dylai sefydliadau ddarparu tystiolaeth o, neu gyfeirio at, wybodaeth a gyflwynwyd yn flaenorol i CCAUC ynghylch adroddiadau blynyddol a datganiadau ariannol a archwiliwyd yn allanol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd cyn y cais.</p>	<p>[Ar gyfer prifysgolion sy'n sefydliadau a reoleiddir gyda chynllun mynediad a ffioedd cymeradwy, byddwn yn defnyddio'r data canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datganiadau ariannol wedi'u harchwilio am y 3 blynedd diwethaf • Adroddiadau blynyddol archwiliad allanol am y 3 blynedd diwethaf]
<p>Hyfywedd ariannol - gwybodaeth am y strategaeth ariannol: dylai sefydliadau gynnwys strategaeth ariannol, neu gyfeirio at wybodaeth a gyflwynwyd yn flaenorol i CCAUC ynghylch y cynllun strategol cyffredinol a/neu wybodaeth sy'n datgan meincnodau a dangosyddion perfformiad priodol i ddangos sut bydd adnoddau'n cael eu defnyddio a sut bydd gweithgareddau a seilwaith yn cael eu cyllido. Dylai'r wybodaeth gynnwys sut mae sefydliadau'n asesu ac yn adolygu eu cynaliadwyedd, gan gynnwys defnyddio asesiadau cynaliadwyedd.</p>	<p>[Ar gyfer prifysgolion gyda chynllun mynediad a ffioedd cymeradwy, byddwn yn defnyddio (yn amodol ar gadarnhad) y rhagolwg ariannol a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2018. (Os yw sefydliadau wedi cadarnhau y gallwn ddefnyddio'r rhagolwg ariannol a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2018, bydd rhaid i'r sefydliadau naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cadarnhau bod eu strategaeth ariannol yn parhau heb ei newid • neu ddarparu esboniad manwl o'r newidiadau i'r strategaeth ariannol ers cyflwyno'r rhagolygon). <p>Hefyd: Bydd rhaid i sefydliadau a reoleiddir gyflwyno tystiolaeth o hyd ynghylch strategaeth ariannol, fel y disgrifir. Gall sefydliadau a reoleiddir sydd wedi</p>

	<p>paratoi adroddiad ASSUR fodloni'r gofyniad am gynaliadwyedd drwy gyflwyno adroddiad o'r fath os ydynt yn dymuno.]</p>
<p>Hyfywedd ariannol – gwybodaeth am ragolygon: dylai sefydliadau ddarparu tystiolaeth (os oes angen, gyda chefnogaeth gwarant rhiant gwmni) neu gyfeirio at dystiolaeth a gyflwynwyd yn flaenorol i CCAUC yn dangos bod ganddynt y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • llif arian digonol i barhau'n hydal, hynny yw, digon o hylifedd i dalu dyledion fel maent yn dod yn ddyledus • mantolen ddigonol, hynny yw, eu bod yn cynnal sefyllfa cyfanswm asedau net heb greu diffygion pe bai'r rhain yn arwain at sefyllfa cyfanswm atebolrwydd net. 	<p>[Ar gyfer prifysgolion gyda chynllun mynediad a ffioedd cymeradwy, byddwn yn defnyddio (yn amodol ar gadarnhad) y rhagolwg ariannol a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2018. (Os yw sefydliadau wedi cadarnhau y gallwn ddefnyddio'r rhagolwg ariannol a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2018, bydd rhaid i'r sefydliadau naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cadarnhau bod eu rhagdybiaethau rhagolwg ariannol yn parhau heb eu newid • neu ddarparu esboniad manwl o'r newidiadau ers cyflwyno'r rhagolygon, gan gynnwys y prif ffigurau perthnasol i'r newidiadau)].

Tabl 6: Y drefniadaeth a'r rheolaeth ar faterion ariannol

Bydd rhaid i sefydliadau ddarparu tystiolaeth eu bod yn cael eu rheoli'n dda gydag arferion rheoli cadarn yn eu lle a chapasiti i ddatblygu yn unol â'u cynllun strategol a'r strategaeth ariannol sy'n cefnogi eu cynllun mynediad a ffioedd.

Rhaid i sefydliadau ddarparu gwybodaeth i ddangos bod ganddynt:

<ul style="list-style-type: none"> • <i>prosesau rheoli ariannol sy'n cael eu llywodraethu'n dda ac yn cael eu rheoli'n ddigonol ac yn effeithiol</i> 	<p>[Ar gyfer prifysgolion sy'n sefydliadau a reoleiddir, byddwn (yn amodol ar eich cadarnhad) yn defnyddio'r data canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiadau blynyddol archwiliad mewnol y 3 blynedd diwethaf, yn rhoi lefelau sicrwydd am fesurau rheoli ariannol craidd • Rhagolygon ariannol am y 3 blynedd diwethaf • Gwybodaeth a sicrhawyd o'n prosesau sicrwydd ansawdd ynghylch strwythurau llywodraethu, gan gynnwys y pwyllgor archwilio, y pwyllgor cyllid neu gyfatebol]
<ul style="list-style-type: none"> • <i>cynlluniau a gweithgareddau sy'n cael eu rheoli i barhau'n hyfyw</i> 	<p>[Ar gyfer sefydliadau a reoleiddir, byddwn (yn amodol ar eich cadarnhad) yn defnyddio'r rhagolwg ariannol a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2018. Hefyd:</p> <p>Yn ogystal â gwybodaeth am y rhagolwg ariannol, bydd rhaid i sefydliadau a reoleiddir ddarparu gwybodaeth o hyd am broses pennu cyllideb a monitro'r sefydliad, a'r broses ar gyfer cynhyrchu, dosbarthu a monitro cyfrifon rheoli]</p>
<ul style="list-style-type: none"> • <i>systemau cadarn a chynhwysfawr o reoli risg a rheolaeth fewnol</i> 	<p>[Ar gyfer prifysgolion sy'n sefydliadau a reoleiddir, byddwn (yn amodol ar eich cadarnhad) yn defnyddio'r data canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiadau blynyddol archwiliad mewnol y 3 blynedd diwethaf, yn rhoi lefelau sicrwydd am brosesau rheoli risg • Adroddiadau blynyddol archwiliad mewnol y 3 blynedd diwethaf, yn rhoi barn gyffredinol am y rheolaeth fewnol]
<ul style="list-style-type: none"> • <i>trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli ansawdd data ac i roi sicrwydd am y data a</i> 	<p>[Ar gyfer prifysgolion sy'n sefydliadau a reoleiddir, byddwn (yn amodol ar eich cadarnhad) yn defnyddio'r data canlynol:</p>

Nodwch enw'r sefydliad ymgeisio mynediad a ffioedd yma

<p><i>ddefnyddir ar gyfer gwneud penderfyniadau mewnol</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiadau archwiliad mewnol y 3 blynedd diwethaf ar systemau a phrosesau data AU • Yr archwiliad data allanol diweddaraf]
<ul style="list-style-type: none"> • <i>cyfrifon rheoli rheolaidd, dibynadwy, amserol a digonol neu wybodaeth yr un mor gadarn i fonitro perfformiad gweithredol ac ariannol.</i> 	<p>[Dylai sefydliadu ddarparu trosolwg byr o'r wybodaeth a gynhwysir fel rheol yn eu cyfrifon rheoli, sut mae'r rhain yn cael eu cynhyrchu a gyda phwy maent yn cael eu rhannu. Os nad yw sefydliadau'n paratoi cyfrifon rheoli, rhaid disgrifio unrhyw brosesau perthnasol eraill]</p>
<ul style="list-style-type: none"> • <i>rhoi gwybodaeth yn rheolaidd, yn gynhwysfawr ac yn gywir i uwch reolwyr priodol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.</i> 	<p>[Ar gyfer prifysgolion sy'n sefydliadau a reoleiddir, bydd CCAUC (yn amodol ar eich cadarnhad) yn defnyddio'r data canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiadau blynyddol archwiliad mewnol y 3 blynedd diwethaf, yn rhoi lefelau sicrwydd am brosesau llywodraethu • Yr adolygiad diwethaf o'r effeithiolrwydd llywodraethu, os cafodd ei gynnal yn allanol]
<ul style="list-style-type: none"> • <i>rheoli eu stad mewn ffordd gynaliadwy yn unol â strategaeth stadau.</i> 	<p>[Strategaeth stadau neu gyfatebol, a byddai gwybodaeth am fonitro perfformiad stadau o help i ddarparu tystiolaeth am reoli'r stad mewn ffordd gynaliadwy]</p>
<ul style="list-style-type: none"> • <i>gallu bodloni'r holl ofynion casglu ac adrodd yn ôl ar ddata ar gyfer CCAUC gan gynnwys y rhai a weinyddir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a chyrrff eraill fel sy'n ofynnol gan CCAUC.</i> 	<p>[Ar gyfer sefydliadau a reoleiddir, byddwn (yn amodol ar gadarnhad) yn defnyddio'r data canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiadau archwiliad mewnol y 3 blynedd diwethaf ar systemau a phrosesau data AU • Yr archwiliad data allanol diweddaraf • Arolwg blynyddol HESES • Data a ddarperir i LLWR • Data myfyrwyr, cyrchfan myfyrwyr, staff, stadau, cyllid a busnes a rhyngweithio cymunedol a ddarparwyd i HESA ac • Y ffurflen sicrwydd flynyddol.]

<ul style="list-style-type: none"> • <i>gallu cydymffurfio ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Addysg Uwch (Pwyllgor o Gadeiryddion Prifysgol, Rhagfyr 2014) oni bai fod modd dangos tystiolaeth o drefniadau eraill yr un mor gadarn.</i> 	<p>[Diwygio/dileu'r datganiadau canlynol a darparu gwybodaeth, o dan (ii) isod, os yw hynny'n briodol:</p> <p>(i) Gall sefydliadau gadarnhau eu bod yn cydymffurfio/nad ydynt yn cydymffurfio ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Addysg Uwch (Pwyllgor o Gadeiryddion Prifysgol (Rhagfyr 2014).</p> <p>(ii) Mae sefydliadau'n cadw at drefniadau llywodraethu eraill, yr un mor gadarn, ac mae'r wybodaeth ganlynol yn datgan y trefniadau hyn.</p> <p>(iii) Gall sefydliadau ddangos eu bod yn cadw at drefniadau llywodraethu cadarn.]</p>
<ul style="list-style-type: none"> • <i>cydymffurfio â gofynion statudol perthnasol i archwilio allanol ac yn eiddo i, ac yn cael ei reoli a'i weithredu gan 'bobl addas a phriodol' drwy ddarparu:</i> <ul style="list-style-type: none"> • <i>tystiolaeth o bwy yw'r sefydliad a'r unigolion allweddol ynddo (er enghraifft, Corff Llywodraethu, Is Ganghellor, Pennaeth, cyfarwyddwyr, cyfranddallwyr, ymddiriedolwyr) ynghyd â'u sgiliau a'u profiad a</i> • <i>cadarnhad bod y cyfarwyddwyr (os yw'n gwmni) neu'r ymddiriedolwyr (os yw'n elusen) yn gymwys i weithredu fel naill ai cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr ac nad ydynt wedi'u gwneud yn anghymwys i weithredu fel cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr</i> 	<p>[Ar gyfer sefydliadau a reoleiddir, nid oes arnom angen yr wybodaeth hon</p> <p>Mewn perthynas â phwy yw'r sefydliad, dylai sefydliadau eraill ddarparu, er enghraifft, siarter, tystysgrif ymgorffori, ac ati.</p> <p>Mewn perthynas ag unigolion, dylai sefydliadau eraill ddarparu gwybodaeth ddigonol am unigolion allweddol fel bod modd chwilio drwy gofnodion Tŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau, gan gynnwys rhestrï o gyfarwyddwyr/ymddiriedolwyr anghymwys.]</p>

Ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliad – nodyn cyfarwyddyd

9. Dylai sefydliadau ddarparu gwybodaeth am ansawdd y ddarpariaeth, neu ddarpariaeth a wneir ar ei ran, heb ystyried lefel na lleoliad y ddarpariaeth.

Tabl 7: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliad

Mae CCAUC yn gyfrifol am asesu ansawdd yr holl addysg a ddarperir yng Nghymru, gan sefydliadau ac ar ran sefydliadau.

Rhaid i sefydliadau ddarparu:

Cadarnhad bod ganddo weithdrefnau sicrwydd ansawdd mewnol yn eu lle ar gyfer ei holl ddarpariaeth addysg. Cadarnhad gan sefydliadau bod ganddynt weithdrefnau asesu ansawdd yn eu lle ar gyfer eu holl ddarpariaeth addysg yng Nghymru – os yw darpariaeth o'r fath gan y sefydliadau neu ar eu rhan. Mae hyn yn golygu darpariaeth addysg uwch, darpariaeth heb fod yn ddarpariaeth addysg uwch, ee ysgol, addysg bellach neu addysg broffesiynol. Mae hefyd yn cynnwys addysg mae sefydliadau'n ei ddarparu'n uniongyrchol neu drwy ddarparwyr eraill. Rhaid i'r sefydliadau gadarnhau bod ansawdd eu holl ddarpariaeth, fel y disgrifir uchod, wedi'i sicrhau gan gorff priodol.

[Cadarnhad bod gweithdrefnau sicrwydd ansawdd mewnol yn eu lle ar gyfer yr holl ddarpariaeth addysg]

Cadarnhad a thystiolaeth bod eu darpariaeth addysg uwch, ac unrhyw addysg uwch a ddarperir ar eu rhan (ee darpariaeth rhyddfrait), wedi llwyddo mewn adolygiad sicrwydd ansawdd allanol, Adolygiad Gwella Ansawdd (QER), Adolygiad Addysg Uwch: Cymru (HERW), neu adolygiad fel rhan o broses gyfatebol gan [Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd](#) yn ystod y chwe blynedd diwethaf neu wedi bodloni'r gofynion ansawdd (fel y nodir yng nghylchlythyr [W17/40HE](#)). Dylai sefydliadau sydd angen Adolygiad Gwella Ansawdd gysylltu â'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd. (Os yw sefydliad a reoleiddir ar hyn o bryd wrthi'n gweithio drwy ganlyniadau adolygiad i roi sylw i faterion y tynnwyd sylw atynt, yn unol

[Datganiad yn cadarnhau bod y sefydliad wedi cael adolygiad llwyddiannus o addysg uwch (gan gynnwys yr addysg uwch a ddarperir ar ei ran). Rhaid cynnwys dolen at yr adroddiad(au). Os yw sefydliad yn gweithio drwy ganlyniadau adolygiad i roi sylw i faterion y tynnwyd sylw atynt, rhaid nodi hyn.]

<p><i>â'r gweithdrefnau arferol, cânt wneud cais am gynllun mynediad a ffioedd).</i></p>	
<p><i>Cadarnhad a thystiolaeth bod ei ddarpariaeth heb fod yn ddarpariaeth addysg uwch, ac unrhyw addysg heb fod yn addysg uwch a ddarperir ar ei ran, wedi cael adolygiad/arolwg llwyddiannus gan y corff priodol sy'n gyfrifol am safonau ansawdd y ddarpariaeth honno. (Os yw sefydliad a reoleiddir ar hyn o bryd wrthi'n gweithio drwy ganlyniadau adolygiad i roi sylw i faterion y tynnwyd sylw atynt, yn unol â'r gweithdrefnau arferol, cânt wneud cais am gynllun mynediad a ffioedd).</i></p>	<p>[Datganiad yn cadarnhau bod y sefydliad wedi llwyddo mewn adolygiad/arolwg (arolygon) ar ei ddarpariaeth heb fod yn ddarpariaeth addysg uwch (gan gynnwys darpariaeth a gyflwynir ar ei ran). Rhaid cynnwys dolen at yr adroddiad(au) a gwybodaeth am ddyddiad yr adolygiad/arolwg. Os yw sefydliad yn gweithio drwy ganlyniadau adolygiad/arolwg i roi sylw i faterion y tynnwyd sylw atynt, rhaid nodi hyn.]</p>
<p><i>Rhestr o gytundebau gyda darparwyr allanol ynghyd â gwybodaeth am gyrsiau partneriaeth, dyddiad pob cytundeb (h.y. i gadarnhau bod y cytundeb wedi cael ei ail-lofnodi ers 1 Medi 2015, neu fel arall ddyddiad yr atodiad a ychwanegwyd i gadarnhau bod y ddarpariaeth wedi'i chytuno i ddod o dan Ddeddf 2015), a hyd y trefniant partneriaeth. Ar gyfer sefydliad a reoleiddir sy'n darparu addysg uwch o dan drefniadau dilysu, rhowch dystiolaeth bod trefniant dilysu yn ei le, dim ots beth yw ei lefel a'i leoliad. (Gweler Tabl E sydd wedi cael ei ddarparu ar wahân yn Atodiad B).</i></p>	<p>[Bydd sefydliadau wedi datgan yr wybodaeth hon yn nhempeld Ymgeisio Atodiad B Tablau D, E ac F.]</p>

Nodwch enw'r sefydliad ymgeisio mynediad a ffioedd yma

Cadarnhad bod y corff llywodraethu wedi gallu cymeradwyo'r datganiadau sicrwydd ansawdd y gofynnir amdanynt yn flynyddol. [O ran sefydliadau newydd, rhaid cyflwyno copi wedi'i lofnodi o'r datganiadau.]

Cymerir o'r ffurflen sicrwydd ansawdd flynyddol ar gyfer sefydliadau a reoleiddir ar hyn o bryd.

Enw'r sefydliad:	
-------------------------	--

Adran 2. Cynllun Mynediad a Ffioedd

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn yr adran hon ar gyfer CCAUC, myfyrwyr, darpar fyfyrwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb ac, ar ôl ei chymeradwyo gan CCAUC, dylid ei chyhoeddi ar wefan y sefydliad o fewn pythefnos i gael ei chymeradwyo.

Caiff sefydliadau newid y daflen wyneb a fformat y penawdau, i adlewyrchu eu brand eu hunain, mewn cam cynnar yn natblygiad eu ceisiadau, a chyn eu cyflwyno i CCAUC am gymeradwyaeth. Ni ddylai'r testun a gyhoeddir fod yn wahanol i'r testun yn yr adran hon o'r cynllun fel y cymeradwyir gan CCAUC.

Rhaid i gynlluniau mynediad a ffioedd fod ar gael yn hwylus i fyfyrwyr, darpar fyfyrwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb ar ôl eu cyhoeddi.

Cynlluniau mynediad a ffioedd

Nodyn cyfarwyddyd

10. Dylai sefydliadau ddarparu gwybodaeth berthnasol a diweddar, a data y gellir eu dilysu ar gyfer CCAUC, myfyrwyr a darpar fyfyrwyr a phartion eraill sydd â diddordeb.
11. Dylai cais y cynllun mynediad a ffioedd gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
12. **Tudalen gynnwys:** Bydd hyn o gymorth i ddarllenwyr wrth fynd drwy'r ddogfen. (*paragraff 70 y cyfarwyddyd*)
13. **Crynodeb gweithredol:** Rhaid i sefydliadau ddarparu crynodeb gweithredol yn datgan ffocws a chynnwys eu cynllun mynediad a ffioedd. Rhaid cyfyngu'r crynodeb gweithredol i ddim mwy na 1000 o eiriau. (*paragraffau 98-99 y cyfarwyddyd*)
14. **Hyd y cynllun mynediad a ffioedd:** Dylai sefydliadau nodi'r dyddiadau pryd bydd y sefydliad yn gweithredu ei flwyddyn academiaidd yn 2020/21. Byddem yn disgwyl i hyn fod rhwng 1 Awst 2020 a 31 Gorffennaf 2021. (*paragraffau 73-74 y cyfarwyddyd*)
15. **Lefelau ffioedd:** Rhaid i sefydliadau naill ai nodi'r lefelau ffioedd neu ddarparu ar gyfer penderfyniad yn eu cylch. Os yw sefydliadau'n manylu ar lefelau ffioedd ar gyfer 2020/21, rhaid manylu ar bob ffi wahanol. Rhaid i gynlluniau ddarparu gwybodaeth glir i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol am eu ffioedd cyfunol ar gyfer cwblhau eu cwrs. (*paragraffau 75-82 y cyfarwyddyd*)
16. **Partneriaeth myfyrwyr:** Rhaid i sefydliadau esbonio graddfa cyswllt y sefydliadau â'u corff o fyfyrwyr wrth ddatblygu, asesu a llunio cynlluniau mynediad a ffioedd yn derfynol, gan gynnwys gwybodaeth am gyswllt â'r corff o fyfyrwyr lle mae addysg uwch yn cael ei darparu ar ran sefydliadau. Hefyd dylent ddatgan i ba raddau mae ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd yn adlewyrchu egwyddorion [datganiad Wise Cymru ar Bartneriaeth](#) ar gyfer addysg uwch a'r [Canllaw ar ddarparu gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr israddedig](#). (*paragraffau 83-85 y cyfarwyddyd*)
17. **Adolygiad strategol:** Rhaid i sefydliadau ddatgan y canlynol:
 - Cyfiawnhad dros y cynlluniau mynediad a ffioedd i 'gyflwyno'r achos' dros ddull y sefydliad o gefnogi cyfleoedd cyfartal a hybu AU. Os yw sefydliadau wedi bod â chynlluniau mynediad a ffioedd o'r blaen, rhaid ystyried adolygiad/asesiad beirniadol o ganlyniadau'r cynlluniau hynny, a'r gwersi a ddysgwyd oddi wrthynt. Dylai'r wybodaeth gynnwys y canlynol:
 - sut mae'r cyfiawnhad o'r cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn sail i adnabod grwpiau a dangynrychiolir, amcanion, darpariaeth, targedau a lefelau buddsoddi
 - esboniad o sut mae'r cynlluniau wedi'u hymgorffori ar lefel strategol ar draws y sefydliad

Nodwch enw'r sefydliad ymgeisio mynediad a ffioedd yma

- esboniad o sut mae'r cynlluniau'n cyd-fynd â chenhadaeth a phwrpas sefydliadau ac amcanion strategol sefydliadol
- esboniad o sut mae'r cynlluniau'n cyd-fynd â chynlluniau cydraddoldeb strategol neu ddogfennau tebyg
- esboniad o sut mae'r cynlluniau'n cyd-fynd â strategaethau'r iaith Gymraeg neu ymrwymadau strategol tebyg, safonau'r Gymraeg a/neu ymrwymadau'r iaith Gymraeg
- esboniad ynghylch a yw'r cynlluniau'n cefnogi agendâu cydweithredol a/neu gydlyniant rhanbarthol ac, os ydynt, sut, er enghraifft, y Rhaglen Ymestyn yn Ehangach. (*paragraffau 86-89 y cyfarwyddyd*)

18. **Grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch:** Rhaid i sefydliadau gynnwys:

- y grwpiau maent yn eu hystyried fel rhai a dangynrychiolir mewn addysg uwch a'r dystiolaeth ar gyfer y sefyllfa hon. Gall grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch fod yn cael eu tangynrychioli mewn addysg uwch yn gyffredinol neu'n benodol mewn sefydliadau unigol. (*paragraffau 90-101 y cyfarwyddyd*)

19. **Amcanion, gweithgareddau a thargedau fel maent yn berthnasol i gyfleoedd cyfartal a hybu AU:** Rhaid i sefydliadau ddatgan yn glir yr amcanion, y gweithgareddau a'r gwasanaethau a gyflwynir er mwyn cyflawni eu hamcanion a chyrraedd y targedau fyddant yn eu pennu i fesur cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn. Rhaid iddynt ddangos sut mae'r amcanion yn cyd-fynd â chategoriâu Llywodraeth Cymru a chyflawnir hyn drwy lenwi'r tabl yn Atodiad Ai. Rhaid datgan yr amcanion, y targedau a'r gweithgareddau yn glir i gefnogi cyfleoedd cyfartal, ac ar wahân i hybu addysg uwch. Rhaid dangos tystiolaeth o'r canlynol:

- amcanion sy'n dangos sut mae sefydliadau'n denu ceisiadau gan fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir, yn cadw myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir ac yn sicrhau bod gwybodaeth am gymorth ariannol ar gael i bob myfyriwr a darpar fyfyriwr
- amcanion perthnasol i hybu addysg uwch
- sut bydd gweithgareddau a gwasanaethau'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion, sut maent â'u ffocws ar grwpiau a dangynrychiolir lle maent yn sail i amcanion i wella cyfleoedd cyfartal, a manylu ar y mathau o wasanaethau ariannol sydd ar gael
- pennu targedau sy'n dangos i CCAUC uchelgais y sefydliadau a'r raddfa a fwriedir ar gyfer gwneud gwelliannau.

Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth o'r canlynol:

- i ba raddau mae'r amcanion yn cefnogi cynnydd y myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir
- mapio amcanion i gategoriâu Llywodraeth Cymru
- gweithgareddau, gwasanaethau a thargedau i gefnogi amcanion sefydliadau
- gweithgareddau sy'n blaenoriaethu grwpiau targed y Rhaglen Ymestyn yn Ehangach

Nodwch enw'r sefydliad ymgeisio mynediad a ffioedd yma

- cyd-fynd â'r amcanion a'r targedau ym Mesurau Cenedlaethol CCAUC ar gyfer perfformiad Addysg Uwch
- defnyddio targedau cerrig milltir sy'n cyfrannu at dargedau tymor hwy (os yw hynny'n briodol)
- i ba raddau mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru sydd wedi'u hamlinellu yn llythyrau cylch gwaith CCAUC yn cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau.

(paragraffau 102-129 y cyfarwyddyd)

20. **Buddsoddiad incwm ffioedd:** Rhaid i sefydliadau ddatgan cyfran y buddsoddiad incwm ffioedd y mae'r darparwyr yn bwriadu ei buddsoddi mewn gwella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch. Hefyd rhaid rhannu hyn yn ôl amcan a phob gweithgaredd. Rhaid i sefydliadau nodi, ar wahân, swm y buddsoddiad sefydliadol yn y Rhaglen Ymestyn yn Ehangach, ac ni ddylai'r ddarpariaeth fod yn llai nag yn 2019/20, a bod yn glir am lefel unrhyw gyfraniad at y Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach ranbarthol. *(paragraffau 135-137 y cyfarwyddyd).*
21. **Monitro cynlluniau mynediad a ffioedd:** Rhaid i gynlluniau mynediad a ffioedd ddatgan sut mae'r corff llywodraethu'n bwriadu monitro cydymffurfiaeth â gofynion cyffredinol a lefelau ffioedd cynllun mynediad a ffioedd yn ogystal â sut bydd y corff llywodraethu'n monitro perfformiad ac effeithiolrwydd ei gynllun yn erbyn yr amcanion. *(paragraffau 138-141 y cyfarwyddyd).*
22. **Gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau mynediad a ffioedd:** Dylai sefydliadau ddatgan eu dull o werthuso a'r gyfran o incwm ffioedd sydd i'w buddsoddi mewn gwerthuso cynlluniau mynediad a ffioedd. *(paragraffau 141-143 y cyfarwyddyd).*

Nodwch enw'r sefydliad ymgeisio mynediad a ffioedd yma

Enw'r sefydliad:	
-------------------------	--

Adran 3 Awdurdodi cais cynllun mynediad a ffioedd 2020/21

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn yr adran hon ar gyfer CCAUC ac nid yw wedi'i bwriadu ar gyfer ei chyhoeddi.

Awdurdodi cyflwyno cynlluniau mynediad a ffioedd i CCAUC

Nodyn cyfarwyddyd

23. Rhaid i geisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd 2020/21 gael eu cymeradwyo gan gyrrff llywodraethu sefydliadau, yn dilyn proses o ymgysylltu â myfyrwyr cyn eu cyflwyno i CCAUC.
24. Ni chaiff CCAUC argymhell ar gyfer eu cymeradwyo geisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo'n derfynol gan gorff llywodraethu.
25. Rhaid i geisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd 2020/21 gynnwys y canlynol:
 - Atodiad A
 - Adran 1: gwybodaeth reoleiddiol nad yw ar gyfer ei chyhoeddi
 - Adran 2: y cynllun mynediad a ffioedd sy'n cael bod yn fformat y sefydliad ei hun ac
 - Adran 3: cymeradwyaeth y corff llywodraethu i'r holl ddogfennau sydd wedi'u cyflwyno.
 - Atodiad Ai
 - Tabl i ddangos sut mae amcanion sefydliadau'n cyd-fynd â chategorïau Llywodraeth Cymru.
 - Atodiad B
 - Tabl Excel i ategu'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi yn Atodiad A.
26. Rhaid cyflwyno'r ffurflen awdurdodi lawn gyda chymeradwyaeth y corff llywodraethu.
27. Nid oes raid i gais cynllun mynediad a ffioedd 2020/21 gynnwys unrhyw gyfarwyddyd CCAUC ar lenwi'r cais, gan gynnwys Adran 4.

Awdurdodi cais cynllun mynediad a ffioedd 2020/21 ar gyfer ei gyflwyno i CCAUC

Wrth awdurdodi ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd i'w cyflwyno i CCAUC, bydd cyrff llywodraethu'n gwneud y canlynol:

- i. cadarnhau bod yr wybodaeth sydd wedi'i darparu yn y cais cynllun mynediad a ffioedd hwn ar gyfer 2020/21 yn fanwl gywir wrth ei ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata y gellir eu dilysu.
- ii. cadarnhau: **[dileu un neu fwy o'r datganiadau, fel sy'n briodol]**
 - a. ei bod yn dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd a/neu arall sydd ganddo am -sefydliad a reoleiddir ar hyn o bryd, pa un ai y darparwyd yr wybodaeth/data yn wreiddiol at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015 ai peidio;
 - b. nad yw'n dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd a/neu arall sydd ganddo am sefydliad a reoleiddir ar hyn o bryd at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015; ac
 - c. ei fod yn cyflwyno gwybodaeth/data newydd, mwy diweddar fel sail i asesiad CCAUC.
- iii. deall bod CCAUC yn cadw'r hawl i gynnal ymweliad ag ymgeiswyr er mwyn deall yn well y cymhwysedd cysylltiedig â'r sefydliad a'r rheolaeth ar faterion ariannol, a'r data a gyflwynwyd am gynlluniau mynediad a ffioedd ac ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, yr ymgeiswyr.
- iv. deall bod rhaid iddo ddarparu i CCAUC a/neu asiant CCAUC wybodaeth, cymorth a mynediad i'w gyfleusterau a chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar ei ran.
- v. deall y gall CCAUC gynnal, neu drefnu i asiant gynnal, adolygiad perthnasol i ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran yr ymgeiswyr, a rhaid i gyrrff llywodraethu ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan CCAUC neu'r corff a benodir gan CCAUC ar gyfer y diben hwn.
- vi. cadarnhau bod yr holl addysg a ddarperir gan, neu ar ei ran, heb ystyried lefel neu leoliad y ddarpariaeth, wedi cael ei hystyried yn y ceisiadau cynlluniau ffioedd a mynediad.
- vii. cadarnhau bod y sefydliad yn wynebu risg isel o fethu ar sail ariannol yn y tymor canolig i hir.
- viii. cadarnhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig ac nad yw'r archwilydd cofrestredig yr un cwmni a/neu unigolyn â'r cwmni/unigolyn a baratôdd y cyfrifon.
- ix. deall bod rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer addysg uwch.
- x. deall bod rhaid i unrhyw ymrwymadau ariannol i fyfyrwyr a wnaed yng nghynllun mynediad a ffioedd gwreiddiol, fel y cymeradwywyd gan CCAUC, gael eu hanrhydeddu.

Nodwch enw'r sefydliad ymgeisio mynediad a ffioedd yma

Cyflwyno cais cynllun mynediad a ffioedd 2020/21 i CCAUC⁴	
Dyddiad cymeradwyaeth y corff llywodraethu:	
Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu:	
Dyddiad:	

Cyflwyniad wedi'i ddiweddararu/terfynol cynllun mynediad a ffioedd 2020/21 (os yw hynny'n berthnasol)	
Dyddiad cymeradwyaeth y corff llywodraethu:	
Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu:	
Dyddiad:	

⁴ Dim ond dyddiad y fersiwn terfynol a gyflwynwyd gan y corff llywodraethu a'i gymeradwyo gan CCAUC y gall cynlluniau mynediad a ffioedd a gyhoeddir ar wefannau sefydliadau ei gynnwys.

Cyfleoedd Cyfartal

		Amcanion			
Categori Llywodraeth Cymru	Hyrwyddo a diogelu mynediad teg i addysg uwch gan gynnwys adnabod yr unigolion sydd â'r potensial mwyaf ymysg grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol				
	Denu myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir Cadw myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir				
	Gwella dyheadau addysgol a sgiliau pobl o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch				
	Cefnogi a gwella cynnydd pobl o grwpiau a dangynrychiolir a sicrhau eu bod yn cwblhau eu cwrs				
	Gwella'r profiad addysg uwch i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch				
	Darparu gwybodaeth effeithiol i grwpiau a dangynrychiolir, cyn ac yn ystod eu hastudiaethau				
	Darparu cefnogaeth academaidd a lles o ansawdd uchel i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch				
	Cefnogi cynnydd i gyflogaeth neu astudio pellach ymhlith grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch				

Hybu Addysg Uwch

		Amcanion			
Categori Llywodraeth Cymru	Cyflawni ymgysylltu mwy effeithiol â chyrrff preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru a chymunedau				
	Gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gan roi sylw i ansawdd profiad y myfyrwyr				
	Cryfhau cyflogadwyedd graddedigion Cymru				
	Hybu addysg uwch Cymru'n fwy effeithiol yn rhyngwladol				
	Darparu addysg uwch gynaliadwy				
	Codi ymwybyddiaeth o werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr				

Cynllun mynediad a ffioedd sefydliadol 2020/21
Tabl A: Lefelau ffioedd a buddsoddiad ac incwm o ffioedd, 2020/21

Enw'r sefydliad:
 UKPRN y sefydliad:

Rhaid nodi yn y tabl hwn ddata perthnasol i gyrsiau israddedig llawn amser a TAR (SAC) llawn amser rydych yn eu rheoli, sy'n dod o dan y drefn ffioedd bresennol yn 2020/21.

Os byddwch yn darparu cyrsiau sydd â blwyddyn allan, fel blwyddyn allan ar leoliad diwydiannol, neu flwyddyn dramor, a bod gwahanol lefelau o ffioedd yn cael eu codi am y blynyddoedd hyn, dylid ystyried hyn wrth gyfrif y ffi ar gyfartaledd a chyfanswm yr incwm ffioedd a gofnodir yn y tabl hwn.

Am ragor o arweiniad a'r diffiniadau a ddefnyddir yn y tabl hwn, edrychwch ar **Adran Pedwar** y cyfarwyddyd.

Ydych chi wedi nodi lefel ffioedd yn eich cynllun mynediad a ffioedd? Rhowch Ydyn neu Nac ydyn

Rhaid i sefydliadau sydd heb nodi lefel ffioedd lenwi'r ddogfen hon gan ddefnyddio eu hincwm ffioedd disgwyliedig ar gyfer 2020/21. Rydym yn derbyn mai rhagolygon yn unig yw'r ffigurau hyn ac nid ymrwymiad i lefelau ffioedd.

a) Beth yw eich lefel ffioedd arfaethedig uchaf?

	£
Israddedigion llawn-amser	<input type="text"/>
TAR (SAC) llawn-amser	<input type="text"/>

b) A yw'r ffioedd arfaethedig yn a) (uchod) yn cael eu codi am bob darpariaeth israddedig a TAR (SAC) llawn-amser yn eich sefydliad neu a gânt eu darparu ar eich rhan?

	Rhowch Ydy neu Nac ydy
Israddedigion llawn-amser	<input type="text"/>
TAR (SAC) llawn-amser	<input type="text"/>

c) Os nad ydy, beth yw'r ffi gyfartalog (gymedrig) debygol i bob myfyriwr israddedig a TAR (SAC) llawn-amser?

	£
Israddedigion llawn-amser	<input type="text"/>
TAR (SAC) llawn-amser	<input type="text"/>
Pob myfyriwr IR/TAR (SAC) llawn-amser yn y cynllun	<input type="text"/>

d) Pa incwm trefn ffioedd bresennol ydych chi'n disgwyl ei dderbyn yn 2020/21? Dylech gynnwys yr holl incwm ffioedd a dderbynnir am bob myfyriwr israddedig llawn amser a TAR (SAC).

	£
Israddedigion llawn-amser	<input type="text"/>
TAR (SAC) llawn-amser	<input type="text"/>
Cyfanswm	0

e) Rhowch fanylion am faint o incwm ffioedd rydych yn disgwyl ei fuddsoddi mewn perthynas â chyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch. Lle roedd gan ddarparwyr addysg uwch gynlluniau 2019/20 haid i'r gyfran o gyfanswm yr incwm a fuddsoddwyd yn 2020/21 fod o leiaf y gyfran a fuddsoddwyd yn 2019/20. Yn achos yr ymgeiswyr hynny, mae CCAUC wedi darparu islaw swm a chanran cyfanswm incwm 2019/20.

Cyfanswm i'w fuddsoddi yn y canlynol:	2020/21		2019/20	
	£	% o gyfanswm yr incwm	£	% o gyfanswm yr incwm
Cyfle cyfartal	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Hyrwyddo addysg uwch	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Cyfanswm	0		0	

Os yw'r cyfrannau'n wahanol, rhowch sylwebaeth isod:

Cynllun mynediad a ffioedd sefydliadol 2020/21
Tabl B: Rhagolwg gwariant incwm y cynllun mynediad a ffioedd, 2020/21

Enw'r sefydliad:
 UKPRN y sefydliad:

Rhaid cofnodi rhagolwg gwariant yr incwm ffioedd a gofnodwyd yn Nhabl A, a ddarparwyd yn erbyn y categorïau isod, yn y tabl hwn.

Nodyn cyfarwyddyd

Mae'r tabl hwn yn nodi'r buddsoddiad sydd wedi'i ymrwmo i gyflawni pob amcan, y buddsoddiad sydd wedi'i ymrwmo i werthuso cynlluniau mynediad a ffioedd, y buddsoddiad sydd wedi'i ymrwmo i ymestyn yn ehangach a chymorth ariannol.

Nodwch yr **amcanion rydych wedi'u dewis** yn y tabl isod, a'r incwm disgwyledig ar gyfer 2020/21 i'w fuddsoddi mewn cyflawni'r amcanion hyn.

Dylai'r sefydliadau hynny nad ydynt wedi nodi ffi seilio hyn ar y ffioedd maent yn disgwyl eu codi ar gyfer 2020/21. Nid yw hyn yn ymrwmo sefydliadau i'r ffi hon.

Rhaid i fuddsoddiad mewn cyflawni amcanion i wella cyfleoedd cyfartal ymwneud â grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch yn unig.

Bydd gweithgareddau cymorth ariannol i fyfyrwyr yn rhan o gyfanswm buddsoddiad yr ymgeisydd mewn amcanion i gefnogi cyfleoedd cyfartal a/neu hybu addysg uwch (fel y nodir yn Nhabl B (a) a (b)). Mae Tabl B (d) isod yn gofyn i ymgeisydd nodi ar wahân y buddsoddiad disgwyledig mewn gweithgareddau cymorth ariannol i fyfyrwyr **sydd eisoes wedi'u cynnwys** yn (a) a (b). Dylai ymgeisywyr ddatgan lefel eu gwariant yn erbyn pob amcan. Bydd rhaid i'r holl amcanion fod â gwariant wedi'i nodi yn eu herbyn.

Os yw gwariant yn cael ei nodi yn erbyn mwy nag un amcan, dylid ei rannu rhwng amcanion. Dylai cyfanswm y gwariant yn erbyn a) a b) gyd-fynd â'r cyfatebol a nodir yn Nhabl A.

Am ragor o gyfarwyddyd a'r diffiniadau a ddefnyddir yn y tabl hwn, gweler **Adran Pedwar** y cyfarwyddyd.

Rhagolwg gwariant incwm y cynllun mynediad a ffioedd 2020/21

a) Cyfle cyfartal		2020/21	2019/20
Amcanion i wella cyfleoedd cyfartal		£	£
1.			
2.			
3.			
4.			
5.			
6.			
7.			
8.			
9.			
10.			
Cyfanswm		0	0
Canran o'r rhagolwg gwariant i'w wario ar Gyfle Cyfartal			

b) Hynwyddo AU		2020/21	2019/20
Amcanion i hybu addysg uwch		£	£
1.			
2.			
3.			
4.			
5.			
6.			
7.			
8.			
9.			
10.			
Cyfanswm		0	0
Canran y gwariant disgwyledig i'w wario ar hybu addysg uwch			

c) Gwerthusiad		2020/21	2019/20
1. Buddsoddiad mewn gwerthusio effeithiolrwydd cynlluniau mynediad a ffioedd		£	£

d) Cyfanswm gwariant disgwyledig incwm cynllun mynediad a ffioedd 2020/21, a) + b) + c)		2020/21	2019/20
		£	£
		0	0

e) Ymgynraedd yn Ehangach		2020/21	2019/20
1. Buddsoddiad i gefnogi'r Bartneriaeth Ymgynraedd yn Ehangach		£	£

	2020/21		2019/20	
	£	Niferoedd myfyrwyr a gynorthwyr a ragwelir	£	Niferoedd myfyrwyr a gynorthwyr a ragwelir
Hebgor ffioedd				
Bwsariaethau				
Ysgoloriaethau				
Cronfeydd caledi				
Darparu cymoer a sgliau rheoli ariannol				
Cymorth ariannol arall				
Cyfanswm	0	0	0	0
Canran o'r rhagolwg gwariant i'w wario ar gefnogaeth ariannol i fyfyrwyr				

Os yw'r cyfanswm i'w fuddsoddi yn 2020/21 yn llai nag yr oedd yn 2019/20 rhwch sylwadau isod:

Cynllun mynediad a ffioedd sefydliadol 2020/21

Tabl E: Trefniadau partneriaeth ac incwm ffioedd i fyfyrwyr o bob dull a lefel, gan gynnwys addysg bellach ac is, ac ar gyfer darpariaeth partneriaeth yn y DU nad yw wedi'i chynnwys eisoes yn Nhabl D, 2020/21

Enw'r sefydliad:
UKPRN y sefydliad:

Dylai'r tabl hwn gael ei gwblhau gan yr holl ddarparwyr sy'n rhoi masnachfrait i ddarparwyr eraill i sy'n rhiant-gorff neu is-gorff nad yw'n cyflwyno ei gynllun mynediad a ffioedd ei hun nac yn dilysu darpariaeth a gyflwynir gan ddarparwr arall nad yw'n rhan o drefniant masnachfrait lle mae gan y darparwr arall reolaeth ar y ddarpariaeth. Os oes gan ddarparwyr fathau eraill o ddarpariaeth maent yn ei chyflwyno mewn cydweithrediad â phartner, dylid cynnwys y trefniadau hynny yma hefyd.

Dylai'r tabl gael ei gwblhau ar gyfer pob dull a lefel astudio, gan gynnwys addysg bellach ac is.

Ni ddylid cofnodi yma unrhyw ddarpariaeth sydd wedi'i chofnodi eisoes yn Nhabl D, h.y. darpariaeth ar ryddfrait i ddarparwr elusennol a darpariaeth a gyflwynir gan is-gwmni elusennol gyda chi'n rhiant-gwmni'r is-gwmni hwnnw ac nid yw'r is-gwmni'n cyflwyno ei gynllun mynediad a ffioedd ei hun, sydd o dan y drefn ffioedd bresennol. Dylid nodi yma unrhyw ddarpariaeth rydych ond yn ei dilysu, ac nid yn ei darparu, ond sydd o dan y drefn ffioedd bresennol, ac unrhyw ddarpariaeth israddedig lawn amser/TAR (SAC) rydych yn ei rhoi ar ryddfrait i ddarparwr anelusennol neu nad yw o dan y drefn ffioedd bresennol.

Dylai'r tabl gael ei gwblhau dim ond os yw'r darparwr arall neu'r is-gorff yn y DU a'r myfyrwr wedi'u lleoli yn y DU.

Mae'r cyfarwyddyd isod yn nodi'r categorïau o gyrsiau y dylid ac na ddylid cofnodi gwybodaeth ar eu cyfer.

Nodyn cyfarwyddyd

Cofiwch gynnwys gwybodaeth am gyrsiau:

- Rydych yn eu rhoi allan ar fasnachfrait i ddarparwr elusennol arall neu ddarparwr heb fod yn elusennol.
- A gyflwynir gan is-gorff elusennol, lle rydych chi'n rhiant-gorff i'r is-gorff hwnnw, ac nid yw'r is-gorff yn cyflwyno ei gynllun mynediad a ffioedd ei hun.
- A gyflwynir gan is-gorff heb fod yn elusennol, lle rydych chi'n rhiant-gorff i'r is-gorff hwnnw.
- A gyflwynir mewn cydweithrediad â phartner.
- Nad ydych yn eu darparu ond yn eu dilysu yn unig, pa un ai yw'r darparwr yn elusen ai peidio.

Peidiwch â chynnwys gwybodaeth am gyrsiau:

- Rydych chi'n eu darparu a'u rheoli ac sy'n cael eu dilysu gan gorff arall ond nad ydynt yn rhan o drefniant masnachfrait.
- Rydych chi'n eu darparu, eu rheoli a'u dilysu eich hun.
- Rydych chi'n eu darparu a'u rheoli, sy'n cael eu dilysu gennych chi, neu eich rhiant-gorff neu gorff arall, ble rydych chi'n is-gorff i'r rhiant-gorff hwnnw.
- Rydych chi'n eu darparu ar ran darparwr arall drwy gyfrwng cytundeb masnachfrait.
- A gyflwynir gan is-gorff, lle rydych chi'n rhiant-gorff i'r is-gorff hwnnw, ac mae'r is-gorff yn cyflwyno ei gynllun mynediad a ffioedd ei hun. (Oni bai fod rhes pump y cynwysiadau'n berthnasol.)

Os yw'r ddarpariaeth israddedig lawn amser/TAR (SAC) o dan y drefn ffioedd bresennol yn dod o dan yr un cytundeb â darpariaeth arall nad yw o dan y drefn ffioedd bresennol, dylid nodi'r bartneriaeth yn y tabl hwn ac yn Nhabl D. Dylai nifer disgwylid y myfyrwr a'r incwm a nodir yn y tabl hwn eithrio unrhyw niferoedd/incwm sydd wedi'u nodi eisoes yn Nhabl D.

Os llofnodwyd cytundebau partneriaeth cyn 1 Medi 2015 cadarnhewch eu bod yn cynnwys atodiad sy'n cadarnhau bod y ddarpariaeth yn dod o dan y Ddeddf AU.

Am ragor o arweiniad a'r diffiniadau a ddefnyddir yn y tabl hwn, edrychwch ar **Adran Pedwar** y cyfarwyddyd.

Rhes	Math o drefniant (dewiswch oddi ar y gwymprestr)	Enw'r partner neu'r is-gorff	Cyfeiriad y partner neu'r is-gorff	Dyddiad dechrau'r cytundeb partneriaeth DD/MM/BBBB	Os yw dyddiad y cytundeb partneriaeth cyn 1 Medi 2015, cadarnhewch fod atodiad ar gael sy'n cadarnhau bod y ddarpariaeth yn dod o dan y Ddeddf AU (Oes/Nac oes)	Cyfanswm disgwylid y myfyrwr	Cyfanswm yr incwm disgwylidig o'r trefniant (£)
1							
2							
3							
4							
5							

Cynllun mynediad a ffioedd sefydliadol 2020/21

Tabl F: Trefniadau partneriaeth a campws ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr pob dull a lefel (gan gynnwys lefel 3 ac is) ar gyfer darpariaeth partneriaeth a campws wedi'i lleoli y tu allan i'r DU, 2020/21

Enw'r sefydliad:
UKPRN y sefydliad:

Dylai'r tabl hwn gael ei lenwi gan bob darparwr sydd â threfniadau partneriaeth neu gampwsau sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU, gan gynnwys yr UE, ar gyfer pob dull a lefel astudio, gan gynnwys lefel 3 ac is.

Nodyn cyfarwyddyd

Dylid cynnwys pob math o bartneriaethau yn y tabl hwn, gan gynnwys presenoldeb corfforol (e.e. campws y darparwr), partneriaeth leol (e.e. trefniant masnachfrait neu drefniant dilysu) a dysgu o bell dim ond os yw'r myfyrwr wedi'i lleoli y tu allan i'r DU a bod y cwrs yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â phartner heb fod yn y DU.

Ceir chwe math o ddarpariaeth partneriaeth yn y gwymprestr yn y golofn 'Math o drefniant partneriaeth', gyda chategori 'Arall' ychwanegol os oes amgylchiadau nad ydynt yn cyd-fynd â'r chwe math yma. Mae'r mathau'n cyfateb i'r rhai a ddefnyddiwyd yn yr arolwg TNE yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd gan CCAUC yn 2015. Mae'r nodiadau cyfarwyddyd yn Adran Pedwar yn cynnwys disgrifiad o'r categorïau hyn.

Os llofnodwyd cytundebau partneriaeth cyn 1 Medi 2015 cadarnhewch eu bod yn cynnwys atodiad sy'n cadarnhau bod y ddarpariaeth yn dod o dan y Ddeddf AU.

Am ragor o arweiniad a'r diffiniadau a ddefnyddir yn y tabl hwn, edrychwch ar **Adran Pedwar** y cyfarwyddyd.

Rhes	Math o drefniant partneriaeth/campws (dewiswch oddi ar y gwymprestr)	Enw'r partner/campws	Cyfeiriad y partner/campws, gan gynnwys y gwlad	Dyddiad dechrau'r cytundeb partneriaeth/campws DD/MM/BBBB	Os yw dyddiad y cytundeb partneriaeth cyn 1 Medi 2015, cadarnhewch fod atodiad ar gael sy'n cadarnhau bod y ddarpariaeth yn dod o dan y Ddeddf AU (Oes/Nac oes)	Cyfanswm disgwylidig y myfyrwyr	Cyfanswm yr incwm disgwylidig o'r trefniant (£)
1							
2							
3							
4							
5							

